



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG O CYMRU'R DYFODOL - Y CYNLLUN CENEDLAETHOL 2040

Datganiad Ôl-gyhoeddi

CHWEFROR 2021

Incorporating

EC HARRIS
BUILT ASSET
CONSULTANCY



RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Gwiriwr	Newidiadau
1	Ionawr 2021	Sarah Tooby	David Hourd	Drafft Cyntaf i'w adolygu gan y cleient
2	Ionawr 2021	Sarah Tooby	David Hourd	Ail Ddrafft, yn dilyn adolygiad gan y cleient
3	Chwefror 2021	Sarah Tooby	David Hourd	Drafft Terfynol, i'w gyhoeddi

Paratowyd yr adroddiad hwn dyddiedig Chwefror 2021 ar gyfer (y “Cleient”) yn unol â’r telerau ac amodau penodi (y “Penodiad”) rhwng y Cleient ac **Arcadis (UK) Limited** (“Arcadis”) at y dibenion a nodir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw unigolyn/unigolion eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn na’i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o’r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

CYNNWYS

RHEOLI FERSIYNAU.....1

1 CYFLWYNIAD1

1.1	Beth yw Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040?.....	1
1.2	Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?	1
1.3	Diben y Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn	2

2 SUT Y MAE YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL A CHYNALIADWYEDD WEDI

CAEL EU HINTEGREIDDIO I CYMRU'R DYFODOL.....3

2.2	Amseriad, a goblygiadau Covid-19.....	3
2.3	Casglu Tystiolaeth, Cwmpasu'r ACI ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	6
2.4	Datblygu Amcanion ac Opsiynau, Ymgysylltu Pellach, Sgrinio ACI ac HRA	7
2.5	Development of the Draft NDF.....	8
2.6	Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig (Mawrth 2020) 8	
2.7	Ar ôl Craffu gan y Senedd.....	8
2.8	Ymgynghori ar yr Adroddiadau ACI ac ystyriaeth o'r ymatebion.....	8
2.9	Fframwaith a Chwmpas yr ACI.....	9
	Cwmpas Daearyddol ac Amser	9
	Fframwaith yr ACI	9

3 SUT Y CYMERWYD CANFYDDIADAU'R ACI I YSTYRIAETH, A'R RHESYMAU

AM DDEWIS Y CYMRU'R DYFODOL CYHOEDDEDIG, GAN GYNNWYS YR ASESIAD

O OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL.....17

3.1	Yr hyn y mae'r ACI wedi ei arfarnu	17
3.2	Canlyniadau Cymru'r Dyfodol (gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol) (Tasg B.1)	17
3.3	Y rhesymau am ddewis y Cymru'r Dyfodol Cyhoeddedig, yng ngoleuni opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd.	18
	Dull gofodol gan gynnwys Opsiynau Amgen	18
	Yr Opsiwn a Ffeirir	19
	Asesiad o'r Opsiwn a Ffeirir (Chwefror 2018)	20
3.4	Crynodeb o'r asesiad o'r FfDC Drafft (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) (Mai 2019).....	22
3.5	Asesiad o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig i Bolisiâu (Mawrth 2020) (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn)	22
3.6	Diweddariadau ar ôl Craffu gan y Senedd	23

4	MESURAU I FONITRO EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL SYLWEDDOL	24
5	CASGLIAD	31
	APPENDIX A YMATEBION LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION.....	33
	APPENDIX B TABL SGRINIO I BENDERFYNU A OEDD ANGEN NEWIDIADAU PELLACH I'R ACI, YN DILYN NEWIDIADAU I CYMRU'R DYFODOL, AR ÔL CRAFFU GAN Y SENEDD	51
	APPENDIX C YMATEBION YMGYNGHORI I ADRODDIAD INTERIM YR ACI (OPSIYNAU A FFEFRIR).....	75

1 CYFLWYNIAD

1.1 Beth yw Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040?

- 1.1.1 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Cymru'r Dyfodol - y cynllun cenedlaethol 2040. Y 'Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)' oedd yr enw blaenorol ar hwn. Cyfeirir at rai o fersiynau'r asesiad, fel y disgrifir yn y Datganiad hwn, fel asesiadau o wahanol gamau'r FfDC, fel y'i galwyd ar yr adeg honno.
- 1.1.2 Bydd Cymru'r Dyfodol yn cynnig cyd-destun gofodol ar gyfer hwyluso'r ddarpariaeth o ddatblygiad yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd Cymru'r Dyfodol yn cael ei ddefnyddio i lywio buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod buddsoddiadau a datblygiadau - ar raddfa fawr neu fach - yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ac at les cymunedau. Bydd Cymru'r Dyfodol yn dylanwadu felly ar sut y mae cymunedau yn datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y gallai hyn eu cael wrth i'r cynllun ddatblygu. Dylid darllen Cymru'r Dyfodol ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) ac nid yw'n ailadrodd PCC, sy'n darparu polisi cynllunio i Gymru gyfan. Mae Cymru'r Dyfodol yn disodli Cynllun Gofodol Cymru.

1.2 Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

- 1.2.1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw rhoi Cymru yn uniongyrchol ar lwybr cynaliadwy i wella llesiant. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflawni datblygiad cynaliadwy a ddiffinnir fel:
- ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."*
- 1.2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyflwyno saith nod llesiant dros y cyfnod o 20 mlynedd, y bydd Cymru'r Dyfodol yn chwarae rhan bwysig o ran cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy (gweler Tabl 1-1 y Prif Adroddiad ACI¹, Chwefror 2021). Ni ellir gwahanu'r nodau llesiant hyn oddi wrth ei gilydd ac maent yn esbonio'r hyn a olygir gan lesiant Cymru.
- 1.2.3 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn ategu Cymru'r Dyfodol - y cynllun cenedlaethol 2040, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.² Mae'r broses yn arwain at ddatblygu'r Adroddiad ACI cyhoeddedig wedi rhedeg yn gyfocrog â pharatoad Cymru'r Dyfodol. Mae proses yr ACI wedi cynnwys asesiadau o effeithiau cynaliadwyedd tebygol opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer Cymru'r Dyfodol (gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol), wedi'u cynnal ar lefel uchel fel adlewyrchiad o natur strategol y cynllun. Yn ystod y broses hon, mae'r ACI wedi argymhell mesurau ar gyfer lliniaru neu osgoi effeithiau cynaliadwyedd negyddol tebygol ac ar gyfer cynyddu effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol tebygol.
- 1.2.4 Mae'r asesiad hwn yn adlewyrchiad o ofynion sawl darn o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Rheoliadau AAS³. Mae Adran 3 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac yn mewnosod Adrannau newydd 60, 60A, 60B a 60C ar baratoi fframwaith datblygu cenedlaethol i Gymru. Mae Adran 60B (1) (b) yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru gynnal arfarniad o gynaliadwyedd (a adnabyddir fel Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)) o'r polisiâu yn y fframwaith datblygu cenedlaethol ac mae'n rhaid i hwn gynnwys gofynion y Rheoliadau AAS ac ystyriaeth o effeithiau ar y Gymraeg.

¹ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [Gwelwyd ar 28.01.21]

² <https://busnes.senedd.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?Id=21513>

³ Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (OS 2004/1656 (W/170)) ac yn Lloegr, *The Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004* (SI 2004/1633)

- 1.2.5 Asesiad o effeithiau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol cynllun yw AC, wedi'i gynnal o gychwyn y broses o lunio cynllun, i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae AC yn broses systematig ac ailadroddol sy'n nodi ac yn adrodd ar i ba raddau y bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y gellir diffinio datblygu cynaliadwy yn unol â nhw ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella perfformiad cynllun yng nghyswllt y rhain.
- 1.2.6 O ystyried natur a chwmpas Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio integreiddio'r dull o gyflawni'r AC a'r AAS gydag asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae disgrifiad llawn o'r gofynion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sydd wedi'u cwmpasu gan yr ACI ar gael yn adran 1.5 Prif Adroddiad yr ACI. Mae hwn yn caniatáu golwg fwy cyflawn o'r goblygiadau a'r cyfleoedd cynaliadwyedd sy'n deillio o Cymru'r Dyfodol. Mae'r ACI yn integreiddio'r asesiadau canlynol, ac yn bodoli gofynion deddfwriaethol y canlynol yn llawn: Arfarniad Cynaliadwyedd; Rheoliadau AAS; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant; Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r Polisi Adnoddau Naturiol (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae'r ACI hefyd yn cymryd i ystyriaeth gofynion anneddfwriaethol asesiadau yn gysylltiedig â Phrawfesur Gwledig; Effeithiau Iechyd; Newid yn yr Hinsawdd; a Datblygu Economaidd.
- 1.2.7 Mae integreiddio'r asesiadau hyn yn sicrhau y dilyni'r dull cydweithredol ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn ffordd gyson a thryloyw.

1.3 Diben y Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn

- 1.3.1 Y Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn yw diweddglo'r broses ACI ac mae'n bodloni gofynion mabwysiadu cynllun a rhaglen y Rheoliadau AAS. Yn unol â Rheoliad 16 (4) y Rheoliadau AAS, mae'r datganiad hwn yn nodi'r canlynol:
- Sut y mae ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd wedi cael eu hintegreiddio i Cymru'r Dyfodol (Adran 2 y ddogfen hon);
 - Sut y cymerwyd safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Adroddiadau'r ACI i ystyriaeth (Adran 2 y ddogfen hon);
 - Sut y mae canlyniadau Adroddiadau'r ACI wedi cael eu cymryd i ystyriaeth (Adran 3 y ddogfen hon);
 - Y rhesymau am ddewis Cymru'r Dyfodol, fel y'i cyhoeddwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â nhw (Adran 3 y ddogfen hon); ac
 - Y mesurau a fydd yn cael eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd sylweddol gweithredu Cymru'r Dyfodol (Adran 4 y ddogfen hon).

2 Sut y mae Ystyriaethau Amgylcheddol a Chynaliadwyedd wedi cael eu hintegreiddio i Cymru'r Dyfodol

- 2.1.1 Seiliwyd cwmpas yr asesiad o Cymru'r Dyfodol ar y fframwaith asesu o amcanion, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd ym mis Ebrill 2018 ar gam Cwmpasu'r ACI⁴. Mae'r nodau llesiant wedi bod yn rhan annatod o baratoad yr Adroddiad Cwmpasu a Fframwaith yr ACI (gweler Tabl 1-5 Prif Adroddiad yr ACI⁵, Chwefror 2021). Defnyddiwyd y nodau llesiant i hysbysu'r adolygiad o'r dystiolaeth, i nodi problemau ac i strwythuro'r Fframwaith asesu. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffiniwyd gan y Ddeddf yn rhan sylfaenol o sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus - gan gynnwys Llywodraeth Cymru - weithredu. Mae'n rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, trwy gymryd yr egwyddor datblygu cynaliadwy i ystyriaeth. Mae'r egwyddor wedi ei chyfansoddi o bump 'dull o weithio' y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu dilyn er mwyn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ddatblygu cynaliadwy. Cyflwynir y dulliau o weithio hun a sut y mae'r ACI wedi eu mabwysiadu hyd yma (trwy gyfeirio at adroddiadau a chymau gweithredu blaenorol yr ACI), yn Nhabl 1-2 Prif Adroddiad yr ACI, Chwefror 2021.
- 2.1.2 Roedd yr asesiad yn un lefel uchel, gan adlewyrchu cylch gwaith cenedlaethol Cymru'r Dyfodol a'i ymateb. Mae'r asesiad wedi cymryd i ystyriaeth yr hyn y gallai Cymru'r Dyfodol ei gyflawni o bosibl a'i gwmpas cenedlaethol. Mae'n cydnabod felly swyddogaeth a dylanwad rhanddeiliaid eraill, er enghraifft, darparwyr addysg neu fyrdau ieuchyd, o ran cyflawni nodau cyffredin, er bod hynny y tu allan i gylch gwaith y system gynllunio. Mae'r asesiad yn adlewyrchu'r potensial i Cymru'r Dyfodol lywio gwaith cynllunio defnydd tir ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol ac nid yw'n ceisio darparu canllawiau dylunio lleol penodol, er y bydd angen dilyn ei egwyddorion wrth baratoi cynlluniau haen is, y mae'n ofynnol iddynt gyd-fynd yn gyffredinol â Cymru'r Dyfodol.
- 2.1.3 Mae'r asesiad o Cymru'r Dyfodol yn dangos proses gwneud penderfyniadau dryloyw a chadarn ar gyfer datblygu'r cynllun. Mae datblygiad yr ACI a Cymru'r Dyfodol wedi bod yn ailadroddol, a chafwyd trafodaethau rheolaidd rhwng timau'r ACI a Cymru'r Dyfodol. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella neu opsiynau amgen, fel y bo'n briodol. Mae'r broses gydweithredol o weithio wedi cynnwys cyfarfodydd a chymau adolygu anffurfiol i drafod y materion sy'n datblygu. Felly mae proses yr ACI wedi gallu darparu gwybodaeth gywir, gadarn a thryloyw i Lywodraeth Cymru am gynaliadwyedd opsiynau (yn unigol ac yn gyfunol) sydd wedi bod yn hollbwysig ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth o ran yr hyn i'w gynnwys yn Cymru'r Dyfodol.

2.2 Amseriad, a goblygiadau Covid-19

- 2.2.1 Gwnaed y gwaith o ddrafftio'r ACI dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2020, tarwyd y DU gan bandemig byd-eang Covid-19 gan arwain at effaith ddigynsail ar economi a phatrymau teithio Cymru ac ieuchyd a llesiant y boblogaeth. Awgrymwyd y gallai'r pandemig arwain at newidiadau tymor hwy i'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau, yn enwedig o ran ein gwerthfawrogiad o fannau awyr agored, ein newidiadau i batrymau teithio a'n patrymau gweithio. Ar ôl i'r pandemig ddod i ben, bydd gan y newid i agweddau pobl at weithgareddau awyr agored a gweithio o bell y potensial o ddod yn fwy parhaol.
- 2.2.2 Er na chyfeirir yn benodol at Covid-19 yn yr ACI, mae'r ACI yn cynnig arfarniad o'r mesurau polisi yn Cymru'r Dyfodol gan ddefnyddio fframwaith arfarnu a seiliwyd ar ddealltwriaeth eglur o sut i sicrhau lleoedd mwy cynaliadwy. Mae'r fframwaith yn cynnwys Amcanion ACI yn gysylltiedig, er enghraifft, â mynediad at fannau agored, hyrwyddo teithio llesol, gwelliannau i gyfathrebu digidol a llai o ddibyniaeth ar geir. Mae hyn wedi sicrhau bod Cymru'r Dyfodol yn cynnwys amrywiaeth o fesurau

⁴ Mae adroddiad Cwmpasu'r ACI ar gael ar-lein yn:


https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-adroddiad-gwerthuso-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.185709353.1431137948.1613474808-620607912.1597653541 [gwelwyd ar 19.02.21]

⁵ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

polisi y bwriedir iddynt gefnogi a hyrwyddo'r themâu hyn, a fydd yn rhan allweddol o ddatblygu cynaliadwy, ac adferiad yn ôl yr angen, i'r dyfodol.

- 2.2.3 Mae'r ACI wedi'i seilio ar dystiolaeth a thueddiadau sylfaenol. Er bod 2020 yn annodweddiadol o ran llawer o dueddiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, ystyrir bod y flwyddyn hon yn anomaledd yn hytrach na 'normal newydd', fell mae'r tueddiadau hirdymor a nodwyd yn yr ACI yn dal i fod yn sail briodol ar gyfer arfarnu. Gallai newidiadau a welwyd yn ystod y pandemig i batrymau teithio, teithio llesol, effeithiau o weithio gartref, canol trefi, anghydraddoldebau iechyd a llesiant, anfanteision economaidd-gymdeithasol, a gwerth mannau hamdden awyr agored, gael effaith barhaus y tu hwnt i'r pandemig. Os felly, mae Cymru'r Dyfodol yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r tueddiadau hyn a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol posibl. Bydd effeithiau a thueddiadau'r dyfodol o'r pandemig yn cael eu hadlewyrchu yn y dystiolaeth a'r gwaith monitro. Nid yw proses yr ACI yn sefydlog a bydd fersiynau o'r Arfarniad a Cymru'r Dyfodol yn y dyfodol yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i dueddiadau hirdymor sy'n datblygu. Mae hefyd yn wir y bydd gan y Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol y cyfle i addasu i unrhyw dystiolaeth newydd sy'n codi.

Ffigur 2-1: Camau ym Mhroses yr ACI (addaswyd o ODPM 2005) a Chamau Datblygu'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn)⁶



⁶ ODPM (2005) Canllaw Ymarferol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gymhwyso Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC "ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd"

2.3 Casglu Tystiolaeth, Cwmpasu'r ACI ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- 2.3.1 Mae Ffigur 2-1 yn cyflwyno'r broses a arweiniodd at ddatblygu'r Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn, sydd wedi rhedeg yn gyfochrog â pharatoad Cymru'r Dyfodol (a ddangosir yn y ffigur fel 'FfDC'). Dechreuodd y gwaith o baratoi'r FfDC â phroses o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cychwynnodd y gwaith hwn yn ystod gaeaf 2016/17 gyda chais am dystiolaeth ar gyfer yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), gan gynnwys cais am brosiectau. Dilynwyd hyn gan gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd mewn pedwar lleoliad ledled y wlad er mwyn helpu i nodi materion gofodol allweddol ar gyfer y cynllun. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, sgriniwyd y fframwaith datblygu cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol) i benderfynu pa un a oedd angen AAS ffurfiol ai peidio. Cadarnhawyd y gofyniad hwn, ac ar y sail hon, aethpwyd ati i ddatblygu'r ACI.
- 2.3.2 Yng ngwanwyn 2017, gwnaed rhagor o waith i nodi materion ar gyfer y cynllun yn dilyn y digwyddiadau ymgysylltu. Ar y cam hwn, cafodd syniadau cychwynnol eu datblygu ar gyfer amcanion ac opsiynau strategol posibl.
- 2.3.3 Dechreuodd Cam A yr ACI (Cwmpasu) hefyd ar yr adeg hon, a oedd yn cynnwys mwy o gasglu tystiolaeth a dadansoddi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd, a chafodd hyn oll ei gydblythu â'r sail dystiolaeth. Yr Adroddiad Cwmpasu drafft ar gyfer yr ACI o'r FfDC oedd un o'r camau cyntaf o ran ymgysylltu a chydweithredu. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft rhwng 28 Ebrill a 21 Gorffennaf 2017. Hefyd, cynhaliwyd gweithdy ddechrau mis Mai 2017 gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o brosesau asesu sydd i'w cynnwys yn yr ACI. Cyhoeddwyd Adroddiad Cwmpasu yr ACI i Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw i gael sylwadau ganddynt. Fe'i hanfonwyd at ymgynghoreion statudol ar draws y ffin hefyd, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Historic England, er mwyn cael eu sylwadau; yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach fel y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB).
- 2.3.4 Cam A oedd y gwaith hwn, 'Gosod y Cyd-destun a'r Amcanion, Pennu'r Llinell Sylfaen a Phenderfynu ar Gwmpas', o Ffigur 2-1 uchod. Roedd hyn yn cynnwys y bum dasg ganlynol:
- A1: Nodi polisiâu, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac amcanion yr ACI;
 - A2: Casglu gwybodaeth sylfaenol;
 - A3: Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd;
 - A4: Datblygu Fframwaith yr ACI; ac
 - A5: Ymgynghori ar gwmpas yr ACI.
- 2.3.5 Yr Adroddiad Cwmpasu Terfynol (Ebrill 2018)⁷ yw cam cychwynnol yr ACI. Mae'n dilyn dull integredig a luniwyd drwy ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid ac mae'n dilyn y dull a nodir yn y canllawiau cyhoeddedig⁸, gan geisio:
- Pennu cwmpas a lefel manylder yr ACI;
 - Nodi cynlluniau, polisiâu, rhaglenni a mentrau perthnasol a fydd yn llywio proses yr ACI;
 - Nodi gwybodaeth berthnasol am amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ac amgylcheddol presennol ac a ragwelir yn y dyfodol yng Nghymru ar raddfa genedlaethol;
 - Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol; a
 - Chyflwyno fframwaith ar gyfer yr ACI, y gellir ei ddefnyddio i arfarnu'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn).

⁷Mae adroddiad Cwmpasu'r ACI ar gael ar-lein yn:

https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-adroddiad-gwerthuso-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.185709353.1431137948.1613474808-620607912.1597653541 [gwelwyd ar 19.02.21]

⁸ODPM (2005) Canllaw Ymarferol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gymhwyso Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC "ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd"

- 2.3.6 Mae ymatebion i'r sylwadau a gafwyd a sut y maent wedi dylanwadu ar y diwygiadau i'r ACI, wedi eu nodi yn yr adroddiad ymgynghori sydd ar gael yma⁹.

2.4 Datblygu Amcanion ac Opsiynau, Ymgysylltu Pellach, Sgrinio ACI ac HRA

- 2.4.1 Gan ddefnyddio'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad, dechreuodd y gwaith yn ystod haf/hydref 2017 o barhau i ddatblygu Amcanion ac Opsiynau Strategol amlinellol. Manteisiodd hwn ar yr holl waith a wnaed hyd hynny ar gyfer yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) gan gynnwys, er enghraifft, y sail dystiolaeth, cofnodion o'r digwyddiad ymgysylltu a'r ymgynghoriad a'r ACI a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) datblygol. Gwnaed gwaith Sgrinio HRA lefel uchel cychwynnol ar yr adeg hon hefyd¹⁰. Yna, defnyddiwyd yr amcanion a'r opsiynau yn rhan o'r pecyn cyn-digwyddiad ar gyfer yr ymgysylltiad a oedd ar fin cael ei gynnal ar yr amcanion a'r opsiynau a oedd yn dod i'r amlwg. Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Hydref 2017 a chofnodwyd y canlyniadau¹¹.
- 2.4.2 Ym mis Tachwedd 2017, roedd yr amcanion a'r opsiynau cychwynnol yn destun ACI a chafodd y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i dîm Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar eu datblygiad pellach. Yna roedd y fersiwn nesaf o'r amcanion a'r opsiynau yn destun ACI a Sgrinio HRA Rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2017/18. Cofnodwyd y canlyniadau hyn mewn Adroddiad Interim yr ACI¹² a ategodd ymgynghoriad ar fersiwn Materion ac Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir¹³ yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) rhwng 30 Ebrill 2018 a 23 Gorffennaf 2018. Mireiniwyd a diwygiwyd yr ACI ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.
- 2.4.3 Cam B oedd y gwaith hwn, 'Datblygu a Diffinio Opsiynau. Roedd hyn yn cynnwys y chwe thasg ganlynol:
- B1: Profi amcanion y cynllun yn ôl amcanion yr AC;
 - B2: Datblygu opsiynau'r cynllun;
 - B3: Darogan effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronol ac eilaidd) opsiynau ac opsiynau amgen y cynllun;
 - B4: Arfarnu effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronol ac eilaidd) opsiynau ac opsiynau amgen y cynllun;
 - B5: Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl; a
 - B6: Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithrediad y cynllun.
- 2.4.4 Yn ogystal â'r uchod, cwblhaodd yr Adroddiad ACI Drafft dasgau penodol Cam B at ddiben mireinio a diffinio opsiynau polisïau (gweler Atodiadau C a D). Hefyd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ag ymgynghoreion ehangach ar strwythur yr adroddiad hwn yn rhan o'r broses ddrafftio ailadroddol. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r RSPB, sydd wedi'u cofnodi yn y Cynllun Ymgysylltu¹⁴ ar gyfer y FfDC ar y pryd (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn).
- 2.4.5 Nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad ACI Interim wedi'u cyhoeddi ar y pryd, ac maent wedi eu cynnwys yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

⁹ <https://lyw.cymru/gwerthusiad-cynaliadwyedd-integredig-or-fframwaith-datblygu-cenedlaethol> [Gwelwyd ar 6.08.20]

¹⁰ Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael ar-lein yn: <https://lyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-sgrinio-hra-rhagarweiniol.pdf> [Gwelwyd ar 06.08.20]

¹¹ https://lyw.cymru/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040?_ga=2.19550648.1431137948.1613474808-620607912.1597653541#Ymgysylltu

¹² Adroddiad Interim yr ACI, ar gael ar-lein yn: <https://lyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf> [Gwelwyd ar 06.08.20]

¹³ Ymgynghoriad Materion ac Opsiynau'r FfDC, ar gael ar-lein yn: <https://lyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-y-prif-faterion-opiynau-ar-opiwn-a-ffefrir> [Gwelwyd ar 06.08.20]

¹⁴ https://lyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cynllun-ymgysylltu_0.pdf [gwelwyd ar 26.01.21]

2.5 Datblygiad yr FfDC Drafft

- 2.5.1 Arfarnwyd FfDC Drafft mis Gorffennaf 2019 (a aseswyd ym mis Mai 2019), gan gynnwys ei Strategaethau a Pholisïau Gofodol, ar gyfer ei effeithiau tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI. Ymgynghorwyd ar y cam hwn o'r broses rhwng 7 Awst a 15 Tachwedd 2019.

2.6 Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig (Mawrth 2020)

Ar sail yr uchod, lluniwyd yr FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig yn unol â'r pum dull o weithio sy'n ofynnol yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio dull fesul cam wedi'i seilio ar ddatblygu cyfres o opsiynau realistig a'u mireinio yn opsiwn a ffefrir, cyn symud ymlaen i gynllun drafft llawn. Dylanwadwyd yn gryf ar y gwaith hwn gan gyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliaid a dull cydweithredol trawslywodraethol.

2.7 Ar ôl Craffu gan y Senedd

- 2.7.1 Yn dilyn craffu gan y Senedd rhwng 21 Medi a 26 Tachwedd 2020, cynigiwyd nifer o newidiadau i Cymru'r Dyfodol. Adlewyrchwyd y rhain ers hynny yn yr ACI hwn, proses sydd wedi'i chofnodi yn Atodiad A y Datganiad hwn. Nodir mai dau newid sgorio yn unig a gofnodwyd, o ran asesu P6, gan gynyddu'r sgôr tymor canolig a hirdymor o niwtral i fân gadarnhaol, yn erbyn yr amcan tai.

2.8 Ymgynghori ar yr Adroddiadau ACI ac ystyriaeth o'r ymatebion

- 2.8.1 Nodir yr Adroddiadau ACI a baratowyd, a ble y gellir cael gafael arnynt ar-lein, yn Nhabl 2-1. Mae hwn hefyd yn cynnwys cyfeiriad at le mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cofnodi.

Tabl 2-1: Adroddiadau ACI presennol a ble i ddod o hyd iddynt

Adroddiadau ACI Presennol	Ble i ddod o hyd iddynt
Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Ebrill 2018, Arcadis	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-adroddiad-gwerthuso-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.185709353.1431137948.1613474808-620607912.1597653541 [Gwelwyd ar 19.02.21]
Nodir ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd, a sut y maent wedi dylanwadu ar y diwygiadau i'r ACI yn yr adroddiad ymgynghori	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-cynaliadwyedd-integredig-or-fframwaith-datblygu-cenedlaethol [Gwelwyd ar 6.08.20]
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Arfarniad o'r Opsiynau Eraill a'r Opsiwn a Ffefrir: Adroddiad Interim yr ACI Ebrill 2018, Arcadis	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf [Gwelwyd ar 20.03.20]
Nodir ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd, a sut y maent wedi dylanwadu ar y diwygiadau i'r ACI yn y crynodeb o ymatebion.	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-crynodeb-o-ymatebion.pdf [Gwelwyd ar 18.01.21]

Adroddiadau ACI Presennol	Ble i ddod o hyd iddynt
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) Mehefin 2019, Arcadis	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft [Gwelwyd ar 20.03.20]
Nodir ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd, a sut y maent wedi dylanwadu ar y diwygiadau i'r ACI yn Atodiad G Adroddiad yr ACI	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig-crynodeb-annhechnegol [Gwelwyd ar 28.01.21]
Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) Awst 2020, Arcadis	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig [Gwelwyd ar 21.12.20]
Arfarniad o Cymru'r Dyfodol - y cynllun cenedlaethol 2040: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol)	Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig-0 https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-crynodeb-annhechnegol-gwerthusiad-cynaliadwyedd-integredig

2.9 Fframwaith a Chwmpas yr ACI

Cwmpas Daearyddol ac Amser

- 2.9.1 Ysgogwyd cwmpas daearyddol yr ACI gan gwmpas daearyddol Cymru'r Dyfodol, h.y., Cymru gyfan a hyd at bwynt isaf cymedrig y gorllanw. Er y bydd Cymru'r Dyfodol yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd, bwriedir iddo fod yn weithredol tan 2040 yn dilyn ei gyhoeddi yn 2021. Adlewyrchwyd yr amserlen hon yn yr ACI. Os yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau cynaliadwyedd a fyddai'n para yn hwy na hyn, ystyriwyd y rhai hefyd.

Fframwaith yr ACI

- 2.9.2 Un o allbynnau allweddol Cam Cwmpasu'r ACI oedd Fframwaith yr ACI. Fframwaith yr ACI (Tabl 2-2) oedd y prif offeryn asesu a ddefnyddiwyd yn ystod yr ACI ac mae'n cynnwys cyfres o 17 o Amcanion sy'n cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Defnyddiwyd yr Amcanion hyn i brofi perfformiad cynaliadwyedd yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Mae pob amcan yn cysylltu â'r wybodaeth sylfaenol; materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru; a chynlluniau, rhaglenni a strategaethau eraill sy'n berthnasol i'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Pennwyd y rhain yn ystod y cam Cwmpasu ac yn sgil hynny y rhain yw sail yr asesiad. Gwnaed diweddariad i'r Adolygiad Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat (PPP) pan fo'n briodol, drwy'r ACI cyfan. Fodd bynnag, nid oedd angen gwneud unrhyw ddiweddariadau i Fframwaith yr ACI. Gan fod y llinell sylfaen wedi'i seilio i raddau helaeth ar Adroddiad o Gyflwr

Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru¹⁵, ni ddiweddarwyd y llinell sylfaen ar y cam hwn. Mae Fframwaith yr ACI hefyd yn ymgorffori gofynion yr asesiadau integredig eraill. Er nad yw Fframwaith yr ACI wedi newid, cynlluniwyd y Fframwaith Monitro i adlewyrchu effeithiau sylweddol a ragwelir Cymru'r Dyfodol.

- 2.9.3 Bwriad yr ACI yw galluogi egwyddorion datblygu cynaliadwy i gael eu hymgorffori yn yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) o'r cychwyn cyntaf. Bwriedir i'r fframwaith arfarnu o amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau ymwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy, yng nghyd-destun yr hyn y gallai'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) ei gyflawni o bosibl. Cyflawnwyd pob cam o'r ACI gan ddefnyddio proses ailadroddol, gydag adborth a chyfathrebu rhwng timau'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) a'r ACI. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn bosibl i'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) ddilyn cyfeiriad mwy cynaliadwy o ran ei ddatblygiad.
- 2.9.4 Amlinellir egwyddorion sylfaenol y dull o gynnal yr arfarniad yn yr Adroddiad Cwmpasu (adran 5.1) ac maent yn adlewyrchu'r gofynion yn y Canllaw Ymarferol i'r AAS (gweler troednodyn 5 yn adran 1.3). I grynhoi, byddai'r arfarniad yn un ansoddol yn bennaf, ac yn cael ei gynnal gan ymarferwyr AC proffesiynol.

¹⁵ <https://naturalresources.wales/sonarr2020?lang=cy>

Tabl 2-2: Fframwaith ACI

Amcanion yr ACI	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd yr FfDC yn...?	Nod llesiant
1. Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes	- Annog a chefnogi cynnydd yn lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg i holl aelodau'r gymdeithas? - Annog a chefnogi gwelliant i fynediad at gyfleoedd dysgu gydol oes? - Annog a chefnogi gwelliant i ddarpariaeth cyfleusterau addysg a hyfforddiant trwy fentrau cynllunio defnydd tir?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
2. Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru	- Cyfrannu at welliant i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell/gwledig? - Cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol? - Cyfrannu at ffyrdd iach o fyw a hybu llesiant gan gynnwys cerdded a seiclo, trwy fentrau cynllunio defnydd tir? - Cyfrannu at ostyngiad mewn lefelau tlodi plant a thlodi tanwydd? - Cyfrannu at wella mynediad at fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwyllt a mannau agored, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae a hamddena? - Cyfrannu at gynnydd mewn seilwaith gwyrdd? - Creu cyfleoedd i gymunedau addasu i'r risgiau i iechyd yn sgil newid yn yr hinsawdd?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus
3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd	- Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ar draws pob ystod oedran gweithio? - Creu cyfleoedd i wella'r mynediad ffisegol at swyddi trwy fentrau cynllunio defnydd tir? - Creu cyfleoedd i gynyddu nifer y bobl sy'n fodlon ar eu swyddi? - Creu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad newydd a chynnydd yn nifer y gweithwyr medrus? - Cefnogi cyfleoedd i ddatblygu dinas-ranbarthau?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Amcanion yr ACI	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd yr FfDC yn...?	Nod llesiant
4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy	• Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy? • Creu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio yn yr economi ac annog sefydliad busnesau newydd a mewnfuddsoddiad? • Creu cyfleoedd ar gyfer busnesau sy'n weithredol o ran arloesedd¹⁶? • Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, a'i hyrwyddo, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden? • Creu cyfleoedd i wella'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, BBaChau, microfusnesau a datblygiad cysylltedd digidol)? • Creu cyfleoedd i gynnal ac annog gweithgareddau trydydd sector? • Creu cyfleoedd i fusnesau a seilwaith fod yn fwy cydnherth wrth wynebu'r risgiau yn sgil newid yn yr hinsawdd? • Helpu i ddarparu seilwaith ffisegol i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, gan gynnwys seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
5. Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol	• Annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru? • Annog cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl ledled Cymru? • Annog cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg?	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
6. Creu'r cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni	• Creu cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ddatblygiadau presennol a newydd? • Creu cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd cynhyrchu pŵer, diwydiannau trwm a thrafnidiaeth? • Creu cyfleoedd lle mae'n ofynnol i ddylunio cynaliadwy fod yn rhan annatod o ddatblygiad newydd?? • Creu cyfleoedd i leihau'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni? • Creu cyfleoedd i gynyddu'r potensial i greu ffynonellau ynni carbon isel neu ddi-garbon?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

¹⁶ Fel y diffinnir yn arolwg arloesedd cymunedol DBEIS

Amcanion yr ACI	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd yr FfDC yn...?	Nod llesiant
7. Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd	• Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd a chodi ymwybyddiaeth ohono? • Annog pob datblygiad newydd i fod yn gydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd? • Hyrwyddo manteision seilwaith gwyrdd, sy'n gallu cynnwys rheoli perygl llifogydd cynaliadwy? • Creu cyfleoedd i gymunedau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ar hyn o bryd i fod yn fwy cydnerth yn wyneb perygl llifogydd? • Cyfeirio pob datblygiad newydd i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
8. Creu cyfleoedd i annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer	• Creu cyfleoedd i wella a diogelu ansawdd aer? • Lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd? • Creu cyfleoedd lle gellir lleihau'r allyriadau posibl o gynhyrchu pŵer, trafnidiaeth a diwydiant trwm? • Creu cyfleoedd i sicrhau nad yw ansawdd aer gwael yn effeithio'n anghymesur ar y cymunedau mwyaf agored i niwed? • Creu cyfleoedd i sicrhau nad yw llygredd aer yn effeithio'n andwyol ar gynefinoedd sensitif ac adnoddau dŵr?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
9. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr	• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb a faint ohono sydd ar gael? • Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella dyfrffyrdd yn rhan o rwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach? • Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella dyfroedd arfordirol? • Creu cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy mewn lleoliadau cartref a diwydiannol? • Creu cyfleoedd i leihau'r peryglon i adnoddau dŵr a'r seilwaith cyflenwi yn sgil newid yn yr hinsawdd? • Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd nodweddion ac adnoddau dŵr a chefnogi prosesau integredig o wneud penderfyniadau yn yr amgylchedd morol? • Cefnogi cydweithio a phrosesau integredig o wneud penderfyniadau ar draws cydgylltiadau tir a môr ac ar draws ffiniau?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Amcanion yr ACI	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd yr FfDC yn...?	Nod llesiant
10. Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp	• Creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus integredig a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pobl? • Creu cyfleoedd i ddarparu seilwaith priffyrdd (gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio) sy'n diwallu anghenion pobl, gan gynnwys defnydd busnes, masnachol a phersonol? • Creu cyfleoedd i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ac annog gostyngiad yn y ddibyniaeth ar y car preifat? • Creu cyfleoedd i wella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a hamdden? • Creu cyfleoedd i ddarparu seilwaith cysylltedd digidol newydd a gwella'r seilwaith presennol? • Creu cyfleoedd i gynnal a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig? • Creu cyfleoedd i leihau'r peryglon yn sgil newid yn yr hinsawdd?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
11. Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb	• Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb? • Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydraddoldeb ar sail cefndir neu amgylchiadau? • Creu cyfleoedd lle gellir lleihau anghydraddoldeb ar sail rhyw? • Creu cyfleoedd lle gellir lleihau anghydraddoldeb ar sail oedran? • Creu cyfleoedd lle gellir gwella anghydraddoldeb ar sail anabled? • Creu cyfleoedd i blant sydd ag unrhyw fath o anabledd fyw bywydau llawn ac annibynnol? • Creu cyfleoedd i blant ddatblygu'n iach, a chael mynediad at ofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân? • Creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant fyw i safon sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol? • Creu cyfleoedd i sicrhau bod gan blant fynediad at addysg? • Creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant ymlacio a chwarae, a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau? • Creu cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cryf a chydlynus? • Creu cyfleoedd i leihau lefelau troseddu a'r ofn o droseddu? • Creu cyfleoedd i wella nifer y bobl sy'n fodlon ar eu cymdogaethau fel lleoedd i fyw? • Creu cyfleoedd i bobl hŷn ac anabl i gymryd rhan yn eu cymunedau a'r gymdeithas ehangach? • Creu cyfleoedd i leihau unigedd yn y gymdeithas? • Creu cyfleoedd i ddylunio'r amgylchedd adeiledig mewn modd sy'n briodol i bawb?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Amcanion yr ACI	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd yr FfDC yn...?	Nod llesiant
12. Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd	• Creu cyfleoedd i ddarparu llety digonol i ddiwallu anghenion a nodwyd ym mhob ardal? • Creu cyfleoedd i ddarparu tai o ansawdd da? • Creu cyfleoedd i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael? • Creu cyfleoedd lle gellir diwallu anghenion tai gwledig? • Creu cyfleoedd lle mae lefelau digartrefedd yn gostwng? • Creu cyfleoedd lle ceir gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi incwm neu amddifadedd sylweddol?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
13. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirluniau, trefluniau a'n morluniau	• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ardaloedd o gymeriad, unigrywedd, amrywiaeth ac ansawdd tirlun a morlun? • Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella cymeriad ac ansawdd trefluniau, gan gynnwys trefluniau hanesyddol? • Creu cyfleoedd i hyrwyddo dylunio sensitif, sy'n ymatebol i'r lle hwnnw, yn yr holl waith datblygu/ailldatblygu? • Creu cyfleoedd i leihau llygredd sŵn a golau? • Creu cyfleoedd i gynnal ardaloedd o dawelwch¹⁷? • Creu cyfleoedd i annog lleoedd a rhwydweithiau sydd wedi eu cynllunio'n dda ac sy'n hygyrch i bobl a natur yn ein trefluniau? • Creu cyfleoedd i dirweddau fod yn fwy cydnerth yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd?	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
14. Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau	• Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella asedau hanesyddol dynodedig a rhai nad ydynt wedi eu dynodi, fel y diffinnir yn yr eirfa? • Creu cyfleoedd i hyrwyddo asedau hanesyddol, fel bod mwy o fynediad, dealltwriaeth a mwynhad o'r rhain i bawb? • Creu cyfleoedd i wneud gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth? • Creu cyfleoedd i warchod a gwella tirweddau hanesyddol Cymru?	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

¹⁷ Ffigur 7-1 yn Atodiad B o'r Adroddiad Cwmpasu, Ebrill 2018

Amcanion yr ACI	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniad - Bydd yr FfDC yn...?	Nod llesiant
15. Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru	• Creu cyfleoedd lle gall diwylliant Cymru ffynnu, trwy fentrau cynllunio defnydd tir? • Creu cyfleoedd i gael mynediad at asedau a gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth Cymru? • Cydnabod, diogelu, hybu a gwella diwylliant Cymru? • Creu cyfleoedd i wneud gwaith adfywio a arweinir gan ddiwylliant?	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
16. Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	• Creu cyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau ecolegol mwy cydlynol a chydnerth ar dir er budd bywyd gwylt a phobl, a gwella gwasanaethau ecosystemau? • Creu cyfleoedd i gynyddu nifer ac amrywiaeth ecosystemau gweithredol? • Creu cyfleoedd i gynyddu cydnerthedd ecosystemau a'u gallu i addasu? • Creu cyfleoedd i warchod a gwella safleoedd cadwraeth natur, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi? • Creu cyfleoedd i warchod a gwella ecosystemau morol? • Creu cyfleoedd i warchod a gwella ansawdd mannau gwyrdd naturiol? • Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a hybu geoamrywiaeth er mwyn i bawb allu ei chyrraedd, ei deall a'i mwynhau yn fwy? • Creu cyfleoedd i rywogaethau a chynefinoedd addasu i amodau hinsoddol sy'n newid?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
17. Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid	• Creu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd mewn gwaith adeiladu? • Creu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy o ffynonellau lleol? • Creu cyfleoedd i lanhau tir halogedig ac atal halogiad pellach? • Creu cyfleoedd i gyfrannu at reoli tir fferm, coedwigoedd a chefn gwlad ehangach yn gynaliadwy? • Creu cyfleoedd i leihau gwastraff peryglus? • Creu cyfleoedd lle gall ansawdd pridd gael ei gynnal a/neu ei wella? • Creu cyfleoedd i ddiogelu mawndir? • Creu cyfleoedd i ddiogelu adnoddau mwynol a warchodir? • Creu cyfleoedd i ddatblygu tir llwyd pan fo hynny'n gynaliadwy? • Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i aildefnyddio? • Creu cyfleoedd i leihau cyfran a chyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi? • Cynyddu cydnerthedd ecosystemau? • Gwella darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur i wella ansawdd aer, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, rheoli perygl llifogydd, a gwella iechyd a llesiant?	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

3 Sut y cymerwyd canfyddiadau'r ACI i ystyriaeth, a'r rhesymau am ddewis y Cymru'r Dyfodol Cyhoeddedig, gan gynnwys yr asesiad o opsiynau amgen rhesymol

3.1 Yr hyn y mae'r ACI wedi ei arfarnu

- 3.1.1 Proses ailadroddol yw'r ACI sy'n cynnwys arfarnu a rhoi adborth i'r rhai sy'n llunio'r cynllun ar gamau niferus yn natblygiad Cymru'r Dyfodol. Mae'r ACI wedi arfarnu'r canlynol:

Cyflwynwyd yn Adroddiad Interim yr ACI a chrynhwyd yn yr Adroddiad ACI Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig:

- Dadansoddiad o Dueddiadau'r Dyfodol – mae hwn yn ystyried sut y mae'r tueddiadau sylfaenol ar gyfer y pynciau a gwmpesir gan Amcanion yr ACI yn debygol o ddatblygu yn absenoldeb FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Mae'n rhoi crynodeb meincnod defnyddiol y gellir cymharu'r arfarniad o'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) yn ei erbyn;
- Gweledigaeth a Chanlyniadau (a alwyd yn Amcanion yn flaenorol) yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) (gan gynnwys Opsiynau Amgen rhesymol i'r rhain);
- Opsiynau Strategol (Opsiynau Amgen Rhesymol) ar gyfer y Dull Gofodol (pedwar opsiwn ac opsiwn meincnod/Gwneud Dim); ac
- Yr Opsiwn a Ffeirir (y Dull Gofodol a ffeirir).

Cyflwynwyd yn Adroddiad Interim yr ACI a chrynhwyd yn yr Adroddiad ACI Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig:

- Yr FfDC Drafft (gan gynnwys y Dull Gofodol, Polisiâu a'r Opsiynau Amgen Rhesymol iddynt).

Cyflwynwyd yn yr Adroddiad ACI ar yr FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig:

- Yr FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig (gan gynnwys Polisiâu a'r Opsiynau Amgen Rhesymol iddynt).

Cyflwynwyd yn y Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn:

- Trosolwg o sut y mae proses yr ACI wedi dylanwadu ar ddatblygiad Cymru'r Dyfodol.

3.2 Canlyniadau Cymru'r Dyfodol (gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol) (Tasg B.1)

- 3.2.1 Rhoddwyd ystyriaeth helaeth i ddatblygiad Canlyniadau'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Datblygwyd y rhain yn wreiddiol wrth baratoi'r Strategaeth a Ffeirir fel y Weledigaeth a'r Amcanion. Ar ôl cyhoeddi PCC10 ac ystyried yr ymatebion i'r Ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffeirir, penderfynwyd mai cyfres o Ganlyniadau oedd y ffordd fwyaf priodol o bennu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn).
- 3.2.2 Ceir tair fersiwn o'r asesiad o gydweddiad amcanion gwreiddiol yr FfDC a chaiff ei gyflwyno yn Adroddiad Interim yr ACI¹⁸. Mae'r sylwadau a roddir yn Nhabl B-2 Adroddiad Interim yr ACI yn cyflwyno proses asesu ailadroddol, a sut yr ystyriwyd argymhellion yr ACI, pan fo hynny'n berthnasol. Dengys hyn bod y mwyafrif o argymhellion yr ACI wedi cael eu hymgorffori yn yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Mae hyn wedi cynnwys y gwelliannau canlynol, a fydd yn gwella'r potensial i amcanion yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) gyfrannu at ddatblygu mwy cynaliadwy, o'u cymharu â fersiynau blaenorol:

¹⁸Adroddiad Interim yr ACI, ar gael ar-lein yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf>
[Gwelwyd ar 06.08.20]

- Atgyfnerthwyd yr ystyriaeth o'r dirwedd (amcan 6).
- Amcanion wedi'u byrhau, eu symleiddio lle bo angen, a rhoddwyd mwy o bwyslais iddynt;
- Ychwanegwyd testun ychwanegol at amcan 4 yn ymwneud â chadw'r boblogaeth, i gryfhau cymunedau;
- Cyfeiriad at gynllunio morol wedi'i gynnwys (amcan 6);
- Ychwanegwyd testun i gynnwys ystyriaeth o lygredd (amcan 6);
- Gwelliant i amcan y Gymraeg i gynnwys ystyriaeth o seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau; ac
- Ychwanegwyd amcan ychwanegol yn ymwneud â chymunedau cydlynus.

- 3.2.3 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n well disodli'r Weledigaeth a'r Amcanion arfaethedig gydag un gyfres o Ganlyniadau. Y 5 Egwyddor Allweddol yn PCC yw'r weledigaeth arweiniol ac mae Canlyniadau yn bwrw ymlaen â'r canlyniadau cenedlaethol a nodir yn PCC i greu cyfres gyffredin o Ganlyniadau ar gyfer yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn).
- 3.2.4 Ystyriwyd tri opsiwn amgen i'r newid hwn. Y cyntaf oedd cadw'r weledigaeth a'r amcanion fel y'u cynigiwyd ym mis Ebrill 2018. Yr ail oedd cadw gweledigaeth ac amcanion ond eu diwygio fel eu bod yn cyd-fynd yn well â'r 5 egwyddor allweddol a chanlyniadau cenedlaethol PCC. Y trydydd opsiwn oedd cael dim egwyddorion cyffredin na chanlyniadau neu gynnwys tebyg yn Cymru'r Dyfodol. Ystyriwyd ei bod yn bwysig y dylai'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) ymateb i'r gofynion eglur a nodir yn PCC. Yn absenoldeb Canlyniadau'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), byddai'n anodd darganfod beth roedd yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) yn ceisio ei gyflawni, i fabwysiadu dull cynllun cyfan o ymdrin â materion polisi, ac i fonitro llwyddiant yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) yn y dyfodol.
- 3.2.5 Mae tablau C-1 a C-2 yn Atodiad C Adroddiad Terfynol yr ACI¹⁹ yn rhoi esboniad o'r berthynas rhwng Amcanion yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) a aseswyd a Chanlyniadau'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) a'r rhesymau am eu hesblygiad.

3.3 Y rhesymau am ddewis y Cymru'r Dyfodol Cyhoeddedig, yng ngoleuni opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd.

- 3.3.1 At ddiben bodloni gofynion y Rheoliadau AAS, mae angen i adroddiad yr ACI nodi a gwerthuso effeithiau amgylcheddol cynigion yn Cymru'r Dyfodol, yn ogystal â nodi a gwerthuso effeithiau amgylcheddol opsiynau amgen rhesymol i'r cynigion hyn. Diben defnyddio opsiynau amgen rhesymol yw dangos mai tystiolaeth sydd wedi creu'r Cynllun arfaethedig yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.
- 3.3.2 Mae penderfynu a yw opsiwn amgen yn rhesymol fel arfer yn asesiad gwerthusol ac ansoddol ar gyfer yr awdurdod cynllunio. Mae Canllawiau AAS yn nodi mai opsiynau amgen rhesymol, realistig a pherthnasol yn unig y dylid eu cyflwyno. Nid yw'r Rheoliadau AAS yn diffinio beth yw opsiwn amgen rhesymol, na faint o opsiynau amgen y mae'n rhaid eu hystyried. Pe bai opsiwn yn cael ei ystyried yn amlwg mor afresymol na fyddai unrhyw berson sy'n ymddwyn yn rhesymol wedi gallu ei wneud, yna ystyrir na fyddai'n gyfystyr ag 'opsiwn amgen rhesymol'.

Dull gofodol gan gynnwys Opsiynau Amgen

- 3.3.3 Mae Adroddiad Interim yr ACI yn cofnodi arfarniad yr Opsiynau Amgen a'r Opsiwn a Ffeifir. Datblygwyd pedwar Opsiwn Amgen ynghyd ag Opsiwn Meincnodi, sef peidio â llunio FfDC (Cymru'r

¹⁹ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

Dyfodol erbyn hyn). Roedd pob opsiwn yn destun ACI ym mis Tachwedd 2017. Gellir gweld disgrifiad llawn o'r Opsiynau Amgen yn Atodiad D Adroddiad Interim yr ACI.²⁰ Cafodd pob un o'r Opsiynau Amgen eu strwythuro fel a ganlyn:

- Trosolwg cryno
- Pam y datblygwyd yr opsiwn hwn? (rhesymeg o ran sut y mae'r opsiwn yn Opsiwn Amgen Rhesymol)
- Trosolwg llawn: Sut byddai'r opsiwn hwn yn helpu i gyflawni'r amcanion?
- Beth yw'r prif dybiaethau sy'n cefnogi'r opsiwn hwn?
- Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?
- Beth ddywedodd ymgysylltiad mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?

3.3.4 I grynhoi, yr opsiynau hyn oedd:

- Opsiwn Amgen 1 – Opsiwn yn canolbwyntio twf ym meysydd cryfaf y farchnad
- Opsiwn Amgen 2 – Opsiwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru
- Opsiwn Amgen 3 – Opsiwn i gyflawni amcanion datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd
- Opsiwn Amgen 4 – Opsiwn yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy
- Yr Opsiwn Meincnodi – Peidio â Pharatoi FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn)

3.3.5 Mae Atodiad D o Adroddiad Interim yr ACI²¹ hefyd yn rhoi rhesymau pam yr aethpwyd ymlaen â'r opsiynau hyn neu fel arall.

Yr 'Opsiwn Meincnodi'

3.3.6 Bydd Cymru'r Dyfodol yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Mae'n bwysig i'r ACI asesu opsiynau amgen rhesymol i'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) datblygol, sy'n cynnwys gwahanol opsiynau gan gynnwys opsiwn 'gwneud dim/busnes fel arfer' – sy'n cynnwys cadw Cynllun Gofodol Cymru. Bydd hyn yn asesu goblygiadau ac effeithiau disodli Cynllun Gofodol Cymru gyda'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), gan fod y Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol ystyried yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'r esblygiad tebygol heb y cynllun, ynghyd â nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio yn sylweddol. Bydd agweddau eraill hefyd yn cael eu hystyried yn rhan o'r opsiwn 'gwneud dim', fel dylanwad allanol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu'r heddlu ar wella lefelau troseddau neu iechyd er enghraifft, gan nad yw Cynllun Gofodol Cymru yn gweithredu ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, dylanwad cynllunio oedd ystyriaeth allweddol yr asesiad.

Yr Opsiwn a Ffefrir

3.3.7 Ar ôl asesu'r Opsiynau Amgen, mireiniodd tîm Llywodraeth Cymru Opsiynau'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), a datblygwyd Opsiwn a Ffefrir. Cyflwynir y tablau asesu llawn ar gyfer asesu'r Opsiynau Amgen (Tachwedd 2017) ynghyd â sylwadau yn Atodiad C Adroddiad Interim yr ACI²².

3.3.8 Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir ar sail pum thema, gan adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (PCC):

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Arbennig a Naturiol;

²⁰ Adroddiad Interim yr ACI, ar gael ar-lein yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf> [Gwelwyd ar 06.08.20]

²¹ Adroddiad Interim yr ACI, ar gael ar-lein yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf> [Gwelwyd ar 06.08.20]

²² Adroddiad Interim yr ACI, ar gael ar-lein yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf> [Gwelwyd ar 06.08.20]

- Lleoedd Cynhyrchol a Mentrus;
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

3.3.9 Opsiwn hybrid oedd yr Opsiwn a Ffefrir a oedd â'r nod o gynnwys cynifer o fanteision yr opsiynau amgen â phosibl. Mae Tabl 2-3 Adroddiad yr ACI²³ yn nodi pa elfennau o'r Opsiynau Amgen a gafodd eu cynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir. Yn hynny o beth, gwrthodwyd yr holl opsiynau amgen a gynigiwyd yn unigol. Ni ystyriwyd bod yr un o'r opsiynau yn ffafriol ar eu pennau eu hunain gan fod pob un yn dangos rhai canlyniadau negyddol yn yr ACI i wahanol raddau ac ni fyddent yn sicrhau'r datblygiad cynaliadwy cytbwys sydd ei angen. Mae Llywodraeth Cymru, felly, wedi ceisio nodi elfennau mwyaf cadarnhaol pob un i gyfrannu at ddatblygu opsiwn a ffefrir. Penderfynwyd bod Opsiwn Amgen 1 yn rhy gyfyngedig yn gymdeithasol ac yn ddaearyddol o ran canlyniadau cadarnhaol posibl. Byddai meysydd cryfaf y farchnad yn gwneud yn dda o bosibl, ond byddai'r rhain wedi eu canolbwyntio yn gul ar y dinasoedd a'r trefi mwyaf yn unig. Ni fyddai ardaloedd y tu allan i'r aneddiadau hyn yn gwneud yn dda, byddai anghydraddoldeb yn cynyddu o bosibl, a byddai effeithiau negyddol amlwg ar bobl a'r amgylchedd. Ystyriwyd bod Opsiynau Amgen 2, 3 a 4 i gyd yn well nag Opsiwn 1 gydag effeithiau cadarnhaol eglur. Fodd bynnag, ni ystyriwyd bod yr un o'r opsiynau hyn yn ddigon cadarnhaol ar ei ben ei hun ac roedd yn amlwg drwy'r broses ailadroddol o ystyried yr opsiynau, y byddai cyfuno elfennau o'r gwahanol Opsiynau yn creu Opsiwn a Ffefrir a fyddai'n fwy cadarnhaol nag unrhyw un o'r Opsiynau unigol. Datblygwyd yr Opsiwn a Ffefrir gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd drwy gydol proses yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy broses yr ACI. Mae'r broses yn ailadroddol, a bu'r profion yn gymorth i lunio datblygiad yr Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd holl ganlyniadau'r profion – cadarnhaol, negyddol a niwtral – yn erbyn yr holl opsiynau wrth ddatblygu'r Opsiwn a Ffefrir. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn Atodiad D Adroddiad yr ACI, Chwefror 2021²⁴ yn tynnu sylw at y canfyddiadau a sut y maent wedi llunio'r Opsiwn a Ffefrir. Ystyriwyd effeithiau pob un o'r opsiynau yn erbyn pob un o amcanion yr ACI.

Asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir (Chwefror 2018)

- 3.3.10 Ar y cam hwn, aseswyd yr Opsiwn a Ffefrir ar lefel uchel. Mae'r asesiad llawn o'r asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir ar gael yn Atodiad D Adroddiad Interim yr ACI²⁵.
- 3.3.11 I grynhoi, rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn chwech o amcanion yr ACI, ac ni ragwelwyd unrhyw effeithiau negyddol cryf. Rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf yn erbyn amcanion 2 yr ACI (iechyd a llesiant); 3 (cyflogaeth); 4 (twf economaidd); 10 (cysylltedd cymunedau); 11 (cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb); a 17 (defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol).

Argymhellion

- 3.3.12 Er y rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer dangosyddion cymdeithasol ac economaidd, ystyriwyd drwy'r ACI ei bod yn bosibl y gellid cryfhau'r potensial i'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol yn arbennig. Er mwyn gwella'r potensial i'r Opsiwn a Ffefrir gyfrannu at amcanion yr ACI, gwnaed nifer o argymhellion, a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd adborth o'r ACI o'r Opsiwn a Ffefrir wedyn i fireinio'r Opsiwn a Ffefrir terfynol, ac ymgynghorwyd ar hwn ochr yn ochr ag Adroddiad Interim yr ACI (Ebrill 2018).
- 3.3.13 Gwnaed y diwygiadau uniongyrchol canlynol ar gyfer yr Opsiwn a Ffefrir drafft terfynol:

²³ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

²⁴ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

²⁵ Adroddiad Interim yr ACI, ar gael ar-lein yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf> [Gwelwyd ar 06.08.20]

- Cafodd nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ei gynnwys yn yr Opsiwn a Ffefrir, yn yr adran Creu Lleoedd o dan 'Cymunedau Cydlynus a'r Gymraeg'
- Ailddrafftwyd polisi DN2 i gynnwys osgoi perygl llifogydd.

3.3.14 Mae Tabl A-1 Atodiad A y Datganiad hwn yn nodi sut y cymerwyd argymhellion yr ACI o'r Opsiwn a Ffefrir i ystyriaeth.

3.3.15 Er y gwnaed argymhellion ar gyfer pob un o amcanion yr ACI, ystyriwyd mai'r ddau newid uchod yn unig y dylid eu gwneud ar y cam drafftio hwn. Mae'r rhesymau pam efallai nad oedd rhai o'r argymhellion yn yr ACI yn briodol yn cynnwys:

- Dylid darllen yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) yn ei gyfanrwydd a rhoddwyd sylw eisoes i'r darpariaethau i fynd i'r afael ag argymhellion penodol yr ACI mewn rhan arall o'r Opsiwn a Ffefrir.
- Darparodd yr asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir drosolwg lefel uchel o'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), gan nodi'r amcanion strategol allweddol a chyfeiriad gofodol ar gyfer paratoi'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Roedd rhai o'r newidiadau a awgrymwyd yn fanwl iawn ac yn fwy priodol i'w hystyried ar gam nesaf y broses, pan fydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu i gyflawni'r amcanion.
- Ar ôl ail-ddrafftio'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, nid yw'r geiriad y cyfeiriwyd ato yn argymhelliad yr ACI yn bodoli mwyach neu nid yw'r argymhelliad yn berthnasol mwyach.

Datblygu'r FfDC Drafft (Mai 2019) (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn)

3.3.16 Yng ngoleuni'r ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir (ochr yn ochr ag Adroddiad Interim yr ACI), tystiolaeth, ymgysylltiad a gwaith blaenorol yr ACI, ystyriwyd mai'r tri pholisi cyffredin, Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd a Lles a Chymunedau Cydlynus a'r Iaith Gymraeg oedd y prif feysydd o bwyslais wrth baratoi'r FfDC Drafft. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod y tri maes hyn yn 'gynllun cyfan'. Datblygwyd yr holl bolisiâu yn y FfDC Drafft felly i helpu i'w darparu nhw a'r Canlyniadau, a bydd y gwaith o fonitro'r cynllun cyfan yn dangos y llwyddiant o ran eu darparu. Ystyriwyd y potensial am drosolwg sy'n canolbwyntio fwy ar yr economi a'r farchnad. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ba mor amlwg y dylid pwysleisio'r materion polisi hyn drwy'r FfDC a'u perthynas â'r Canlyniadau. Ystyriwyd y tri maes polisi hyn yn benodol gan y Canlyniadau wrth iddynt gael eu datblygu. Paratowyd polisiâu'r FfDC Drafft i ddarparu'r Canlyniadau a'r Strategaeth Ofodol.

3.3.17 Mae Tabl 2-5 Adroddiad yr ACI, Chwefror 2021²⁶ yn nodi'r Opsiwn a Ffefrir (aseswyd Chwefror 2018) a sut y mae Strategaeth Ofodol a Pholisiâu (aseswyd Mai 2019) wedi cael eu datblygu yng nghyd-destun y rhain. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddir sylw i fater polisi a nodwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir mewn sawl polisi. Mae hyn yn adlewyrchu natur integredig y paratoad a'r dull 'cynllun cyfan' o fynd i'r afael â'r nodau polisi cyffredin. Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi polisi yn uniongyrchol o dan bob un o'r Materion Gofodol a'r Cyfeiriad Polisi Strategol a nodir yn yr Opsiwn a Ffefrir (Ebrill 2018). Ystyriwyd nad oedd y dull hwn yn caniatáu ar gyfer cyflwyno materion a nodwyd ar draws yr ymgynghoriad a gwaith ymchwil ac ymgysylltu dilynol; nid oedd yn adlewyrchu yn ddigonol natur ofodol materion yng nghyd-destun cynllun datblygu; nid oedd yn caniatáu i farn gael ei llunio bod darpariaeth wedi cael ei gwneud yn briodol ac yn gadarn yn PCC10 ar gyfer y mater polisi; ac nid oedd yn cymryd natur gyd-gysylltiedig llawer o'r materion polisi i ystyriaeth. Nodir yr opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn rhan o ddatblygiad manwl polisiâu'r FfDC Drafft yn Atodiad E Adroddiad Terfynol yr ACI, Chwefror 2021.²⁷

²⁶ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

²⁷ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

3.4 Crynodeb o'r asesiad o'r FfDC Drafft (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) (Mai 2019)

- 3.4.1 Arfarnwyd Drafft yr FfDC Gorffennaf 2019 (aseswyd Mai 2019), gan gynnwys ei Strategaeth Ofodol a'i Bolisïau, ar gyfer ei effeithiau tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI. Drwy'r holl arfarniadau, a gyflwynir yn llawn yn Atodiad B Adroddiad Drafft yr ACI²⁸, gwnaed argymhellion a allai helpu i leihau perygl neu faint effeithiau niweidiol posibl. Mewn ymateb i hyn, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y polisïau gofodol a'r cynigion yn yr FfDC Drafft (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), ynghyd â'r polisïau cynllunio ar sail pynciau a ddarperir yn PCC a'r canllawiau cysylltiedig, yn darparu'r gyfres o bolisïau cynllunio cenedlaethol i gyd-fynd yn fras â'r argymhellion. Mae rhai o'r argymhellion wedi codi pwyntiau yr ystyrir bod angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cryfhau'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn). Nodir ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn Atodiad A (Tabl A-1) y Datganiad hwn. Yn ystod proses ailadroddol yr ACI, mae'r FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) wedi ymgorffori amrywiaeth o argymhellion sydd wedi helpu i wella perfformiad cynaliadwyedd cyffredinol ei gynigion.

3.5 Asesiad o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig i Bolisïau (Mawrth 2020) (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn)

- 3.5.1 Byddai disgwyl i'r Strategaeth Ofodol a gynigir yn yr FfDC Drafft arwain at effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol yn bennaf, a byddai effeithiau cadarnhaol sylweddol yn debygol yn y rhan fwyaf o Amcanion yr ACI.
- 3.5.2 Byddai disgwyl i'r holl bolisïau yn Cymru'r Dyfodol gael effeithiau cadarnhaol dibwys, niwtral, mân gadarnhaol neu sylweddol gadarnhaol ar Amcanion ACI 1 – 4, yn ogystal ag Amcanion ACI 10 - 12, sy'n gysylltiedig â phynciau ym maes addysg, iechyd, yr economi, cyflogaeth, cysylltedd, cydlyniant cymdeithasol a thai. Mae'r effeithiau ar yr holl Amcanion ACI eraill (5, 6, 7, 8, 9, 13, 14, 15, 16 a 17) yn fwy cymysg. Ar y cyfan, byddai polisïau yn debygol iawn o wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gyflawni Amcanion yr ACI.
- 3.5.3 Mae Atodiad F Adroddiad yr ACI²⁹ yn cyflwyno'r asesiadau o'r polisïau o'r FfDC Drafft gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig. Yn ystod y broses asesu, gwnaed argymhellion i Lywodraeth Cymru gan arbenigwyr yr ACI mewn proses ailadroddol. Mae Adran 3.3 Adroddiad yr ACI yn cofnodi'r argymhellion hyn. Mae Tabl A-2 yn Atodiad A y Datganiad hwn yn cynnig trosolwg o sut y mae'r argymhellion hyn wedi cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r newidiadau a awgrymwyd ac fe'u gwnaed ganddi, a fydd yn cyfrannu at y gwelliant cyffredinol i'r potensial i Cymru'r Dyfodol sicrhau datblygiad mwy cynaliadwy.
- 3.5.4 Mae'r arfarniad yn yr ACI wedi canolbwyntio ar benodau 4 a 5 yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn), y Strategaeth Ofodol a Pholisïau Rhanbarthol a'u hopsiynau amgen rhesymol. Arfarnwyd a mireiniwyd y Canlyniadau yn ystod yr asesiad i'r FfDC Drafft (Mehefin 2019). Mae Tabl 3-3 Adroddiad yr ACI yn nodi'r sgoriau a gofnodwyd ar gyfer pob polisi ar gyfer pob Amcan yr ACI, gan gynnwys y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae Tabl 3-4 yn cynnig crynodeb o'r canlyniadau asesu ar gyfer polisïau, a chyflwynir canlyniadau llawn y rhain yn Atodiad F Prif Adroddiad yr ACI.
- 3.5.5 Yn ogystal ag arfarnu pob cynnig yn yr FfDC (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) ar wahân, arfarnwyd pob un ar y cyd ar gyfer eu heffeithiau cronol, eilaidd a synergyddol tebygol yn erbyn pob Amcan yr ACI. Cyflwynir canlyniadau'r broses hon yn Nhabl 3-4 Prif Adroddiad yr ACI ochr yn ochr â'r crynodebau

²⁸ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) Ar gael yn: <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft> [Gwelwyd ar 20.03.20]

²⁹ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

o'r asesiadau. Mae'r rhes olaf yn y tabl effeithiau cronol cyffredinol â'r pennawd 'Argymhellion ychwanegol' yn nodi unrhyw argymhellion newydd i Lywodraeth Cymru eu hystyried y tu hwnt i'r rhai a gyflwynwyd eisoes ochr yn ochr â'r asesiadau o'r polisiâu yn Atodiad F Adroddiad yr ACI³⁰. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn Nhabl A-2 Atodiad A y Datganiad hwn.

3.6 Diweddariadau ar ôl Craffu gan y Senedd

- 3.6.1 Yn dilyn craffu gan y Senedd, cynigiwyd nifer o newidiadau i Cymru'r Dyfodol. Adlewyrchwyd y rhain ers hynny yn yr ACI, dyddiedig Chwefror 2021³¹. Mae Atodiad B y Datganiad hwn yn cynnig tabl sgrinio, a ddefnyddiwyd i ystyried yr holl newidiadau, gan ymateb iddynt yn yr ACI fel oedd yn briodol. Nodir mai dau newid sgorio yn unig a gofnodwyd, o ran asesu P6, gan gynyddu'r sgôr tymor canolig a hirdymor o niwtral i fân gadarnhaol, yn erbyn amcan tai yr ACI (12).

³⁰ Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig: Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig> [gwelwyd ar 28.01.21]

³¹ <https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig-0>

4 Mesurau i Fonitro Effeithiau Amgylcheddol Sylweddol

- 4.1.1 Mae'r ACI wedi nodi effeithiau tebygol Cymru'r Dyfodol ar Amcanion yr ACI dros y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Darparwyd dynodiad o sicrwydd yr effeithiau hyn hefyd. Fodd bynnag, ceir perygl bod effeithiau cynaliadwyedd Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys effeithiau polisïau penodol neu effeithiau cronolol polisïau ar y cyd, yn wahanol i'r rhai a ragwelir yn sgil amgylchiadau na ragwelwyd. Mae pandemig Covid-19 hefyd yn creu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y gallai tueddiadau'r dyfodol ddatblygu. Mae'r Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithrediad Cymru'r Dyfodol yn cael eu monitro. Mae monitro effeithiau Cymru'r Dyfodol o ran yr effeithiau a ragwelir, felly, yn elfen hanfodol o sicrhau datblygiad cynaliadwy. Mae monitro rheolaidd wedyn yn galluogi'r awdurdodau perthnasol i ddiwygio cynlluniau yn ôl yr angen pe bai effeithiau negyddol annisgwyl yn codi neu na fyddai effeithiau cadarnhaol a ddisgwyliwyd yn codi. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddor 'atal' datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â'r egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar gyfer rheoli addasol. Cam E y broses AAS fydd y weithred o fonitro Cymru'r Dyfodol. Mae Ffigur 2-1 o'r Datganiad hwn yn cyflwyno camau proses yr ACI.
- 4.1.2 Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad ac effeithiau Cymru'r Dyfodol ar ôl ei fabwysiadu er mwyn cyfrannu at adolygiadau a diwygiadau o'r cynllun yn y dyfodol. Mae Tabl 3-6 yn cynnwys Fframwaith Monitro i gadw golwg ar effeithiau cynaliadwyedd Cymru'r Dyfodol a fydd yn cael ei integreiddio â monitro Cymru'r Dyfodol. Mireiniwyd y Fframwaith Monitro yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â monitro i ba raddau y mae canlyniadau'r FfDC yn achosi'r effeithiau a nodwyd yn yr ACI, bydd y fframwaith monitro yn nodi effeithiau Cymru'r Dyfodol ar y llinell sylfaenol amgylcheddol yng Nghymru a gellir cymharu'r rhain â thueddiadau'r llinell sylfaenol hon yn y dyfodol, fel y nodir yn Nhabl 4-1 y datganiad hwn.
- 4.1.3 Dros oes Cymru'r Dyfodol bydd gwybodaeth newydd, a fydd yn cynorthwyo i lywio'r adolygiad o Cymru'r Dyfodol, yn cael ei hychwanegu at Fframwaith Monitro Cymru'r Dyfodol. Mae'n bosibl y bydd rhai dangosyddion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu diwygio neu eu disodli gan ddangosyddion newydd. Mae dangosyddion eraill yn debygol o barhau yn gyson pan fyddant yn gallu llywio canlyniadau hirdymor Cymru'r Dyfodol dros gyfnod 20 mlynedd y cynllun.

Tabl 5-1: Fframwaith Monitro Terfynol

ISA Objective		Effects to be monitored	Indicators for monitoring (aligned with the Future Wales Monitoring Review. NI= national well-being indicators)
1	Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes	Byddai'r FfDC yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol sylweddol hirdymor ar annog a chefnogi mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i bobl ledled Cymru ddysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau.	NI22. Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
2	Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru	Byddai'r FfDC yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol sylweddol ar wella iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb.	Disgwyliad oes ar adeg genedigaeth yng Nghymru. Disgwyliad oes ar adeg genedigaeth mewn ardaloedd rhanbarthol ledled Cymru. Disgwyliad oes iach ar adeg genedigaeth mewn ardaloedd rhanbarthol ledled Cymru. Amledd teithio llesol drwy gerdded a beicio yng Nghymru. NI2. Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig. NI3. Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw. NI4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer. NI5. Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw. Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i fesur ar gyfer plant, oedran gweithio a'r rhai hynny o oedran pensiwn. (dangosydd llesiant cenedlaethol) Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd ag amddifadedd sylweddol. (dangosydd llesiant cenedlaethol) NI24. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. NI26. Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. NI29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl. NI30. Canran y bobl sy'n unig.

ISA Objective		Effects to be monitored	Indicators for monitoring (aligned with the Future Wales Monitoring Review. NI= national well-being indicators)
			NI38. Canran y bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. (dangosydd llesiant cenedlaethol) NI41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. NI42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.
3	Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd	Byddai'r FfDC yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol sylweddol ar gyflogaeth a chynhwysiant economaidd i bobl ledled Cymru.	NI19. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol. NI20. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith. NI21. Canran y bobl sydd mewn gwaith.
4	Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy	Byddai'r FfDC yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol sylweddol ar dwf economaidd cynaliadwy, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes.	Cyfradd diweithdra yng Nghymru fesul blwyddyn. Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yng Nghymru fesul pen fesul blwyddyn. Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) ar gyfer Cymru fesul blwyddyn. Cyfanswm cyfoeth aelwydydd (canolrif) ar gyfer Cymru. Cyflogaeth mewn gweithle yng Nghymru. Cyflogaeth mewn gweithle ar gyfer ardaloedd rhanbarthol ledled Cymru. Canran y safleoedd (cartrefi a busnesau) â band eang 'cyflym' yng Nghymru. Canran y safleoedd (cartrefi a busnesau) â seilwaith digidol ffeibr llawn yng Nghymru. Ymweliadau dydd gan dwristiaid a gwariant yng Nghymru yn flynyddol o'u cymharu â gweddill y DU.
5	Cyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol	Byddai'r FfDC yn debygol o helpu i ddiogelu a gwella lles y Gymraeg.	NI36. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. NI37. Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
6	Creu cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni	Gallai datblygiad a gefnogir gan yr FfDC wneud targedau lleihau nwyon tŷ gwydr yn fwy anodd. Gallai datblygiad a gefnogir gan yr FfDC arwain at gynnydd yn y defnydd o ynni, ac mae llawer o hyn	Cynhyrchu ynni carbon isel yng Nghymru (mewn MW fesul technoleg). Cynhyrchu ynni carbon isel mewn ardaloedd rhanbarthol ledled Cymru (mewn MW fesul technoleg). Trafnidiaeth a ddefnyddir fel arfer i gyrraedd gwaith (fesul math o drafnidiaeth). NI41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

ISA Objective		Effects to be monitored	Indicators for monitoring (aligned with the Future Wales Monitoring Review. NI= national well-being indicators)
		yn debygol o gael ei brynu heb ei adnewyddu.	NI42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.
7	Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd	Mae'r FfDC yn cefnogi datblygiadau newydd mewn rhanbarthau newydd o Gymru lle ceir perygl eang o lifogydd. Gallai hyn wneud pobl neu eiddo newydd yn agored i berygl o lifogydd.	NI32. Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr.
8	Creu cyfleoedd i annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer	Gallai datblygiadau a gefnogir gan yr FfDC helpu i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu gwneud symudiadau cymharol effeithlon, allyriadau isel. Byddai datblygiadau a gefnogir gan yr FfDC yn fwy tebygol o gyflawni targedau gwella ansawdd aer yn fwy anodd mewn rhai lleoliadau.	NI4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO ₂) yn yr aer. NI41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. NI42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.
9	Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion ac adnoddau dŵr	Byddai'r FfDC yn cefnogi datblygiad newydd a fyddai'n cynyddu'r defnydd o ddŵr yng Nghymru. Gallai datblygiadau newydd a gefnogir gan yr FfDC achosi risg i ansawdd cyrff dŵr naturiol, gan gynnwys ar hyd yr arfordir.	NI45. Canran y cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan. Nifer y datblygiadau newydd sy'n digwydd er na sicrhawyd bod cyflenwad digonol o ddŵr i ddiwallu anghenion y datblygiad
10	Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp	Disgwylir i'r FfDC wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol tuag at greu cyfleoedd i wella cysylltedd rhwng pobl a lleoedd, gwasanaethau allweddol, nwyddau a gwasanaethau.	NI24. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. NI26. Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. Canran y bobl sy'n fodlon neu'n anfodlon â'r gallu i gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau yn eu hardal leol (o fewn taith 15-20 munud ar droed) yng Nghymru. Canran y bobl sy'n fodlon â'r gallu i gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau (o fewn taith 15-20 munud ar droed o gartref) yng Nghymru.

ISA Objective		Effects to be monitored	Indicators for monitoring (aligned with the Future Wales Monitoring Review. NI= national well-being indicators)
			Cyfanswm nifer y mynedfeydd ac allanfeydd gorsaf rheilffordd yng Nghymru fesul blwyddyn. Trafnidiaeth a ddefnyddir fel arfer i gyrraedd gwaith (fesul math o drafnidiaeth).
11	Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb	Byddai disgwyl i'r FfDC wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol tuag at greu cyfleoedd i wella cydlyniant cymunedau ledled Cymru a symud tuag at gymdeithas fwy cyfartal.	NI23. Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. NI25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio. NI26. Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. NI27. Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. NI35. Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. NI46. Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.
12	Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd	Byddai disgwyl i'r FfDC wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol tuag at sicrhau y darperir ar gyfer anghenion am dai o ansawdd da sy'n ddiogel ac yn fforddiadwy mewn rhanbarthau a chymunedau ledled Cymru.	Nifer y tai newydd a adeiladwyd yng Nghymru fesul blwyddyn. Nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd mewn ardaloedd rhanbarthol ledled Cymru fesul blwyddyn. Nifer yr unedau tai fforddiadwy a adeiladwyd yng Nghymru fesul blwyddyn. Nifer yr unedau tai fforddiadwy a adeiladwyd mewn ardaloedd rhanbarthol yng Nghymru fesul blwyddyn. NI31. Canran yr anheddau sydd heb beryglon. NI33. Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol. NI34. Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd.
13	Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw	Byddai'r FfDC yn debygol o arwain at ddatblygiadau newydd yn digwydd yn bennaf mewn ardaloedd trefol, a allai helpu i osgoi effeithiau	Nifer yr Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a gwblhawyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Ardaloedd o goetir yng Nghymru fesul blwyddyn (fesul mil o hectarau).

ISA Objective		Effects to be monitored	Indicators for monitoring (aligned with the Future Wales Monitoring Review. NI= national well-being indicators)
	Ileol ein tirluniau, trefluniau a'n morluniau	andwyol ar dirweddau naturiol sensitif. Gallai datblygiadau mewn ardaloedd trefol achosi risg i'r trefluniau o'u hamgylch a chymeriad yr anheddiad.	Ardal o blannu coetir newydd yng Nghymru fesul blwyddyn (fesul hectarau). Adroddiadau newid LANDMAP Adolygiad o dirweddau dynodedig *gallai fod yn briodol i gysylltu monitro ar gyfer yr Amcan ACI hwn â chynlluniau monitro AHNE
14	Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau	Mae'r FfDC yn cefnogi datblygiadau newydd mewn rhanbarthau ledled Cymru lle gallai o bosibl newid lleoliad asedau treftadaeth sensitif ac ardaloedd hanesyddol.	NI40. Canran yr asedau'r amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well. Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Hanesyddol LANDMAP a warchodwyd.
15	Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru	Byddai'r FfDC yn debygol o helpu i greu cyfleoedd i ddiogelu a gwella hygyrchedd lleoedd a gweithgareddau diwylliannol Cymru.	NI27. Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. NI35. Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.
16	Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geomrywiaeth	Mae'r FfDC yn cefnogi datblygiadau newydd ledled Cymru a allai leihau cysylltedd a chydlyniant rhwydweithiau ecolegol. Gallai datblygiadau newydd a gefnogir gan yr FfDC gynyddu aflonyddwch sy'n gysylltiedig â mynediad cyhoeddus mewn cynefinoedd sensitif. Gallai datblygiadau newydd a gefnogir gan yr FfDC achosi colli cynefinoedd sensitif yn uniongyrchol neu dir sy'n gysylltiedig yn weithredol.	Nifer yr Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a gwblhawyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Ardal o goetir yng Nghymru fesul blwyddyn (fesul mil o hectarau). Ardal o blannu coetir newydd yng Nghymru fesul blwyddyn (fesul hectarau). NI4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO ₂) yn yr aer. NI13. Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd. NI14. Ôl Troed Ecolegol Cymru. NI43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru. NI44. Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru. NI45. Canran y cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan.
17	Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried	Mae'r FfDC yn cefnogi datblygiadau newydd mewn rhanbarthau ledled Cymru a fyddai'n debygol o arwain	NI15. Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen. *Nodir bod SoNaRR yn hysbysu'r blaenoriaethau Polisi Adnoddau Naturiol a bennir gan LIC, a fydd yn eu tro yn hysbysu diwygiadau i Cymru'r Dyfodol yn y dyfodol.

ISA Objective		Effects to be monitored	Indicators for monitoring (aligned with the Future Wales Monitoring Review. NI= national well-being indicators)
	eu buddion a'u gwerth cynhenid	at gynnydd yn y defnydd o adnoddau naturiol.	Bydd y dangosyddion SoNaRR, felly, hefyd yn cynnig dull monitro pwysig ar gyfer yr ACI a Cymru'r Dyfodol

5 CASGLIAD

- 5.1.1 Mae'r Adroddiad hwn yn bodloni gofynion Datganiad Ôl-gyhoeddi yn unol â'r Rheoliadau AAS. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw rhoi Cymru yn uniongyrchol ar lwybr cynaliadwy i wella llesiant. Mae'r nodau llesiant wedi bod yn rhan annatod o'r ACI gan gynnwys paratoad yr Adroddiad Cwmpasu a Fframwaith yr ACI. Defnyddiwyd y nodau llesiant hefyd i hysbysu'r adolygiad o'r dystiolaeth, i nodi problemau ac i strwythuro'r Fframwaith asesu. Arfarnwyd pob fersiwn o Cymru'r Dyfodol ar gyfer ei effeithiau sylweddol tebygol ar bob un o Amcanion yr ACI o fewn y Fframwaith asesu. Mae'r ACI yn broses sydd wedi cael ei hintegreiddio yn fawr â datblygiad Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys perthynas waith agos rhwng arbenigwyr ACI a Llywodraeth Cymru. Yn ystod y broses hon, mae'r ACI wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ymwreiddio egwyddorion cynaliadwyedd ac ystyriaethau ehangach yng nghanlyniadau, strategaeth a pholisïau Cymru'r Dyfodol o'r cychwyn cyntaf. Mae'r ACI wedi cynnig ffordd strwythuredig o ystyried manteision, costau a risgiau amrywiaeth eang o opsiynau.
- 5.1.2 Mae'r ACI hefyd yn darparu offeryn ymgynghori, sy'n rhoi dadansoddiad i'r cyhoedd a chyrrff statudol o sut y datblygwyd Cymru'r Dyfodol mewn modd a fydd yn sicrhau y gall gyfrannu at ddatblygu mwy cynaliadwy. Mae'r broses ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu wedi rhoi'r cyfle i randdeiliaid gynnig adborth ac awgrymiadau i geisio gwella cynaliadwyedd cyffredinol Cymru'r Dyfodol.
- 5.1.3 Drwy'r broses gyfan, mae'r ACI wedi darparu argymhellion a fyddai'n debygol o helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol posibl neu wella effeithiau cadarnhaol. Mae argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru wedi bod yn nodwedd allweddol o'r broses ACI o'r cychwyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod iawn i dderbyn camau i wella perfformiad cynaliadwyedd Cymru'r Dyfodol ac wedi gwneud gwelliannau a diwygiadau yn sgil y rhain drwy gydol y broses. Roedd argymhellion i Lywodraeth Cymru a sut y cymerwyd y rhain i ystyriaeth, yn amlwg iawn ar gyfer elfennau canlynol Cymru'r Dyfodol:
- **Canlyniadau (a elwid yn Amcanion yr FfDC yn flaenorol):** Cynhaliwyd yr asesiad o gydweiddiad amcanion yr FfDC (sydd bellach wedi'u mireinio fel Canlyniadau ar gyfer Cymru'r Dyfodol) ar ffurf tair fersiwn. Arweiniodd canlyniadau'r asesiadau hyn at fireinio'r amcanion a gyflwynwyd ym Materion ac Opsiynau FfDC 2018. Cafodd y rhan fwyaf o argymhellion yr ACI eu cynnwys.
 - **Opsiwn a Ffeirir yr FfDC:** Arfarnwyd yr opsiynau ym Materion ac Opsiynau'r FfDC yn Adroddiad Interim yr ACI. Ochr yn ochr â'r arfarniadau hyn, gwnaed argymhellion amrywiol gan yr ACI i helpu i wella cynaliadwyedd yr opsiwn a ffeirir a chymerwyd y rhain i ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru.
 - **Polisïau'r FfDC Drafft:** Yn ystod yr arfarniadau manwl o bolisïau'r FfDC Drafft a gynhaliwyd ar gyfer yr Adroddiad ACI hwn, gwnaed argymhellion ar gyfer pob polisi yn erbyn pob Amcan yr ACI, pan fo'n briodol, a rhoddwyd y rhain i Lywodraeth Cymru ar gam cynnar. Pan roedd y polisïau yn cael eu diwygio, dadansoddwyd geiriad newydd y polisi a diwygiwyd yr arfarniadau pan fo'n briodol. Darperir yr arfarniadau hyn a'r argymhellion ategol yn eu cyfanrwydd yn Atodiad E Adroddiad Terfynol yr ACI³². Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y polisïau gofodol a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr FfDC Drafft, ynghyd â pholisïau cynllunio cenedlaethol sy'n seiliedig ar bynciau a ddarperir yn PCC a'r canllawiau cysylltiedig, yn darparu'r gyfres o bolisïau cynllunio cenedlaethol sy'n cyd-fynd yn fras â'r argymhellion. Mae rhai o'r argymhellion hyn wedi codi pwyntiau yr ystyrir bod angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cryfhau'r FfDC.
 - **FfDC Drafft gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn):** Ochr yn ochr â'r arfarniadau manwl a gyflwynir yn yr Adran 3 ac Atodiad F Adroddiad yr ACI, gwnaed argymhellion pan fo'n briodol er mwyn helpu i osgoi neu liniaru effeithiau cadarnhaol posibl ac i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i greu effeithiau cadarnhaol. Ystyriwyd yr argymhellion

³² <https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig-0>

hyn gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ymateb i'r argymhellion ym mhob achos gan nodi a ydynt wedi eu derbyn ai peidio a pham. Mae'r broses ailadroddol rhwng y rhai sy'n llunio'r cynllun ac arbenigwyr ACI wedi galluogi ystyriaethau amgylcheddol, cynaliadwyedd ac eraill, sydd wedi dod i'r amlwg drwy broses yr ACI, i lunio'r FfDC a'i bolisiâu.

Atodiad A Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion

Tabl A-1 Crynodeb o argymhellion a wnaed yn yr ACI i helpu i wella perfformiad cynaliadwydd yr FfDC Drafft (Cymru'r Dyfodol erbyn hyn) (Mai 2019)

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
Grŵp 1	
Potensial i gryfhau cysylltiadau a chysylltedd i ardaloedd mwy gwledig i gyfleusterau addysg a sgiliau	Mae Polisi 4 yn ymdrin â'r gallu i gael gafael ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac mae polisi 12 yn ymdrin â chysylltedd rhwng ardaloedd gwledig a rhanbarthol. Mae ar yr adrannau rhanbarthol angen cyflawni datblygu wedi'i gydgyssylltu â darparwyr addysg.
Potensial i gryfhau cysylltiadau a chysylltedd i ardaloedd mwy gwledig i wella'r gallu i gael gafael ar gyfleusterau a gwasanaethau i wella cysylltiadau â'r amgylchedd naturiol.	Mae Polisi 4 yn ymdrin â'r gallu i gael gafael ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac roedd Polisi 12 yn ymdrin â chysylltedd rhwng ardaloedd gwledig a rhanbarthol. Mae ar yr adrannau rhanbarthol angen cyflawni datblygu wedi'i gydgyssylltu â darparwyr addysg. Mae Polisi 9 yn ymdrin â'r cysylltiadau â'r amgylchedd naturiol. Mae cyfeiriadau at Seilwaith Gwyrdd wedi'u cryfhau ym mhob rhan o'r cynllun.
P1 - argymhell bod llwybrau mynediad cerdded a beicio mewn datblygiadau newydd yn cael eu cynnwys mewn rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd lleol. Gall rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda, sy'n ddeniadol ac yn ddiogel ac sy'n darparu lle ar gyfer cerddwyr a beicwyr a hynny gan fod wedi'u cynllunio i fod o werth bioamrywiaeth uchel (gwerth a ddarperir gan y rhywogaethau sydd wedi'u plannu ym mhob rhan o'r rhwydweithiau yn ogystal â symudiad rhydd bywyd gwyllt y maent yn ei hwyluso) ddarparu llawer o fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth mwy hygyrch ar gyfer pobl leol.	Mae Polisi P2 wedi ei gryfhau i gydnabod seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae polisiâu 11 a 12 yn ymdrin â theithio llesol a'r rhwydwaith beicio cenedlaethol. Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ac integreiddiad â seilwaith gwyrdd.
Gallai addasu i lefelau cynyddol o risg o lifogydd yng Nghymru fod â mwy o bwyslais yn yr FfDC, yn enwedig o ran datblygiadau mewn ardaloedd trefol ac o'u cwrddas lle ceir llawer o risg o lifogydd. Gallai P1 a P2 o bosibl nodi yn amlwg y byddai datblygiadau sy'n osgoi tir sydd â risg o lifogydd, neu sy'n osgoi gwaethgu'r risg o lifogydd mewn lleoliadau eraill, yn cael eu hannog yn benodol.	Polisi 8 – Mae llifogydd wedi ei fewnosod i ymdrin â'r materion hyn a chaiff llifogydd ei adlewyrchu'n well hefyd ym mhennod 2 a'r adrannau rhanbarthol.
Gweler Amcan 3 – byddai llwybrau cerdded a beicio o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac yn ddeniadol yn helpu i leihau llygredd aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Gallai Polisi P1 neu ei destun ategol gynnwys cyfeiriad at effaith bosibl datblygiad dwys mewn lleoliad trefol ar ansawdd aer ac y dylid ystyried hyn yn nyluniad a chynllun y datblygiad er mwyn lleihau cymaint â phosibl effaith negyddol y datblygiad ar ansawdd aer a hefyd i ddiogelu defnyddwyr y safle rhag llygredd presennol. Gallai'r gallu i fynd i fan gwyrdd ac ystyried seilwaith gwyrdd fod yn allweddol wrth leihau cymaint â phosibl yr effeithiau posibl hyn a dylid eu dylunio yn benodol â hyn mewn golwg, i helpu i leihau anghydraddoldeb daearyddol.	Mae Polisi P2 wedi ei gryfhau i gydnabod seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur ac ansawdd aer. Mae Polisiâu 11 a 12 yn ymdrin â theithio llesol a'r rhwydwaith beicio cenedlaethol. Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd ac integreiddiad.
Mae cyfle i sicrhau cysylltiadau ag ardaloedd gwledig a gellid cryfhau P4 i gynnwys cyfeiriad at seilwaith cynhwysol a bod cysylltiadau â chymunedau gwledig yn cael eu gwneud i wella'r gallu i gael gafael ar nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.	Mae P4 yn cydnabod diwallu anghenion holl aelodau cymunedau.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
Mae PCC (Rhagfyr 2018) yn ceisio sicrhau bod datblygiadau ar raddfa sylweddol a dwyster uchel yng nghanol trefi a dinasoedd yn gwella cymeriad a safleoedd trefluniau presennol a, thrwy gamau dylunio o ansawdd uchel, dylai cynllun ystyriol a phensaerniaeth a allai fod yn frodorol, ddiogelu a gwella cymeriad treflun a chynyddu hygyrchedd lleoedd a rhwydweithiau ar gyfer pobl a natur yn ein trefluniau.	Nodwyd. Ceir cysylltiad cryf rhwng polisi 2 a PCC, creu lleoedd, dylunio.
Dylai datblygiadau ar raddfa sylweddol a dwysedd uchel yng nghanol trefi a dinasoedd geisio rhoi sylw manwl i leoliad unrhyw asedau treftadaeth gerllaw drwy ddylunio o ansawdd uchel, cynllun ystyriol a phensaerniaeth a allai fod yn frodorol. Dylid ymdrin â hyn drwy PCC. Fodd bynnag, dylid cydnabod y potensial ar gyfer adfywio a arweinir gan dreftadaeth a diwylliant yma.	Nodwyd. Ceir cysylltiad cryf rhwng Polisi 2 a PCC, creu lleoedd, dylunio. Mae'r cyfleoedd i adfywio wedi'u cefnogi yn y polisiau perthnasol. Mae manylion a math yr adfywio i'w drafod ar yr haenau cynllunio rhanbarthol a lleol.
Gallai'r polisiau hyn o bosibl geisio sicrhau bod bioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol ac ar ffiniau aneddiadau yn cael ei ddiogelu a'i wella. Dylid diogelu gwerth bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd ar safleoedd trefol i gynorthwyo i sefydlu a gwella cydlyniant rhwydweithiau ecolegol sy'n ymestyn i bob rhan o ardaloedd trefol ac i gefn gwlad er mwyn galluogi bywyd gwyllt i symud yn rhydd ac i osgoi ynysu rhywogaethau neu gynefinoedd sensitif mewn ynysoedd i fwrdd o natur.	Mae polisiau 2 a 9 yn ymdrin â hyn.
Grŵp 2	
Dylid cynnwys y cyfle i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu Seilwaith Gwyrdd a theithio llesol gyda datblygiadau ac ailddatblygiadau ardaloedd yn y testun ategol ar gyfer y polisi er mwyn cynyddu dewisiadau ffordd o fyw iach.	Mae Polisi 3 wedi'i gryfhau er mwyn ymdrin â hyn.
Dylid cynnwys y cyfle i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu Seilwaith Gwyrdd a theithio llesol gyda datblygiadau ac ailddatblygiadau ardaloedd yn y testun ategol ar gyfer y polisi.	Mae Polisi 3 wedi'i gryfhau er mwyn ymdrin â hyn.
Gallai Polisi P3 neu ei destun ategol gynnwys cyfeiriad at effaith bosibl datblygiad dwys mewn lleoliad trefol ar ansawdd aer ac y dylid ystyried hyn yn nyluniad a chynllun y datblygiad er mwyn lleihau cymaint â phosibl effaith negyddol y datblygiad ar ansawdd aer a hefyd diogelu defnyddwyr y safle rhag llygredd presennol.	Ymdrinnir â hyn drwy bolisiau eraill megis polisiau 2 a 12 a PCC.
Dylid cynnwys y cyfle i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu Seilwaith Gwyrdd gyda datblygiadau ac ailddatblygiadau ardaloedd yn y testun ategol ar gyfer y polisi.	Mae Polisi 3 wedi'i gryfhau i ymdrin â hyn.
Gallai P3 gyfeirio at egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd ar ddaliadau tir y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae hwn wedi'i gynnwys yn PCC.	Mae Polisi 3 yn cynnwys cyfeiriad yn ogystal â PCC.
Grŵp 3	
Dylai cynaliadwyedd safleoedd i'w datblygu fod yn brif ystyriaeth wrth benderfynu lle i leoli cartrefi newydd a ddarperir i fodloni anghenion lleol.	Ymdrinnir â hyn drwy'r FfDC yn ogystal ag yn PCC.
Gallai'r FfDC gyfeirio'n benodol at yr angen i osgoi darparu tai fforddiadwy ar y gorliffdir neu ar dir â rhywfaint o risg o lifogydd nad yw'r math o ddatblygiad yn cyd-fynd ag ef.	Mae TAN 15 a PCC yn ymdrin â'r risg o lifogydd a datblygiad. Mae Polisi 8 wedi'i fewnosod i ymdrin â'r risg o lifogydd.
Grŵp 4	
Mae goblygiadau gofodol y Polisi yn gymharol ansicr. Gallai P6 o bosibl gynnwys map neu elfen ofodol fwy manwl sy'n nodi ardaloedd blaenoriaeth lle byddai seilwaith digidol yn cael ei annog yn gryf, yn unol â'r ardaloedd â'r angen mwyaf.	Mae'r testun ategol wedi'i ddiweddarau ar gyfer polisi 14 i adlewyrchu gwaith parhaus wrth fapio'r ardaloedd hyn.
Dylai darparu seilwaith cyfathrebu symudol newydd fod wedi'i reoli'n ofalus a'i leoli er mwyn cynorthwyo i sicrhau osgoi effeithiau negyddol ar gymeriad lleol.	Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 13 yn ymdrin â'r effaith ar gymeriad a thirlun ac ati.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
Dylai darparu seilwaith cyfathrebu symudol newydd fod wedi'i reoli'n ofalus a'i leoli er mwyn cynorthwyo i sicrhau osgoi effeithiau negyddol ar safleoedd ag asedau treftadaeth neu ardaloedd hanesyddol.	Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 13 yn ymdrin â'r effaith ar gymeriad a thirlun ac ati.
Grŵp 5 – dim argymhellion	
Grŵp 6	
Pan ddefnyddir elfennau Seilwaith Gwyrdd mewn lleoliadau trefol i gefnogi twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a lles y cyhoedd, gellid cynnwys geiriad yn y testun ategol i bwysleisio y gall rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd cydlynol a reolir yn dda mewn lleoliadau trefol ddarparu gwasanaethau ecosystem y tu hwnt i les pobl leol, gan gynnwys hwyluso cyfraddau uwch o drafnidiaeth carbon is (cerdded a beicio), lliniaru'r risg o lifogydd, casglu a storio carbon, hidlo aer a dileu llygryddion, diogelu adnoddau naturiol islaw'r ddaear a diogelu a gwella cymeriad y treflun lleol yn ogystal â safleoedd asedau treftadaeth gerllaw.	Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 9 yn ymdrin â buddion seilwaith gwyrdd gan gynnwys ardaloedd trefol.
Gweler Amcan 6. Gallai'r goedwig newydd a gynigir yn P9 fod wedi'i lleoli'n strategol er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o werth gwasanaeth ecosystem lliniaru risg o lifogydd, er enghraifft drwy sicrhau bod rhywfaint o'r goedwig yn gorchuddio ardaloedd ar yr ucheldir neu ei fod yn orlffidur gweithredol.	Cydnabyddir hyn yn y testun ategol ar gyfer polisi 15.
Y modd gorau o sefydlu, diogelu a gwella rhwydwaith ecolegol cydlynol ledled Cymru sy'n cynnwys ystod amrywiol o gynefinoedd, ac sydd wedi'i gysylltu â rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd mewn ardaloedd trefol yn ogystal â'r Goedwig Genedlaethol newydd o bosibl, fyddai drwy â rheolaeth wedi'i chydgyssylltu'n dda ar lefelau amrywiol gan gynnwys y lefel genedlaethol a strategol, y lefel ranbarthol a'r leol, i sicrhau bod cydlyniant yn y dull ledled Cymru ac mae angen ystyried anghenion penodol rhanbarthol a lleol. Dylai datblygiad geisio bod yn unol â chanlyniadau'r broses HRA ar wahân.	Mae polisïau 2 a 9 yn ymdrin â hyn. Mae'r adran HRA ym mhennod 1 wedi'i gryfhau.
Grŵp 7	
Argymhellir y gellid ystyried P10/11/12/13 yn fwy manwl, gan ehangu'r polisi i gynnwys lleoliadau technolegau adnewyddadwy a charbon isel eraill megis ynni dŵr neu fïomas. Nodir y caiff datblygiadau dan 10MW eu nodi gan awdurdodau cynllunio lleol yn eu hasesiadau ynni adnewyddadwy. Awgrymir y gellid ymdrin yn well â gwresogi ardal ar lefel fwy lleol. Gellid amlygu dulliau y gallai datblygwyr eu defnyddio i ddangos buddion economaidd cynlluniau i gymunedau lleol yn y testun, er mwyn galluogi gweithrediad.	Mae Polisi 17 bellach yn cynnwys yr holl fathau a meintiau o ynni adnewyddadwy. Mae Polisi 16 yn nodi'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer rhwydweithiau gwres. Bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu cynhyrchu i gefnogi gweithrediad polisïau ynni adnewyddadwy.
Gweler argymhellion o dan amcan 3. Awgrymir y gellid bod yn well ymdrin â gwresogi ardal (P14 a P15) a'r opsiynau amgen rhesymol cysylltiedig ar lefel fwy lleol.	Mae Polisi P2 wedi'i gryfhau i gydnabod atebion seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae polisïau 11 a 12 yn ymdrin â theithio llesol a'r rhwydwaith beicio cenedlaethol. Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ac integreiddiad seilwaith gwyrdd. Mae Polisi 16 yn gosod cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer rhwydweithiau gwres.
Gellid cryfhau P10, P11 a P13 drwy gynnwys cyfeiriad at fuddion diwylliannol i gwmpasu holl elfennau datblygiad cynaliadwy. Gellid cryfhau Polisi 12 - gellid cryfhau'r polisi i gynnwys effeithiau datblygiadau yn ymyl ffin yr ardaloedd hyn - mewn testun ategol. Gallai Polisi P14 gynnwys testun i sicrhau bod cynllun Rhwydweithiau Gwres Ardal yn adlewyrchu cymeriad lleol, cymaint ag y mae hynny'n bosibl, yn rhan o'r meini prawf ar gyfer eu datblygiad mewn ardaloedd trefol. Pe aed ar drywydd un o'r polisïau amgen, dylai'r rhain darparu geiriad	Mae Polisi 17 yn cynnwys gwelliannau diwylliannol ac mae polisi 18 yn ymdrin â safleoedd Ardaloedd o Harddwch Naturiol a Pharciau Cenedlaethol.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
cadarn o ran rheolaethau gweledol fel y darparwyd yn y polisiâu a ffeirir.	
Gellid cryfhau P10, P11 a P13 drwy gynnwys cyfeiriad at fuddion diwylliannol i gwmpasu pob elfen o ddatblygiad cynaliadwy.	Mae Polisi 17 yn cynnwys cyfeiriad at welliannau diwylliannol.
Grŵp 8	
Gallai rhoi eglurder ar sgiliau a hyfforddiant, yn enwedig o ran twf economaidd ehangu darpariaeth cyflogaeth. Gellid gwella'r polisi drwy gyfeirio at 'ystyried sefydliadau addysg' mewn cyd-destun rhanbarthol (er enghraifft, gallai fod dalgylch rhanbarthol ar gyfer sefydliadau megis colegau) lle mae'n cyfeirio at "leoliad gwasanaethau allweddol".	Ymdrinnir â hyn yn PCC.
Mae'r polisi yn cyfeirio at leiniau glas a choridorau gwyrdd ond nid yw'n glir a fyddai'r rhain yn cynnwys seilwaith gwyrdd yn ei ddiffiniad ehangaf. Gellid egluro'r berthynas hon â seilwaith gwyrdd. Gellid egluro'r berthynas â seilwaith gwyrdd yn y testun ategol.	Mae cyfeiriad wedi'i gynnwys at seilwaith gwyrdd ym Mholisi 19. Mae PCC a Pholisi 9 yn ymdrin â'r llain las a seilwaith gwyrdd.
Gallai'r testun ategol egluro diffiniad 'seilwaith cysylltedd' - cynigir y dylai hwn gynnwys diffiniad eang gan gynnwys digidol, gwyrdd, teithio gwyrdd ac ati er mwyn sicrhau cymaint o fuddion â phosibl.	Mae'r testun ategol wedi'i ddiweddu i ddiffinio 'seilwaith cysylltedd'.
Argymhellir y dylid annog cynlluniau datblygu rhanbarthol i gydweithredu â CNC i sicrhau cymaint â phosibl o fuddion rheoli'r risg o lifogydd.	Mae'r llawlyfr Cynllun Datblygu a PCC yn darparu cyd-destun llawnach ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.
Argymhellir bod cynlluniau rhanbarthol yn cydweithredu â CNC a chwmnïau dŵr i sicrhau rheoli a defnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy yn y rhanbarth.	Mae'r llawlyfr Cynllun Datblygu a PCC yn darparu cyd-destun llawnach ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.
Mae Polisi P16 ar hyn o bryd yn cynghori y dylai cynlluniau rhanbarthol nodi lleiniau glas a choridorau gwyrdd. Nid yw'n glir a'i bwriad yw i gynlluniau rhanbarthol nodi coridorau gwyrdd presennol, neu nodi a cheisio sefydlu coridorau gwyrdd newydd. Er mwyn ceisio diogelu a gwella cysylltedd rhwydweithiau ecolegol ledled Cymru, gallai Polisi P16 o bosibl gyfeirio at rwydweithiau ecolegol cyffredinol, megis geiriad tebyg i 'nodi rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i ddiogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn'. Gallai'r polisi annog cydweithredu â CNC wrth baratoi cynlluniau rhanbarthol a chysylltu â datganiadau ardal er mwyn cynnwys blaenoriaethau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.	Dylid darllen Polisi 19 ar y cyd â P9 a PCC sy'n ymdrin â'r materion hyn.
Gellid cryfhau'r polisi i gynnwys cyfeiriad at lygredd.	Mae'n rhaid ystyried ac ymdrin â llygredd drwy gynlluniau datblygu ac mae PCC yn nodi ein polisi cenedlaethol ar lygredd.
Grŵp 9	
Dylai'r testun ategol roi eglurder ar y diffiniad o seilwaith cysylltedd. Gellid cryfhau Polisi P17 i gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau.	Mae Polisi 20 yn cynnwys cyfeiriad at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'r testun ategol yn diffinio seilwaith cysylltedd ac yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth a digidol. Mae hwn wedi'i newid ar draws pob rhanbarth.
Rhwng Polisiâu P17 a P22, gallai o bosibl fod cyfeiriad at sicrhau ymadweithio cryf rhwng Gogledd-orllewin Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr o ran y marchnadoedd swyddi. Er mai Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yw'r ardaloedd economaidd allweddol yn y rhanbarth, mae'n bwysig na chaiff ardaloedd llai sy'n rhyng-gysylltu â'r rhanbarth hwn eu hanghofio. Gallai fod yn briodol i sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer penderfynu pa ardaloedd trefol fydd yn elwa ar y buddsoddiad sylweddol.	Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 20 yn cydnabod yr ymadweithio cryf rhwng y rhanbarthau a pholisi 19. Yn sgil graddfa genedlaethol y cynllun, caiff ardaloedd eraill na chaiff eu nodi'n uniongyrchol eu trafod ar raddfa ranbarthol a lleol.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
Dylid chwilio am gyfleoedd i wella moddau trafndiaeth gyhoeddus yn rhanbarth Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a sicrhau cymaint â phosibl ohonynt drwy'r polisïau hyn. Ceir potensial i gryfhau'r polisi i ganolbwyntio'r cysylltedd ar opsiynau carbon isel er mwyn gwella ansawdd aer.	Mae Polisi 20 yn ymdrin â gwelliannau mewn seilwaith trafndiaeth ac mae polisïau 11 a 12 yn cryfhau teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus ac opsiynau trafndiaeth garbon isel. Mae Polisi 23 yn hybu metro Gogledd Cymru.
Gallai P17, P20, P21 a P22 geisio sicrhau na chaiff datblygiadau newydd eu lleoli ar y gorliffdir gweithredol. Dylai cynigion fod yn ofynnol i sicrhau na fyddai datblygiad yn gwaethgu risg o lifogydd mewn lleoliadau eraill. Mae gwella Seilwaith Gwyrdd drwy ddatblygiad newydd yn gyfle i leihau cymaint â phosibl y risg o lifogydd lleol. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau newid hinsawdd wrth benderfynu ar ddosbarthiad a maint risg o lifogydd.	Mae Polisi 8 yn ymdrin â hyn ar gyfer pob ardal twf. Ymdrinnir â risg o lifogydd mewn testun ategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Mae PCC a TAN 15 yn nodi'r polisi cenedlaethol ar y risg o lifogydd.
Gellid cryfhau Polisi P17 er mwyn cynnwys cyfleusterau a gwasanaethau.	Mae Polisi 20 yn cynnwys hyn.
Gellid cryfhau Polisi P17 er mwyn cynnwys cyfeiriad at gysylltiadau â chyfleusterau a gwasanaethau. Yn P21 ceir cyfleoedd i gyflawni seilwaith gwyrdd ar hyd y coridorau a byddai hyn yn cael ei gydnabod yn y testun ategol.	Mae Polisi 20 yn cynnwys hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 23 yn cynnwys cyfeiriad at seilwaith gwyrdd.
O ystyried natur sensitif a phwysigrwydd cenedlaethol AHNE Ynys Môn, a gallai'r polisi ar gyfer datblygu yn Ynys Môn o bosibl gynnwys geiriad sy'n cyfeirio at sicrhau bod yr AHNE yn cael ei ddiogelu neu ei wella drwy ddatblygiadau yn y rhanbarth.	Mae'r testun ategol yn cyfeirio at yr AHNE.
Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Cydnabyddir datblygiad ac adfywio ym mholisi 1 ac mae'r adrannau rhanbarthol yn cydnabod eu treftadaeth unigryw a'r angen i wella hyn.
Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Cydnabyddir datblygiad ac adfywio ym mholisi 1 ac mae'r adrannau rhanbarthol yn cydnabod eu treftadaeth unigryw a'r angen i wella hyn.
Pan fo polisïau yn cefnogi pwyslais ar dwf ar lefel ranbarthol, gallai'r polisïau annog cydweithrediad cynllunio rhanbarthol â CNC er mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Pan fuddsoddir mewn cysylltiadau trafndiaeth a phan gânt eu cryfhau drwy P21, dylid darparu ystyriaeth ofalus ar gyfer effeithiau'r cysylltiadau hyn ar gydlyniant y rhwydwaith ecolegol lleol a dylid osgoi neu liniaru cysylltiadau trafndiaeth sy'n rhwystro symudiad rhydd bywyd gwyllt mewn ardaloedd gwledig.	Mae llawlyfr y Cynllun Datblygu a PCC yn rhoi cyd-destun llawnach ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 24 yn ymdrin â hyn.
Argymhellir bod datblygiad a gefnogir drwy'r polisïau hyn yn cael ei annog neu y'i gwneir yn ofynnol iddynt leihau cymaint â phosibl y defnydd o adnoddau anadnewyddadwy a lleihau cymaint â phosibl y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.	Ymdrinnir â hyn yn PCC.
Grŵp 10	
Dylai'r testun ategol egluro'r diffiniad o seilwaith cysylltedd. Gellid cryfhau Polisi P23 i gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau.	Mae'r diffiniad o seilwaith cysylltedd wedi'i gynnwys ym mhob rhan o'r adrannau rhanbarthol.
Gallai'r polisïau hyn, neu eu testun ategol, o bosibl geisio annog mwy o ddefnydd o fathau cynaliadwy o drafnidiaeth megis drwy geisio canolbwyntio buddsoddiad newydd ar lwybrau rheilffordd a bysiau.	Mae polisi'r metro a pholisi 12 yn ymdrin â mathau cynaliadwy o drafnidiaeth. Mae PCC yn ymdrin â deunyddiau adeiladu ac ynni adnewyddadwy.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
Gallai polisïau hefyd annog y defnydd o ddeunyddiau carbon isel ar gyfer adeiladu ac i ddefnyddio ynni adnewyddadwy. Pe byddai pwyslais ar borthladd gwahanol drwy P25, gallai'r Llywodraeth geisio sicrhau bod cynhyrchu ynni yma â chymaint o bwyslais ar ffynonellau adnewyddadwy o ynni.	Mae Polisi 32 Dyfrffordd y Ddau Gledau wedi'i ailddrafftio i ganolbwyntio ar ynni. Mae Polisi 10 yn ymdrin â pholisïau porthladdoedd.
Gallai polisïau gyfeirio'n benodol at yr angen i gyfeirio datblygiad i ffwrdd o dir sydd â risg o lifogydd yn ddilyniannol, yn enwedig tir sydd â rhywfaint o risg o lifogydd nad yw'r math o ddatblygiad yn addas ar ei gyfer yn unol â pholisi rheoli risg o lifogydd Llywodraeth Cymru.	Mae Polisi 8 yn ymdrin â hyn ar gyfer yr holl ardaloedd twf. Ymdrinnir â llifogydd hefyd yn y testun ategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Mae PCC a TAN 15 yn nodi polisi cenedlaethol ar y risg o lifogydd.
Dylid sicrhau capasiti garthffosiaeth priodol datblygiad cyn datblygu mewn ardal arfordirol.	Mae PCC yn ymdrin â hyn.
Gellid cryfhau Polisïau P23 a P24 i gynnwys cyfeiriad at gysylltiadau at gyfleusterau a gwasanaethau. Gellid cryfhau Polisi P25 i gynnwys cyfeiriad at seilwaith cynhwysol a chysylltiadau.	Mae Polisïau 28 a 29 yn adlewyrchu cysylltiadau â chyfleusterau a gwasanaethau. Mae PCC yn ymdrin â seilwaith ac mae canlyniad un hefyd yn ymdrin â hyn.
Gellid cryfhau polisïau P23 a P24 i gynnwys cyfeiriad at gyfleusterau a gwasanaethau. Ym Mholisi P26 ceir cyfleoedd i gyflawni seilwaith gwyrdd ar hyd y coridorau a byddai hyn yn cael ei gydnabod yn y testun ategol.	Mae Polisïau 28 a 29 yn adlewyrchu'r cysylltiadau â chyfleusterau a gwasanaethau. Mae Polisi 31 yn ymdrin â seilwaith gwyrdd yn y testun ategol.
Pan ganiateir adolygu ffiniau anheddiad, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i dirluniau a morluniau sensitif neu asedau bioamrywiaeth neu ddynodiadau a fyddai'n ofynnol er mwyn osgoi effeithiau negyddol.	Mae PCC a Pholisi 9 yn ymdrin â hyn.
Pan fo datblygiad mewn cynlluniau rhanbarthol neu leol wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig wrth ymateb i 'amgylchiadau lleol', dylai'r 'amgylchiadau lleol' hyn gynnwys yr ystod leol o asedau ac ardaloedd hanesyddol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol iddynt wrth benderfynu faint o dwf y gall yr ardal ei gefnogi. P23 a P24 – Gellid cydnabod cyfle a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Cydnabyddir asedau hanesyddol yn y testun ategol ar gyfer pob rhanbarth a PCC.
P23 a P24 – Gellid cydnabod cyfle a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Cydnabyddir asedau hanesyddol yn y testun ategol ar gyfer pob rhanbarth a PCC.
Dylid ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad yn ymyl ardaloedd arfordirol a morol gynnwys camau osgoi a lliniaru priodol i atal effeithiau negyddol ar gynefinoedd sensitif, rhywogaethau a dynodiadau. Dylai'r Llywodraeth geisio cefnogi datblygiadau na fyddai'n achosi risg sylweddol i safleoedd Natura 2000 yn unig. Gallai ffiniau hyblyg achosi risg o bosibl i fioamrywiaeth mewn ardaloedd gwledig ac felly byddai angen ei rheoli yn ofalus. Dylai datblygiad mewn lleoliadau trefol ymgorffori seilwaith gwyrdd sy'n cynnwys amrywiaeth eang o rywogaethau natur i helpu i wella bioamrywiaeth leol.	Mae'r broses HRA yn ymdrin â hyn ac mae pennod 1 yn cynnwys adran ar HRA ac yn cysylltu â'r adroddiadau HRA. Mae PCC a TAN 5 hefyd yn ymdrin â hyn. Mae Polisïau 9 a 2 yn pennu gofyniad ar gyfer seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth ac ardaloedd trefol.
Gallai polisïau annog datblygiad i gynnwys technegau a deunyddiau carbon isel yn ystod y broses adeiladu yn ogystal â defnyddio ynni adnewyddadwy.	Mae PCC yn ymdrin â hyn.
Grŵp 11	
Gellid cryfhau P31 i gynnwys hygyrchedd gan ystod o fathau cynaliadwy o drafnidiaeth nid trafndiaeth gyhoeddus yn unig.	Mae Polisïau 12 a 36 yn ymdrin â mathau cynaliadwy o drafnidiaeth.
Gellid cryfhau P28 i gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau. Ceir cyfle i gryfhau'r testun ategol i gydnabod y buddion amgylcheddol yn y maes hwn. Gellid cryfhau P31 i gynnwys hygyrchedd gan ystod o fathau cynaliadwy o drafnidiaeth nid trafndiaeth gyhoeddus yn unig.	Mae Polisi 28 yn ymdrin â hygyrchedd at gyfleusterau a gwasanaethau.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
	Mae'r testun ategol yn cydnabod y cyfleoedd ar gyfer buddion amgylcheddol yn y rhanbarth. Mae Polisiâu 12 a 36 yn ymdrin â moddau cynaliadwy o drafndiaeth.
Yn ogystal â disgwyl i ddatblygiadau mewn ardaloedd â risg o lifogydd gydymffurfio â pholisi rheoli risg o lifogydd Llywodraeth Cymru drwy ddewis safleoedd yn ofalus ar gyfer datblygiad a bod y mathau o ddatblygiad yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer y lleoliadau hyn, gellid hefyd eu hannog i gynnwys camau dylunio a fyddai'n lliniaru'r risg o lifogydd yn naturiol megis elfennau seilwaith gwyrdd ac arwynebau hydraid, yn ogystal â systemau draenio cynaliadwy.	Mae hyn yn rhan o bolisi llifogydd Llywodraeth Cymru, gweler polisi 8, PCC a TAN 15. Mae systemau draenio cynaliadwy yn ofyniad deddfwriaethol y tu hwnt i gynllunio.
Ceir potensial i gryfhau P27, P28 a P29 i ganolbwyntio'r cysylltedd ar opsiynau carbon isel er mwyn gwella ansawdd aer.	Ymdrinnir â hyn drwy ein polisiâu eraill megis polisiâu 2 a 12 a PCC.
Wrth ddewis lleoliadau ar gyfer eu datblygu yng Nghaerdydd a Chasnewydd, dylid ystyried yn ofalus yr effeithiau posibl ar grynofeydd dŵr naturiol gan gynnwys Aber Afon Hafren. Dylid annog neu ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad fabwysiadu camau i leihau cymaint â phosibl y risg o halogi neu lygru. Pe byddai unrhyw grynofeydd dŵr naturiol o fewn safle neu yn gyfagos, dylai datblygiad geisio gwella ansawdd y dŵr hwn er mwyn cynorthwyo i fodloni Gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Dylai cartrefi a busnesau newydd a adeiladir yn y rhanbarthau hyn gynnwys camau arbed dŵr er mwyn galluogi pobl a busnesau i leihau eu defnydd o ddŵr. Dylid dim ond caniatáu datblygiad pan fo'n amlwg bod digon o gapasiti yn y system garthffosiaeth leol.	Ymdrinnir â'r materion hyn drwy amrywiaeth o agweddau gan gynnwys PCC, rheoliadau adeiladu, yr HRA a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ymgynghoreion statudol ar gyfer y system gynllunio.
Gellid cryfhau P28 er mwyn cynnwys cyfeiriad at gysylltiadau â chyfleusterau a gwasanaethau. P31 – Mae'r testun ategol i'r polisi yn cydnabod swyddogaeth y Metro wrth gynyddu cysylltiadau yn y maes hwn. Gellid cydnabod hyn yn y polisi drwy amryw o gyfleoedd metro a theithio llesol a fyddai'n creu llawer o fanteisio iechyd.	Mae Polisi 28 yn ymdrin â'r gallu i gael gafael ar gyfleusterau a gwasanaethau. Mae Polisi 12 yn cydnabod amrywiaeth o gyfleoedd metro a theithio llesol.
Gellid cryfhau P27 a P28 i gynnwys cyfeiriad at gysylltiadau a chyfleusterau a gwasanaethau. Yn P31 ceir cyfleoedd i gyflawni seilwaith gwyrdd ar hyd y coridorau a byddai hyn yn cael ei gydnabod yn y testun ategol.	Fel yr uchod – chyfleusterau Mae Polisiâu 36 a 12 yn ymdrin â seilwaith gwyrdd yn ogystal â PCC.
Gallai P32 a'i destun ategol o bosibl cynnwys y geiriad sy'n nodi ymrwymiad i sicrhau bod ehangu a datblygu yn y maes awyr yn mabwysiadu egwyddorion creu lleoedd a fyddai'n diogelu ac yn gwella cymeriad yr ardal o gwmpas a safleoedd asedau treftadaeth. Mae gan P31 y potensial i gyflawni trefluniau hygyrch a chynhwysol.	Mae PCC yn nodi gofynion ar gyfer egwyddorion creu lleoedd i ddatblygiadau.
Gellid cydnabod P28 – cyfle a buddion adfywio wedi'i arwain gan dreftadaeth yn y testun ategol. P27 – gweler amcan 13.	Cydnabyddir asedau hanesyddol yn y testun ategol ar gyfer pob rhanbarth ac yn PCC.
Gellid cydnabod P28 – cyfle a buddion adfywio wedi'i arwain gan dreftadaeth yn y testun ategol neu ei ychwanegu i'r Strategaeth Ofodol fel egwyddor trosfwaol.	Cydnabyddir asedau hanesyddol yn y testun ategol ar gyfer pob rhanbarth ac yn PCC.
Byddai P32 Maes Awyr Caerdydd yn mabwysiadu arfer gorau er mwyn cynnwys Seilwaith Gwyrdd yn y datblygiad sy'n ddeniadol yn weledol ac sy'n gadael argraff gadarnhaol ar ymwelwyr newydd â Chymru yn ogystal â bod o werth bioamrywiaeth uchel ac sy'n gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at gysylltedd cynefinoedd.	Mae Polisi 9 a PCC yn ymdrin â hyn.

ACI yr FfDC Drafft - Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r rhain yn adlewyrchu'r FfDC wedi'i ddiwygio ar ôl yr ymgynghoriad
Effeithiau Cronnol	
Pan fo'r FfDC yn ceisio annog a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth newydd, gellid rhoi mwy o bwyslais ar y rheini sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgu sgiliau a gwasanaethau addysg. Pan fo'r FfDC yn annog buddsoddi yn rhwydwaith a seilwaith trafndiaeth Cymru a'u datblygu, gellid rhoi pwyslais ar yr angen am lwybrau cerdded a beicio diogel a chyfleus, yn ddelfrydol wedi'u hintegreiddio mewn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd sy'n gwella'r gallu i gyrraedd cyfleusterau addysg drwy fathau cynaliadwy o drafndiaeth.	Cydnabyddir pwysigrwydd sgiliau ac addysg yn FfDC a PCC. Mae Polisiâu 11 a 12 yn ymdrin â chyfleoedd teithio llesol a seilwaith gwyrdd.
Gallai'r FfDC geisio annog a hwyluso yn benodol datblygiadau sy'n garbon niwtral.	Mae PCC a'r FfDC yn adlewyrchu'r angen am ddatblygiad cynaliadwy.
Pan fo'r FfDC yn annog darparu seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau strategol, gallai gynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd Seilwaith Gwyrdd ac arwynebau hydraid wrth wanhau'r risg o lifogydd a dylid cynnwys hyn yn y penderfyniadau a wneir ynghylch pa seilwaith gwyrdd fyddai'n briodol i'w cynnwys mewn datblygiadau.	Mae Polisi 9 yn ymdrin â hyn.
Pan fo polisiâu yn cynnig, yn cefnogi neu'n annog datblygiad newydd neu dwf datblygiadau presennol, byddai'r polisi yn cynnwys geiriad a fyddai'n ceisio gwarchod bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. I sicrhau bod bioamrywiaeth nid yn unig yn cael ei warchod ond hefyd yn cael ei gwella yn gyffredinol, dylai'r polisiâu hyn ddarparu geiriad cryf sy'n nodi y byddai penderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystyried unrhyw effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ac ni ellir gwrthbwysu'r rhain gan enillion cymdeithasol neu economaidd, yn ogystal ag unrhyw welliannau a ragwelir i fioamrywiaeth leol.	Mae Polisi 9 yn ymdrin â hyn ac yn cynnwys budd net. Mae hyn wedi'i gynnwys yn PCC hefyd.

Tabl A-2 Crynodeb o argymhellion a wnaed yn yr ACI i helpu i wella perfformiad cynaliadwyedd yr FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig (Mawrth 2020) ac Ar Ôl Craffu gan y Senedd (Chwefror 2021)

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Grŵp 1	
Opsiynau Amgen Rhesymol	Polisi 1 oedd yr unig bolisi i fod ag opsiwn amgen rhesymol a gafodd sgôr uwch na pholisi'r FfDC. Yr Opsiwn Amgen Rhesymol – Ni fyddai pwyslais trefol canolog ar gyfer y twf a sgoriwyd yn cefnogi ardaloedd gwledig ac felly ni fyddent yn cynorthwyo i greu lleoedd cynaliadwy ledled Cymru.
Gellid cydnabod y prifysgolion a'u swyddogaeth yn y testun ategol ar gyfer yr ardaloedd twf rhanbarthol nid yr Ardaloedd Cenedlaethol yn unig.	Cytuno. Nodir prifysgolion yn y testun ategol ar gyfer pob rhanbarth ac yn benodol ym mholisi 24. Ychwanegwyd testun hefyd i ysgogi ymgysylltiad rhagweithiol â phrifysgolion.
P1 – gellid cryfhau'r testun ategol i gydnabod buddion iechyd y polisi.	Cytuno. Cydnabyddir buddion iechyd y strategaeth yn y cyflwyniad i bennod 4 a defnyddiwyd dull o gynnwys iechyd ym mhob polisi wrth ddrafftio'r cynllun. Mae testun wedi'i ychwanegu i'r testun ategol ar gyfer polisi 1 i gydnabod y cysylltiadau â

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
	chanlyniadau'r FfDC a'r dyheadau ar gyfer iechyd, y Gymraeg, datgarboneiddio a ffyniant.
Gallai P2 argymhell y dylid cynnwys llwybrau cerdded a beicio mynediad i ddatblygiadau newydd mewn rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd Lleol.	Cytuno. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 2 yn cydnabod y cyfleoedd i gynnwys teithio llesol a seilwaith gwyrdd.
Er bod P1 yn annog datblygu sy'n bodloni dyheadau ac anghenion lleol, gallai hefyd gyfeirio at yr angen am ddatblygiad sy'n mynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd lleol. Gallai o bosibl hefyd annog datblygiad carbon niwtral a chartrefi sero-net.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy a lleihau carbon yn PCC.
Gallai P2 a P6 o bosibl nodi yn benodol y byddai datblygiad sy'n osgoi tir sydd â risg o lifogydd, neu'n osgoi gwaethygu'r risg o lifogydd mewn lleoliadau eraill, yn cael ei annog yn benodol.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â pholisi cenedlaethol ar gyfer y risg o lifogydd drwy PCC a TAN 15. Mae Polisi 8 yn ymdrin â'r risg o lifogydd ar gyfer ardaloedd twf ac mae'r adran ranbarthol yn cynnwys materion llifogydd ar raddfa ranbarthol.
Gallai P2 neu ei destun ategol gynnwys cyfeiriad at effaith bosibl datblygiad dwys mewn lleoliad trefol ar ansawdd aer ac y dylid ystyried hyn yn nyluniad a chynllun y datblygiad. Gallai mannau gwyrdd ac ystyried seilwaith gwyrdd fod yn allweddol i leihau'r effeithiau posibl hyn cymaint â phosibl.	Cytuno. Mae Pennod 4 yn cydnabod effaith bosibl cynyddu datblygiad trefol a'r effeithiau ar ansawdd aer. Cydnabyddir hyn hefyd yn y testun ategol ar gyfer Polisi 2. Mae testun ategol Polisi 2 yn cydnabod buddion atebion arloesol sy'n seiliedig ar natur gan gynnwys Seilwaith gwyrdd ar ansawdd aer.
Ceir cyfle i sicrhau cysylltiadau ag ardaloedd gwledig drwy gryfhau P5 i gynnwys cyfeiriad at seilwaith gwyrdd a chysylltiadau ar gyfer cymunedau ynysig. Byddai hyn yn gwella mynediad cynhwysol at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 12 yn ymdrin â chysylltedd ar raddfa ranbarthol gan gydnabod y gwahaniaeth rhwng cymunedau trefol a gwledig. Mae Polisi 4 yn canolbwyntio ar fynediad da at wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau gwledig.
Gellid cydnabod y potensial ar gyfer adfywiad a arweinir gan dreftadaeth a diwylliant yma yn benodol yn P2.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Canlyniad 6 a'r testun ategol yn yr adrannau rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth a diwylliant ledled Cymru a'r angen i'w diogelu a'u gwella. Mae'r FfDC yn cydnabod y cyfleoedd ar gyfer adfywio. Mae PCC yn nodi'r cyd-destun ar gyfer y cynlluniau rhanbarthol a lleol i fwrw ymlaen â hyn.
Gallai polisiâu o bosibl geisio sicrhau bod bioamrywiaeth, a geoamrywiaeth pan fo hynny'n berthnasol, mewn ardaloedd trefol ac ar ffiniau anheddiad yn cael eu diogelu a'u gwella.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 9 a PCC yn ymdrin â'r materion hyn.
Grŵp 2	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Cafodd y polisi yn yr FfDC sgôr uwch na'r opsiwn amgen rhesymol.
Gallai P3 roi mwy o bwyslais ar yr angen am dwf ac adfywio 'cynaliadwy' i nodi'r amrywiaeth o risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol mewn datblygiad newydd.	Cytuno. Mae Polisi 3 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu twf ac adfywio. Pennir egwyddor datblygu cynaliadwy drwy PCC a chreu lleoedd.
Gallai'r polisi gael ei gryfhau i elwa i'r eithaf ar drafndiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio lleol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer Polisi 6 wedi'i gryfhau i gydnabod pwysigrwydd teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac mae PCC yn ymdrin â'r materion hyn.
Grŵp 3 – dim argymhellion	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Cafodd y polisi yn yr FfDC sgôr uwch na'r opsiwn amgen rhesymol.
Grŵp 3 – dim argymhellion	

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Opsiwn Amgen Rhesymol	Cafodd y polisi yn yr FfDC sgôr uwch na'r opsiwn amgen rhesymol.
Grŵp 5	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Cafodd y polisi yn yr FfDC sgôr uwch na'r opsiwn amgen rhesymol.
Gellid lleoli yn strategol y goedwig newydd y cyfeirir ati yn P15 er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o'i gwerth lliniaru'r risg o lifogydd.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer Polisi 15 yn ymdrin â'r potensial i liniaru'r risg o lifogydd.
Gallai P15 bwysleisio pwysigrwydd elw i'r eithaf ar werth gwasanaethau ecosystem y Goedwig genedlaethol Newydd a hefyd sicrhau ei bod yn gwella cysylltedd ecosystem a gefnogir yn P9.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer Polisi 15 yn ymdrin â'r potensial i elwa i'r eithaf ar gysylltedd ecosystem ochr yn ochr â Pholisi 9.
Grŵp 6	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Mae'r FfDC wedi'i baratoi dan gyfarwyddyd y Rhaglen Lywodraethu ac yng nghyd-destun strategaethau cenedlaethol allweddol gan gynnwys trafnidiaeth, yr economi, yr amgylchedd, datgarboneiddio, adfywio ac ati. Mae hyn yn cynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyflwyno targedau a chyllidebau carbon i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i ostwng allyriadau yng nghyfnod cyntaf y gyllideb garbon (2016-20) ac i gefnogi twf economi carbon isel mewn modd sy'n sicrhau cymaint â phosibl o fuddion ehangach ar gyfer Cymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n cynnwys polisiau a chynigion ar gyfer y meysydd allweddol sef amaeth, defnydd tir, trafnidiaeth, ynni, y sector cyhoeddus, diwydiant a busnes, gwastraff ac adeiladau. Mae'n nodi'n benodol y bydd yr FfDC yn sicrhau bod gan y system gynllunio yng Nghymru ran allweddol wrth hwyluso twf glân a datgarboneiddio. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd yn gynllun addasu i'r newid hinsawdd ar gyfer Cymru sydd yn ymwneud â rhagweld y risgiau a'r effeithiau sy'n deiluo o newid hinsawdd a gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y gwaith gofynnol er mwyn sicrhau ein bod wedi ein paratoi yn dda. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hefyd yn ymdrin â newid hinsawdd a fydd yn sicrhau yr ystyrir ac yr adlewyrchir hyn yn yr FfDC gan gynnwys sicrhau bod cymunedau yn gynaliadwy ac yn gydnerth. Mae'r FfDC yn adlewyrchu'r rhain ac yn nodi polisiau penodol sy'n ceisio hybu datgarboneiddio drwy: - Gyflawni datblygiad cynaliadwy; - Lleihau'r ddibyniaeth ar y car drwy gynyddu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus; - Cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith er mwyn galluogi cerbydau allyriadau isel iawn;

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
	- Hwyluso cyflenwad ynni adnewyddadwy; - Hybu'r Goedwig Genedlaethol; a - Hybu egwyddorion economi gylchol.
Gellid cryfhau P10 i gynnwys cyflawni seilwaith gwyrdd, teithio llesol a mathau cynaliadwy o drafnidiaeth.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r FfDC yn rhan o ystod eang o bolisiau a chamau ac mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i gyflawni ei hamcanion newid hinsawdd. Mae PCC a pholisiau 9, 11 a 12 yr FfDC yn ymdrin â hyn.
Gallai'r polisi geisio gwella mathau cynaliadwy o drafnidiaeth at Byrth ac oddi wrthynt. Gallai'r polisi gynnwys geiriad sy'n cyfleu 'byddai ymdrechion i ddatgarboneiddio teithio rhyngwladol sy'n gysylltiedig â'r Pyrth yn cael eu cefnogi mewn egwyddor'.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r FfDC yn rhan o ystod eang o bolisiau a chamau ac mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i gyflawni ei hamcanion newid hinsawdd. Mae PCC a pholisiau 9, 11 a 12 yr FfDC yn ymdrin â hyn. Nodwyd. Mae'r FfDC yn rhan o ystod eang o bolisiau a chamau ac mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i gyflawni ei hamcanion newid hinsawdd. Mae'r testun ategol i bolisi 10 yn ymdrin â hyn a'r ymrwymiad i ddatgarboneiddio.
Gallai o bosibl gynnwys geiriad i sicrhau bod datblygiadau mewn Pyrth Strategol yn diogelu ac yn gwella cymeriad yr ardal o gwmpas.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir ag egwyddorion creu lleoedd, tirlun, treftadaeth a chymeriad yn PCC.
Gellir cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth yn y testun ategol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Canlyniad 6 a'r testun ategol yn yr adrannau rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth a diwylliant ledled Cymru a'r angen i'w diogelu a'u gwella. Mae'r FfDC yn cydnabod y cyfleoedd i adfywio. Mae PCC yn nodi'r cyd-destun ar gyfer cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol i fwrw ymlaen â hyn.
Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Canlyniad 6 a'r testun ategol yn yr adrannau rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth a diwylliant ledled Cymru a'r angen i'w diogelu a'u gwella. Mae'r FfDC yn cydnabod y cyfleoedd i adfywio ac mae PCC yn nodi'r cyd-destun ar gyfer cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol i fwrw ymlaen â hyn.
Dylai Maes Awyr Caerdydd fabwysiadu arfer gorau er mwyn cynnwys Seilwaith Gwyrdd yn y datblygiad a fyddai'n ddeniadol yn weledol ac o werth bioamrywiaeth uchel.	Wedi ymdrin â hyn. Mae PCC a pholisi 9 yr FfDC yn ymdrin â hyn.
Gallai P10 roi mwy o eglurder ynghylch a fyddai twf a datblygiad newydd yn y Pyrth Strategol, a ystyrir yn angenrheidiol er mwyn 'cynnal' eu swyddogaeth/capasiti, yn cael ei gefnogi.	Nodwyd. Mae polisi 10 yn caniatáu datblygiad priodol yng nghyd-destun ein hamcanion cynaliadwyedd a datgarboneiddio ehangach.
Byddai dull integredig rhwng yr FfDC a Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, sy'n datblygu, yn helpu i sicrhau bod pobl wedi'u cysylltu ag ardaloedd cyflogaeth a chyfleoedd.	Nodwyd. Mae pennod 2 yr FfDC yn amlinellu'r berthynas rhwng yr FfDC a'r Strategaeth Drafnidiaeth. Mae'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru bresennol a'r un sy'n datblygu, ynghyd â'r polisiau a'r prosiectau trafnidiaeth cysylltiedig, wedi cyfrannu yn uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisiau'r FfDC. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu a gweithio gyda'i gilydd ar y Strategaeth Drafnidiaeth sy'n datblygu.

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Grŵp 7	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Ni fyddai opsiwn amgen rhesymol Polisi 13, sef gwneud dim, yn elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r buddion y gallai cryfhau'r ddarpariaeth o seilwaith cyfathrebu digidol eu sicrhau ledled Cymru.
Mae'r goblygiadau gofodol y seilwaith cyfathrebu digidol yn gymharol ansicr. Gallai P14 o bosibl gynnwys map.	Mae'r testun ategol wedi'i ddiweddarau ar gyfer polisi 14 i adlewyrchu gwaith sy'n parhau o ran mapio'r ardaloedd hyn.
Dylai seilwaith symudol newydd osgoi effeithiau negyddol ar asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Canlyniad 6 a'r testun ategol yn yr adrannau rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth a diwylliant ledled Cymru a'r angen i'w diogelu a'u gwella. Mae'r FfDC yn cydnabod y cyfleoedd i adfywio. Mae PCC yn nodi'r cyd-destun ar gyfer y cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol i fwrw ymlaen â hyn.
Grŵp 8	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Mae Polisiâu 17 a 18, yn rhoi cyfleoedd i greu buddion economaidd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Byddai'r effeithiau negyddol a chadarnhaol ansicr yn dibynnu ar eu gweithrediad ac mae'r polisiâu yn darparu eglurdeb a sicrwydd.
Gallai P18 gynnwys gofyniad i ddatblygiad adnewyddadwy newydd a'r seilwaith cysylltiedig osgoi effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd dŵr.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol a pholisi 17 yn ymdrin â hyn yn ogystal â PCC.
Gallai P17 gyfeirio at bob math o fuddion, gan gynnwys rhai diwylliannol, nid mewn cyd-destun economaidd yn unig. Gallai P17 neu P18 annog cynlluniau cymunedol ar raddfa fach sy'n annog cydlyniant.	Cytuno. Tynnwyd y gair 'economaidd' o'r polisi. Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 17 yn cwmpasu ynni adnewyddadwy ar bob graddfa ac mae'n cydnabod buddion cymunedol lleol yn sgil prosiectau o'r fath.
Gallai P17 neu P18 o bosibl gael eu cryfhau drwy gynnwys cyfeiriad at fuddion diwylliannol i gwmpasu holl elfennau datblygiad cynaliadwy.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 17 yn cynnwys cyfeiriadau at welliannau diwylliannol.
Gallai P18 gynnwys yr angen i ddiogelu geoamrywiaeth Cymru rhag effeithiau annerbyniol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol, P17 a PCC yn ymdrin â hyn.
Grŵp 9	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Mae Polisi 19 yn achosi effeithiau negyddol a chadarnhaol ansicr ond mae'r polisi yn rhoi arweiniad clir i gynlluniau rhanbarthol a byddai'n galluogi dull rhanbarthol cadarnhaol a allai greu buddion cadarnhaol o ran y Gymraeg.
Darparu eglurdeb ynghylch a fyddai'r ddarpariaeth cyflogaeth yn cynnwys sgiliau ac addysg – gallai gyfeirio at 'ystyriaeth o sefydliadau addysgiadol' mewn cyd-destun rhanbarthol.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â hyn yn PCC.
Mae P19 yn cyfeirio at leiniau glas a choridorau gwyrdd, ond nid yw'n eglur a fyddai hyn yn cynnwys Seilwaith Gwyrdd yn ei ddiffiniad ehangaf – gellid egluro'r berthynas â Seilwaith Gwyrdd.	Mae cyfeiriad wedi'i gynnwys yn seilwaith gwyrdd ym Mholisi 19. Mae PCC a Pholisi 9 yn ymdrin â'r llain las a seilwaith gwyrdd.
Gallai'r testun ategol egluro'r diffiniad o 'seilwaith cysylltedd'- gallai hyn gynnwys digidol, gwyrdd, teithio llesol ac ati i sicrhau cymaint o fuddion â phosibl.	Cytuno. Mae'r testun ategol wedi'i ddiweddarau i ddiffinio 'seilwaith cysylltedd'.
Gallai P19 gynnwys ystyriaeth o gydweithrediad ar draws y ffin ag awdurdodau Lloegr.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol yn ymdrin â chydweithredu ar draws y ffin.

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Gallai P19 gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr fel elfen sylfaenol o gynlluniau rhanbarthol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'n rhaid ystyried ac ymdrin â llygredd trwy gynlluniau datblygu ac mae PCC yn nodi ein polisi cenedlaethol ar lygredd.
Argymhellir y dylid annog cynlluniau datblygu rhanbarthol i gydweithio â CNC i sicrhau cymaint â phosibl o fuddion o ran rheoli'r risg o lifogydd.	Wedi ymdrin â hyn. Mae llawlyfr y Cynllun Datblygu a PCC yn rhoi cyd-destun ehangach ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Cynaliadwy.
Argymhellir y dylai cynlluniau rhanbarthol gydweithio â CNC a chwmnïau dŵr i sicrhau y rheolir ac y defnyddir adnoddau dŵr yn gynaliadwy.	Wedi ymdrin â hyn. Development Mae llawlyfr y Cynllun Datblygu a PCC yn rhoi cyd-destun ehangach ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Cynaliadwy.
Gallai P19 gynnwys cydweithredu ar draws y ffin ag awdurdodau Lloegr.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol yn ymdrin â chydweithredu ar draws y ffin.
Gallai P19 gyfeirio at 'ddiogelu a gwella cysylltedd rhwydweithiau ecolegol'. Gallai P19 annog cydweithredu â CNC i gysylltu â datganiadau ardal i gynnwys blaenoriaethau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chamau diogelu ar gyfer geoamrywiaeth.	Wedi ymdrin â hyn. Dylid darllen Polisi 19 ochr yn ochr â Pholisi 9 a PCC sy'n ymdrin â'r materion hyn.
Gellid cryfhau P19 i gynnwys cyfeiriad at lygredd.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'n rhaid ystyried llygredd ac ymdrin â hyn drwy gynlluniau datblygu ac mae PCC yn nodi ein polisi cenedlaethol ar lygredd.
Grŵp 10	
Opsiw'n Amgen Rhesymol	Mae Polisi 19 yn achosi effeithiau negyddol a chadarnhaol ansicr ond mae'r polisi yn rhoi arweiniad clir i gynlluniau rhanbarthol a byddai'n galluogi dull rhanbarthol a allai fod â buddion cadarnhaol o ran y Gymraeg. Polisiâu 20 a 21 – byddai'r opsiynau amgen gwneud dim yn debygol o gydymffurfio â thueddiadau llinell sylfaen gan fod allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth yn gostwng yn araf, yn rhannol yn sgil safonau allyriadau cerbydau yn gwella a chyfran gynyddol o'r fflyd cerbydau yn rhai trydan ac mae tueddiadau ansawdd aer yn gwella'n gyffredinol. Dylid hefyd ystyried polisiâu 20 a 21 yr FfDC yng nghyd-destun polisiâu eraill yr FfDC sydd, ar y cyd, yn ceisio gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at symudiad Cymru tuag at ddyfodol carbon isel, megis polisiâu ar gynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy, datblygu rhwydweithiau ynni mwy effeithlon a gwella'r cynnig o ran mathau cynaliadwy o drafndiaeth. Byddai'r effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar weithrediad y polisiâu yn y grŵp hwn ond mae'n bosibl na fydd cyfleoedd a buddion y polisiâu hyn yn cael eu cyflawni heb gyfeiriad strategol yr FfDC.
Dylai'r testun ategol egluro'r diffiniad o seilwaith cysylltedd. Argymhellir y gellir mabwysiadu dull hyblyg tuag at fannau gwyrdd, sy'n ystyried seilwaith gwyrdd yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau bod y gallu i fynd i fan gwyrdd ar gael yn fwy teg, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig a threfol.	Cytuno. Mae'r testun ategol yn cynnwys diffiniadau o seilwaith cysylltedd i gynnwys seilwaith trafndiaeth a digidol. Mae hyn wedi'i newid ar draws yr holl ranbarthau. Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â Seilwaith Gwyrdd drwy bolisi 9 a PCC.

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Gallai P20 a P24 gyfeirio at ymadweithio cryf rhwng Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr o ran marchnadoedd swyddi.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 20 yn cydnabod yr ymadweithio cryf rhwng y rhanbarthau a pholisi 19.
Dylid chwilio am gyfleoedd i wella mathau o drafnidiaeth gyhoeddus yn rhanbarth Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a sicrhau cymaint ohonynt â phosibl drwy'r polisïau hyn, yng nghynnig y Metro. Ceir potensial i gryfhau'r polisi er mwyn canolbwyntio'r cysylltedd ar opsiynau carbon isel er mwyn lleihau allyriadau.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 20 yn ymdrin â gwelliannau mewn seilwaith trafndiaeth ac mae polisïau 11 a 12 yn cryfhau teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus ac opsiynau trafndiaeth carbon isel. Mae Polisi 23 yn hybu Metro Gogledd Cymru.
Gallai P20, P23 a P24 geisio sicrhau na chaiff datblygiad newydd ei leoli ar y gorlifdir gweithredol. Mae gwella Seilwaith Gwyrdd drwy ddatblygiadau newydd yn gyfle i leihau'r risg o lifogydd lleol cymaint â phosibl. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau newid hinsawdd wrth benderfynu ar ddosbarthiad a maint risg o lifogydd.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 8 yn ymdrin â hyn ar gyfer yr holl ardaloedd twf. Ymdrinnir â llifogydd hefyd yn y testun ategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Mae PCC a TAN 15 yn nodi'r polisi cenedlaethol ar risg o lifogydd.
P20 a P21 Mae cyfle i wella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau i bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc ac fe ellir cryfhau'r polisi i gyfeirio at rhain	Wedi ymdrin â hyn. Mae polisïau 20 a 21 yn cyfeirio at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ac allweddol.
Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Wedi ymdrin â hyn. Cydnabyddir datblygu ac adfywio ym mholisi 1 ac mae'r adrannau rhanbarthol yn cydnabod eu treftadaeth unigryw a'r angen i wella hyn.
Gellid annog cydweithredu'r cynllunio rhanbarthol â CNC er mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. P23 – mae angen ystyried yn ofalus effeithiau cysylltiadau trafndiaeth ar fioamrywiaeth os oes angen. Dylid osgoi cysylltiadau trafndiaeth sy'n rhwystro bywyd gwyllt rhag symud yn rhydd yng nghefn gwlad.	Wedi ymdrin â hyn. Mae llawlyfr y Cynllun Datblygu a PCC yn rhoi cyd-destun llawnach ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu cynaliadwy. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 24 yn ymdrin â hyn.
Argymhellir y dylid annog datblygu a gefnogir drwy'r polisïau hyn neu ei bod yn ofynnol iddynt leihau cymaint â phosibl y defnydd o adnoddau anadnewyddadwy a lleihau cymaint â phosibl y gwastraff a anfonir i safle tirlenwi.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â hyn yn PCC a TAN 21 Gwastraff.
Grŵp 11	
Opsiw Amgen Rhesymol	Polisïau 25 a 26 - byddai'r opsiynau amgen gwneud dim yn debygol o gydymffurfio â thueddiadau llinell sylfaen gan fod allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth yn gostwng yn araf, yn rhannol yn sgil safonau allyriadau cerbydau yn gwella a chyfran gynyddol o'r fflyd cerbydau yn rhai trydan ac mae tueddiadau ansawdd aer yn gwella'n gyffredinol. Dylid hefyd ystyried polisïau 25 a 26 yr FfDC yng nghyd-destun polisïau eraill yr FfDC, wedi'u cyfuno, sy'n ceisio gwneud cyfraniad ystyrion tuag at symudiad Cymru i ddyfodol carbon isel, megis polisïau ar gynyddu'r cyflenwad o ynni

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
	adnewyddadwy, datblygu rhwydweithiau ynni mwy effeithlon a gwella'r cynnig. Byddai effeithiau ar dreflun yn dibynnu ar weithrediad polisi 27 ond mae'n bosibl na fydd cyfleoedd a buddion y polisiau hyn yn cael eu cyflawni heb gyfeiriad strategol yr FfDC.
Gallai P25 gydnabod y sgiliau a'r hyfforddiant gofynnol er mwyn cefnogi'r twf economaidd hyn. Gallai P27 gynnwys seilwaith a chysylltedd digidol a buddion posibl hyn.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â hyn yn PCC. Mae Polisi 27 yn canolbwyntio ar symudiad trafndiaeth ac ymdrinnir â buddion seilwaith a chysylltedd digidol ym mholisiau 13 a 14 a PCC.
Gellid cydnabod cyfleoedd i ddarparu seilwaith gwyrdd yn y testun ategol.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â buddion seilwaith gwyrdd yn y testun ategol.
Gallai P27 sicrhau bod buddsoddiad newydd yn canolbwyntio ar drafndiaeth gynaliadwy. Gallai P27 geisio lleihau'r angen i bobl deithio megis drwy wella cysylltedd digidol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 27 yn ymdrin â buddsoddiad mewn trafndiaeth gynaliadwy. Mae Polisi 27 yn canolbwyntio ar symudiad trafndiaeth ac ymdrinnir â buddion seilwaith a chysylltedd digidol ym mholisiau 13 a 14 a PCC. Mae'r testun ategol ar gyfer y rhanbarth hefyd yn ymdrin â hyn.
Gallai P27 sicrhau bod buddsoddiad newydd yn canolbwyntio ar drafndiaeth gynaliadwy a hefyd ymrwymo i leihau'r angen i bobl deithio megis trwy wella cysylltedd digidol. Gallai'r testun ategol gynnwys cysylltedd digidol a chydabod cydnheredd newid hinsawdd y seilwaith.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 27 yn ymdrin â buddsoddiad mewn trafndiaeth gynaliadwy. Mae Polisi 27 yn canolbwyntio ar symudiad trafndiaeth ac ymdrinnir â buddion seilwaith a chysylltedd ym mholisiau 13 a 14 a PCC. Mae PCC hefyd yn ymdrin â chydnerthedd newid hinsawdd.
Gallai'r testun ategol gydnabod buddion creu lleoedd trwy leihau rhwystrau i ddylunio da a chroesgyfeirio i bolisiau troswaol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae PCC yn nodi egwyddorion creu lleoedd.
Yn ogystal â chefnogi twf, sy'n diwallu anghenion cymdeithasol a chyflogaeth, gellid cefnogi amgylchedd naturiol y rhanbarth drwy gynigion datblygu yn P25.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol i'r rhanbarth, polisi 9 a PCC yn ymdrin â hyn.
Grŵp 12	
Opsion Amgen Rhesymol	Polisiau 28 a 29 - byddai'r opsiynau amgen gwneud dim yn debygol o gydymffurfio â thueddiadau llinell sylfaen gan fod allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth yn gostwng yn araf, yn rhannol yn sgil safonau allyriadau cerbydau yn gwella a chyfran gynyddol o'r fflyd cerbydau yn rhai trydan ac mae tueddiadau ansawdd aer yn gwella'n gyffredinol. Dylid ystyried polisiau 28 a 29 yr FfDC hefyd yng nghyd-destun polisiau eraill yr FfDC, dydd, wedi'u cyfuno, yn ceisio gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at symudiad Cymru i ddyfodol carbon isel, megis polisiau ar gynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy, datblygu rhwydweithiau ynni mwy effeithlon a gwella'r cynnig. Byddai'r effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar weithrediad y polisiau yn y grŵp hwn ond mae'n bosibl na fydd cyfleoedd a buddion y polisiau hyn yn cael eu cyflawni heb gyfeiriad strategol yr FfDC.

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Dylai'r testun ategol egluro'r diffiniad o seilwaith cysylltedd. Argymhellir y dylid mabwysiadu dull hyblyg tuag at fannau gwyrdd, sy'n ystyried seilwaith gwyrdd yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau bod y gallu i fynd i fan gwyrdd yn decach, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig a threfol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol wedi'i ddiweddarau i ddiffinio 'seilwaith cysylltedd'. Ymdrinnir â seilwaith gwyrdd drwy bolisi 9 a PCC.
Pe byddid yn canolbwyntio ar borthladd arall drwy P32, gallai'r Llywodraeth geisio sicrhau bod cynhyrchu ynni yma yn canolbwyntio'n gyfartal ar ffynonellau adnewyddadwy o ynni.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 10 yn ymdrin â pholisïau porthladdoedd. Mae polisïau 17 a 18 yn ymdrin ag ynni adnewyddadwy, yn ogystal â PCC.
Dylai datblygiadau mewn ardaloedd â risg o lifogydd gydymffurfio â pholisi rheoli risg o lifogydd Llywodraeth Cymru ond gallent hefyd gynnwys camau lliniaru'r risg o lifogydd yn naturiol megis elfennau seilwaith gwyrdd, arwynebau hydraid, yn ogystal â systemau draenio cynaliadwy.	Wedi ymdrin â hyn. Mae hyn yn rhan o bolisi llifogydd Llywodraeth Cymru, gweler polisi 8, PCC a TAN 15. Mae systemau draenio cynaliadwy yn ofyniad deddfwriaethol y tu hwnt i gynllunio.
Dylid sicrhau capasiti garthffosiaeth priodol datblygiad cyn datblygu mewn ardal arfordirol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae PCC yn ymdrin â hyn.
Gellid cryfhau Polisi P32 i gynnwys cyfeiriad at seilwaith cynhwysol a chysylltiadau.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 32 yn canolbwyntio ar ynni a dyfrffordd y Ddau Gledau ac yn cydnabod ei swyddogaeth bwysig yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Nodir gwella seilwaith a chysylltiadau yn y rhanbarth mewn polisïau eraill a'r testun ategol ar gyfer y rhanbarth ac yn genedlaethol.
Dylid rhoi ystyriaeth i forluniau yn ogystal â thirluniau yn P32.	Cytuno. Mae morlun wedi'i ychwanegu at destun y polisi.
P28 a P29 – Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y testun ategol.	Wedi ymdrin â hyn. Cydnabyddir datblygiad ac adfywio ym mholsi 1 ac mae'r adrannau rhanbarthol yn cydnabod eu treftadaeth unigryw a'r angen i'w gwella.
Dylai datblygiadau yn ymyl ardaloedd arfordirol a morol gynnwys camau osgoi a lliniaru priodol i atal effeithiau negyddol ar gynefinoedd sensitif, cynefinoedd, rhywogaethau a dynodiadau. Dylai datblygiad gyflawni budd net.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdriniwyd â hyn trwy'r HRA a chaiff ei gynnwys yn PCC a TAN5. Mae Polisi 9 yn ymdrin â budd net.
Gallai'r polisïau annog datblygiad i gynnwys technegau a deunyddiau carbon isel wrth adeiladu yn ogystal â defnyddio ynni adnewyddadwy.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â hyn yn PCC, ac mae polisïau 17 a 18 yn ymdrin ag ynni adnewyddadwy.
Grŵp 13	
Opsiwn Amgen Rhesymol	Polisïau 33 a 35 - byddai'r opsiynau amgen gwneud dim yn debygol o gydymffurfio â thueddiadau llinell sylfaen gan fod allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth yn gostwng yn araf, yn rhannol yn sgil safonau allyriadau cerbydau yn gwella a chyfran gynyddol o'r fflyd cerbydau yn rhai trydan ac mae tueddiadau ansawdd aer yn gwella'n gyffredinol. Dylid ystyried polisïau 33 a 35 yr FfDC hefyd yng nghyd-destun polisïau eraill yr FfDC, wedi'u cyfuno, sy'n ceisio gwneud cyfraniad ystyrion tuag at symudiad Cymru i ddyfodol carbon isel, megis polisïau ar gynyddu'r cyflenwad o ynni

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
	adnewyddadwy, datblygu rhwydweithiau ynni mwy effeithlon a gwella'r cynnig. Byddai effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol, y treflun a'r tirlun yn dibynnu ar weithrediad y polisïau yn y grŵp hwn ond mae'n bosibl na fydd cyfleoedd a buddion y polisïau hyn yn cael eu cyflawni heb gyfeiriad strategol yr FfDC.
Gellid cryfhau P36 i gynnwys mynediad gan ystod o fathau cynaliadwy o drafnidiaeth nid trafnidiaeth gyhoeddus yn unig.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol yn ymdrin â hyn yn ogystal â pholisi 12.
Gallai P28 gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau. Y testun ategol i gydnabod y buddion amgylcheddol yn y maes hwn. Gallai P31 gynnwys mynediad gan ystod o drafnidiaeth gynaliadwy nid trafnidiaeth gyhoeddus yn unig.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 28 yn cyfeirio at wasanaethau a chyfleusterau. Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 31 yn ymdrin â hyn yn ogystal â pholisi 12.
Dylai datblygiadau mewn ardaloedd â risg o lifogydd gydymffurfio â pholisi rheoli risg o lifogydd Llywodraeth Cymru ond gallent hefyd gynnwys camau lliniaru'r risg o lifogydd yn naturiol megis elfennau seilwaith gwyrdd, arwynebau hydraid, yn ogystal â systemau draenio cynaliadwy.	Wedi ymdrin â hyn. Mae hyn yn rhan o bolisi llifogydd Llywodraeth Cymru, gweler polisi 8, PCC a TAN 15. Mae systemau draenio cynaliadwy yn ofyniad deddfwriaethol y tu hwnt i gynllunio.
Ceir potensial i gryfhau P33 i ganolbwyntio ar gysylltedd opsiynau carbon isel er mwyn gwella ansawdd aer.	Wedi ymdrin â hyn. Ymdrinnir â hyn drwy bolisïau 11 a 12 a PCC.
Dylai datblygiad ddefnyddio dŵr yn effeithlon a'i annog i fabwysiadu camau rhagofalol i leihau cymaint â phosibl y risg o halogi neu lygru. Dylid dim ond caniatáu datblygiad pan fo'n amlwg bod digon o gapasiti yn y system garthffosiaeth leol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'n rhaid ystyried ac ymdrin â llygredd a chapasiti carthffosiaeth trwy gynlluniau datblygu ac mae PCC yn nodi'r polisi cenedlaethol perthnasol.
Gallai P33 gynnwys cyfeiriad at gysylltiadau â chyfleusterau a gwasanaethau. P36 – gellid cydnabod swyddogaeth y Metro wrth gynyddu cysylltiadau yng ngeiriad y polisi ei hun.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 33 yn cyfeirio at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae Polisi 36 yn ymdrin â hyn dan yr enw Metro'r De-ddwyrain.
Gellid cryfhau P33 i gynnwys cyfeiriad at gysylltiadau a gwasanaethau. P36 – ceir cyfleoedd i gyflawni seilwaith gwyrdd ar hyd y coridorau a byddai hyn yn cael ei gydnabod yn y testun ategol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae Polisi 33 yn cyfeirio at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'r testun ategol ar gyfer polisi 36 yn ymdrin â seilwaith gwyrdd yn ogystal â pholisi 9 a PCC.
Pan fo P35 yn cyfeirio at sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd i ddatblygu, gallai yn hytrach gyfeirio at sicrhau cymaint o gyfleoedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd â phosibl a gynigir gan gynigion datblygu newydd yn y rhanbarth, i sicrhau bod cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl ar yr amgylchedd naturiol.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol yn ceisio sicrhau cymaint o botensial economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol â phosibl. Bydd polisi 9 hefyd yn ymdrin â hyn a PCC.
Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn nhestun ategol P33. Gallai P35 gyfeirio at sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a gynigir gan ddatblygiad newydd yn y rhanbarth.	Wedi ymdrin â hyn. Cydnabyddir datblygu ac adfywio ym mholisi 1 ac mae'r adrannau rhanbarthol yn cydnabod eu treftadaeth unigryw a'r angen i'w wella. Mae'r testun ategol yn ceisio sicrhau cymaint â phosibl o botensial economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Bydd PCC yn ymdrin â hyn hefyd.

ACI o'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig	Ymateb Llywodraeth Cymru
Gellid cydnabod cyfleoedd a buddion adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn nhestun ategol P33 neu ei ychwanegu i'r Strategaeth Ofodol fel egwyddor troswaol.	Wedi ymdrin â hyn. Cydnabyddir datblygu ac adfywio ym mholisi 1 ac mae'r adrannau rhanbarthol yn cydnabod eu treftadaeth unigryw a'r angen i'w wella.
Gallai P35 gyfeirio at sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnig cymaint o gyfleoedd ar gyfer buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd â phosibl, yn hytrach na sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i gyflawni datblygiad newydd yn unig, i sicrhau y byddai'r amgylchedd naturiol yn cael ei wella yn sgil y Parc Rhanbarthol newydd.	Wedi ymdrin â hyn. Mae'r testun ategol yn ceisio sicrhau cymaint o botensial economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol â phosibl. Bydd polisi 9 hefyd yn ymdrin â hyn.
Effeithiau Cronnol	
Gallai'r FfDC roi mwy o bwyslais ar y rhai hynny sydd hefyd yn cynnig gwasanaethau dysgu sgiliau ac addysg. Pan fo'r FfDC yn annog buddsoddi yn rhwydwaith a seilwaith trafndiaeth Cymru a'i ddatblygu, gellid rhoi pwyslais ar yr angen ar yr angen am lwybrau cerdded a beicio diogel a chyfleus, yn ddelfrydol wedi'u hintegreiddio mewn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd cydlynol, sy'n gwella hygyrchedd cyfleusterau addysg drwy fathau cynaliadwy o drafnidiaeth gynaliadwy.	Cydnabyddir pwysigrwydd sgiliau ac addysg yn y FfDC a PCC. Mae'r testun ategol ar gyfer y polisïau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn ymdrin â'r angen am deithio llesol, rhwydweithiau seilwaith gwyrdd. Mae PCC hefyd yn nodi polisi cenedlaethol perthnasol.
Gallai'r FfDC geisio annog a hwyluso'n benodol datblygiad sy'n garbon niwtral.	Ymdrinnir â hyn ym mhob rhan o'r FfDC a PCC.
Pan fo polisïau yn cynnig, cefnogi neu'n annog datblygiad newydd neu dwf datblygiadau presennol, gallai polisi gynnwys geiriad sy'n ceisio diogelu bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. I sicrhau na chaiff bioamrywiaeth ei ddiogelu yn unig ond ei wella yn gyffredinol hefyd, dylai'r polisïau hyn ddarparu geiriad cryf sy'n nodi y byddai penderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystyried unrhyw effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ac ni ellir gwrthbwysu'r rhain gan enillion cymdeithasol neu economaidd, yn ogystal ag unrhyw welliannau a ragwelwyd i fioamrywiaeth leol. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar werth a phwysigrwydd cyflawni budd net mewn canopi coed.	Caiff hyn ei gwmpasu trwy bolisi 9, polisi 15 a PCC.

**Atodiad B Tabl Sgrinio i benderfynu a oedd angen newidiadau
pellach i'r ACI, yn dilyn newidiadau i Cymru'r Dyfodol, ar ôl
Craffu gan y Senedd**

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Llythyr 18 Tachwedd				
3	Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o wybodaeth am syniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'canolfannau lleol'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Fframwaith yn cael ei ddiweddarau i ystyried: dull mwy cytbwys o ddatblygu canolfannau trefol a gwledig sy'n ffynnu yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar ganolfannau trefol wedi'u hamgylchynu gan 'gefnwlad' wledig. patrymau gweithio newydd, o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn	Derbyn Rydym yn cytuno bod patrymau cyflogaeth wedi dod yn fwy hyblyg mewn termau gofodol ac y byddant yn parhau felly. Mae'r testun ategol i bolisiau 4 a 5 yn gwneud y pwynt hwn:- <i>“Gall y gallu cynyddol i weithio o gartref ac o bell, heb orfod bod yn y brif swyddfa, arwain at fwy o alw i fyw mewn ardaloedd gwledig a chyffleoedd i gadw'r boblogaeth oedran gweithio. Gallai hyn fod o fudd mawr i fusnesau gwledig a'r economi sylfaenol.”</i> Mae'r testun ategol i bolisiau 13 a 14 yn nodi:- <i>“Mae gwasanaethau band eang cyflym a thelathrebu symudol modern a dibynadwy yn hanfodol i'n bywydau beunyddiol, fel sydd wedi'i brofi gan nifer y bobl a weithiodd ac a ddysgodd o gartref yn ystod pandemig COVID-19. Mae seilwaith cyfathrebu digidol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant a chystadleurwydd economaidd busnesau yng Nghymru yn y dyfodol ac mae'n cefnogi</i>	Pennod 2 o dan y pennawd 'COVID-19' Mae'r testun newydd mewn coch:- Bu ansawdd a hygyrchedd ein hardaloedd lleol yn hynod bwysig i iechyd a llesiant pobl pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Roedd pawb yn gwerthfawrogi parciau a llecynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio, siopau ac amwynderau lleol, a'r aer glanach a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud. Tynnwyd sylw hefyd at natur hanfodol cysylltiadau band eang a chyfathrebu da i alluogi pobl i weithio gartref a chadw mewn cysylltiad â'i gilydd yn ystod y cyfnod hwn. Gall systemau cyfathrebu digidol da gael effaith gadarnhaol ar lesiant. Ymhlith yr heriau pwysig niferus yn ystod y cyfnod adfer bydd sicrhau y gall pob cymuned fwynhau'r pethau sylfaenol bwysig hyn. Mae llawer o'r camau brys a gymerwyd a'r newidiadau mewn ymddygiad a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig yn dod yn nodweddion parhaol mewn bywyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau sy'n nodi'r materion y mae'n rhaid i'n hymateb i'r pandemig fynd i'r afael â nhw. Mae i hyn oblygiadau i'r system gynllunio wrth i bobl ddefnyddio lleoedd yn wahanol, teithio llai a threulio mwy o amser yn gweithio o gartref. Rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r newidiadau hyn a chyfrannu at adferiad cynaliadwy, gan greu lleoedd iach a chadarn yn unol â'r weledigaeth. Polisi Cynllunio Cymru yw prif ffynhonnell manylion am y ffordd y bydd y system gynllunio yn cefnogi ymdrechion ail-greu. Testun rhagarweiniol i Bennod 4 Mae'r testun newydd mewn coch:-	Nid oes angen newid

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	ddiweddar, sydd wedi cynyddu'r angen am fand eang cyflym, dibynadwy a hygrych ym mhob rhan o Gymru.	<i>anghenion cymunedau ac unigolion, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol"</i> Er mwyn cydnabod argymhelliad y Pwyllgor, byddwn yn diwygio cyfeiriadau at 'ffocws ar dwf trefol' yn y testun rhagarweiniol i Bennod 4; yn cryfhau cyfeiriadau at fand eang ym Mhennod 2 o dan y pennawd 'COVID-19'; ac yn ychwanegu cyfeiriad at y rôl gynyddol bosibl ar gyfer hybiau cydweithio at destun ategol polisi 6. Tynnir sylw at rôl Pholisi Cynllunio Cymru wrth ddarparu dull Cymru gyfan o ymdrin â'r math hwn o ddatblygiadau yn Cymru'r Dyfodol hefyd.	Bydd y ffocws ar Bydd ardaloedd trefol sy'n tyfu <i>ledled Cymru</i> yn creu crynoadau o swyddi, gwasanaethau ac amwynderau a màs critigol o bobl i gynnal gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus da ac amrywiaeth o weithgareddau economaidd. Gall Mae ffocws ar dwf twf trefol yn galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd ac, ynghyd â gwaith dylunio trefol da, gall gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, ansawdd aer a llesiant Testun o dan Bolisi 6 Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae canol trefi yn dal yn ganolbwyntiau pwysig i gymunedau ac, yn fwyfwy, maent yn dod yn lleoedd i fyw ynddynt, yn ganolfannau gweithgarwch cymunedol a diwylliannol, ae yn ffocws i wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg <i>ac yn lleoliad i fannau cydweithio newydd.</i>	
Adroddiad Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig				
1	Dylai Cymru'r Dyfodol nodi'n benodol yr angen am berthynas ddwyochrog ac ailadroddol rhwng Cynlluniau Datblygu Strategol a bargeinion twf dros amser.	Derbyn Mae'r testun ategol i bolisi 19, 'Bargeinion Twf a Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol' yn ymdrin â'r gydberthynas bwysig rhwng bargeinion twf, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Mae'r gydberthynas rhwng y tair elfen yn bwysig, yn enwedig dros amser wrth i gynlluniau gael eu paratoi a'u diweddarau, a chaiff	Testun o dan bolisi 19 o dan 'Bargeinion Twf a Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol' Ychwanegir paragraff terfynol newydd at yr adran. Mae'r testun newydd mewn coch:- <i>'Dros amser wrth i fargeinion twf gael eu datblygu a'u cyflawni, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol gael eu paratoi a'u diweddarau a Chynlluniau Datblygu Strategol gael eu mabwysiadu a'u hadolygu, bydd y gydberthynas rhwng y tri ohonynt yn un cilyddol ac iteraidd. Mae'n bwysig, yn y dyfodol, y bydd y tair elfen yn parhau i gael eu llywio gan ei gilydd a chefnogi ei gilydd er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ac effeithiol.'</i>	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		Cymru'r Dyfodol ei ddiwygio i gynnwys y pwynt hwn.		
2	Dylai Polisi 6 gynnwys eiddo preswyl yn y rhestr o gyfleusterau y mae'n rhaid eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd.	Derbyn Derbynnir yr egwyddor bod canol trefi yn lleoliadau priodol i ddatblygiadau preswyl. Fodd bynnag, nid oes modd lleoli'r holl dai yng nghanol trefi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Un o themâu allweddol Cymru'r Dyfodol yw y dylid cyfeirio twf a gweithgarwch adfywio at ardaloedd trefol ac, yn arbennig, yng nghanol trefi a dinasoedd ac o'u hamgylch. Dyma'r sail i'r strategaeth ofodol ac mae'n thema allweddol sydd wrth wraidd llawer o'r polisiâu ategol. Mae Polisi 6, 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf', yn canolbwyntio ar gyfeirio datblygiadau amhreswyl at ganol trefi a dinasoedd. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar gyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn gwasanaethu tref, dinas neu ddalgylch rhanbarth cyfan. Dyma'r cyfleusterau y dylid eu lleoli yn yr ardaloedd mwyaf hygyrch, lle y gall pawb eu cyrraedd yn hawdd ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.	Testun o dan Bolisi 6 Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae egwyddor 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' wedi hen ymsefydlu mewn polisi cynllunio mewn perthynas â datblygiadau manwerthu. Fodd bynnag, gall gwaith cynllunio da ein helpu i ailystyried dyfodol canol trefi a dinasoedd, sy'n symud i ffwrdd o'u rolau manwerthu traddodiadol. Mae effaith COVID-19 ar y sector manwerthu yn sbardun pellach i wneud canol trefi yn fwy amlswyddogaethol. Mae canol trefi yn dal yn ganolbwyntiau pwysig i gymunedau ac, yn fwyfwy, maent yn dod yn lleoedd i fyw ynddynt, yn ganolfannau gweithgarwch cymunedol a diwylliannol ac yn ffocws i wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg. Maent yn fwy nag ardaloedd manwerthu dynodedig. Canol trefi yw rhannau mwyaf hygyrch ein trefi a dylent fod yn ffocws i dwf ac adfywio. Yn ogystal â datblygiadau amhreswyl, mae canol trefi yn lleoliad priodol i gartrefi newydd. Mae Polisi 2 yn darparu'r sail i awdurdodau cynllunio lleol gefnogi dwysáu yng nghanol trefi ac o'u hamgylch. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dyfodol canol ein trefi ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith datblygu ar raddfa fach, gan gynnwys tai newydd a datblygiadau defnydd cymysg. Dylid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae'r polisi hwn yn gymwys i ddatblygiadau sylweddol, y gellir eu diffinio'n fras fel cyfleuster a fydd yn gwasanaethu tref, dinas neu ddalgylch rhanbarth cyfan. Mater i awdurdodau cynllunio yw penderfynu a fydd datblygiad yn un sylweddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi gofynion pellach o dan 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' ar gyfer datblygiadau manwerthu.	Sgôr asesu a testun P6 wedi'i ddiweddarau i ddangos yr effaith hirdymor cadarnhaol ar yr amcan ACI ar dai

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		Yn hytrach, hyrwyddir lleoli datblygiadau preswyl ym Mholisi 2, 'Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol'. Mae hwn yn hyrwyddo canolbwyntio gwaith datblygu yng nghanol trefi, gan gynnwys lleoli cartrefi o fewn pellter cerdded i gyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Caiff Cymru'r Dyfodol ei ddiwygio er mwyn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael ar gyfer lleoli datblygiadau preswyl yng nghanol trefi ac o'u hamgylch.	Anogir awdurdodau cynllunio i ddilyn trywydd tebyg ar gyfer datblygiadau bach. Mae'n bwysig bod cyfleusterau lleol a chartrefi yn rhan o gymdogaethau defnydd cymysg, cerddadwy, yn enwedig mewn canolfannau lleol neu'n agos atynt yn unol â pholisi 2.	
3	Dylai Cymru'r Dyfodol nodi sut y bydd y strategaeth y mae'n ei hamlinellu yn hyrwyddo'r amcanion sydd yn Ffyniant i Bawb a'r cynigion sydd yn Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru.	Derbyn Mae Cymru'r Dyfodol yn cyfeirio at Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi, ac yn adlewyrchu ac yn cefnogi ei nodau drwy'r ddogfen gyfan. Er mwyn deall yn llawn sut mae Cymru'r Dyfodol mynd i'r afael â'r economi, mae angen ei ddarllen yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, cytunir y gellir nodi'r cysylltiadau rhwng Cymru'r Dyfodol a'r cynllun gweithredu ar yr economi yn gliriach ac ychwanegir paragraff newydd at Cymru'r Dyfodol i'r perwyl hwn. Ar hyn o bryd, mae Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru yn ymgynghoriad sydd wedi cau. Er yr ystyrir bod Cymru'r Dyfodol eisoes yn	<i>Pennod 1 o dan y pennawd 'Sut mae'r FfDC yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru?'</i> Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae nifer o strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru wedi llywio a helpu i greu Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Drafnidiaeth, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi, y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a Chynllun Carbon Isel Cymru. <i>Pennod 1 o dan y pennawd 'Cymru'r Dyfodol a....'</i> Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn helpu i gyflawni Ffyniant i Bawb – strategaeth genedlaethol Cymru. Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol sy'n seiliedig ar sylfeini cadarn, diwydiannau'r dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Ei nod yw meithrin cydnerthedd a diogelu'r economi at y dyfodol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio cymorth cyllid ar fusnesau sy'n cyd-fynd ag amcanion datgarboneiddio, sy'n arloesol ac yn entrepreneuriaidd, sy'n awyddus	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		adlewyrchu llawer o brif nodau 'Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru', nid yw wedi cael ei gynnwys yn Cymru'r Dyfodol y tro hwn am fod gwaith ar y fersiwn derfynol yn dal i fynd rhagddo. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi economi carbon isel a datgarboneiddio diwydiant. Mae'n cefnogi twf ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn. Mae'n cydnabod pwysigrwydd arloesedd, ymchwil a datblygu a gefnogir gan bartneriaeth cyhoeddus-preifat ac academiaidd er mwyn helpu i ddatblygu syniadau newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgynhyrchu uwch ym mhob un o'r pedwar rhanbarth gan roi enghreifftiau o sectorau lle mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'n cydnabod bod swyddi hyfedr sy'n talu cyflogau da yn sicrhau mwy o ffyniant. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ac yn cefnogi sectorau uwch-dechnoleg newydd a fydd yn creu ffyniant a chyfoeth yn y dyfodol megis deallusrwydd artifisial, technoleg ddigidol, dulliau teithio newydd a thanwyddau newydd, awtomeiddio a roboteq, a thechnolegau adnewyddadwy.	i allforio a mewnfario, sy'n helpu i feithrin sgiliau ac yn cefnogi cyflogaeth o ansawdd uchel, ac sy'n cefnogi awtomeiddio, ymchwil a datblygu a digideiddio. Mae'r Cynllun yn nodi sectorau thematig cenedlaethol a sectorau sylfaenol. Mae sectorau thematig yn cynnwys gweithgynhyrchu gwerth uchel, gwasanaethau y gellir eu masnachu (e.e. gwerthu gwasanaethau ar-lein) a galluogwyr (ysgogwyr cystadleurwydd allweddol e.e. sectorau digidol neu adnewyddadwy). Tra bod sectorau sylfaenol yn cynnwys twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal. Mae'r Cynllun hefyd yn cyflwyno model datblygu economaidd newydd sy'n canolbwyntio ar y rhanbarthau. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi nodau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac yn helpu i'w cyflawni. Mae Cymru'r Dyfodol yn gwneud y canlynol: • cefnogi economi carbon isel a datgarboneiddio diwydiant, a thwf ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy • cefnogi lleoli defnyddiau tir economaidd yn gynaliadwy • cefnogi twf arloesedd, ymchwil a datblygu, a chysylltiadau gwell rhwng addysg uwch a diwydiannau preifat • cefnogi datblygu gweithgynhyrchu uwch ym mhob rhanbarth • cydnabod pwysigrwydd sectorau allweddol y dyfodol megis peirianeg uwch, technolegau adnewyddadwy, Deallusrwydd Artiffisial, trafnidiaeth, awtomeiddio ac arloesi digidol • cefnogi'r economi sylfaenol ac yn nodi dull rhanbarthol ac isranbarthol o ddatblygu'r economi a gyflawnir drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol • cefnogi datblygu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu digidol.	

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		Cefnogir yr economi sylfaenol yn gryf hefyd a chyfeirir ati yn Cymru'r Dyfodol drwyddo draw. Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd datblygu seilwaith er mwyn diwallu anghenion yr economi a'r diwydiant gweithgynhyrchu yn y dyfodol ac mae'n cynnwys polisiau ar gyfathrebu digidol, ynni a thrafnidiaeth.		
4	Dylai polisiau ar gyfer Ardaloedd Twf Cenedlaethol nodi'r clystyrau a'r sectorau sy'n bwysig i bob rhanbarth.	Derbyn Ystyrir mai'r ffordd orau o ddatblygu strategaethau ar sectorau a chlystyrau yw drwy gydweithio ar lefel ranbarthol a lleol drwy CDSau a CDLLau, Fforymau Economaidd Rhanbarthol a rhaglenni partneriaeth cyhoeddus-preifat. Fodd bynnag, cytunir y dylid diwygio testun Cymru'r Dyfodol er mwyn egluro'r safbwynt hwn. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi sectorau sy'n bwysig i bob rhanbarth a lle mae cyfle i sicrhau twf pellach. At hynny, ceir elfennau cryf o glystyru sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o Gymru lle mae gan sectorau penodol gynrychiolaeth gref, er enghraifft ym meysydd gweithgynhyrchu uwch, ymchwil a	Testun o dan bolisi 21 Mae'r testun newydd mewn coch:- Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Twf Gogledd Cymru a hwyluso'r gwaith o'i chyflawni a sicrhau cymorth i greu rhanbarth deallus, cadarn a chysylltiedig. Bydd yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud y penderfyniadau lleoli strategol a fydd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau hirdymor y Fargen Twf mewn perthynas â thai, twf economaidd, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried pwysigrwydd sectorau economaidd allweddol ledled y rhanbarth. Dylai hefyd gydnabod cyfleoedd i ddatblygu clystyrau economaidd, lle mae busnesau yn dewis lleoli eu hunain yn agos at ei gilydd er budd pawb a lle mae angen buddsoddi ymhellach mewn seilwaith er mwyn cefnogi hyn. Testun o dan bolisi 26 Mae'r testun newydd mewn coch:-	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		datblygu ynni a datblygu lled-ddargludyddion cyfansawdd. Mae PCC yn cydnabod pwysigrwydd clystyru ac yn nodi y dylai polisïau cynlluniau datblygu nodi rhwydweithiau a chlystyrau posibl. Dylai cynlluniau datblygu hefyd gydnabod y cysylltiadau seilwaith trafndiaeth, amgylcheddol a thelathrebu cysylltiedig sydd eu hangen i gefnogi'r rhwydweithiau a'r clystyrau hyn.	Dylai dull rhanbarthol o gynllunio, wedi'i atgyfnerthu, gael ei lywio gan Fargen Twf y Canolbarth a cheisio hwyluso'r gwaith o'i gyflawni. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud y penderfyniadau lleoli strategol a fydd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau hirdymor y Fargen Twf mewn perthynas â thai, twf economaidd, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol. Dylai hefyd ystyried sut y gall sectorau economaidd traddodiadol a newydd gael eu cefnogi ledled y Canolbarth a bod yn agored i archwilio rôl mathau newydd o ardaloedd cyflogaeth yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylai hefyd gydnabod cyfleoedd i ddatblygu clystyrau economaidd, lle mae busnesau yn dewis lleoli eu hunain yn agos at ei gilydd er budd pawb a lle mae angen buddsoddi ymhellach mewn seilwaith er mwyn cefnogi hyn. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ystyried y potensial i ehangu a thyfu sectorau rhanbarthol allweddol, gan gynnwys amddiffyn a diogelwch, iechyd anifeiliaid a milfeddygaeth, biodechnoleg ac amaethdechnoleg. Mae dealltwriaeth o'r mathau o safleoedd a'r seilwaith y bydd eu hangen ar y sectorau hyn yn y dyfodol yn bwysig a dylai fanteisio ar botensial asedau rhanbarthol allweddol, megis Campws Arloesi a Menter Aberystwyth. Testun o dan bolisi 29 Mae'r testun newydd mewn coch:- Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Mae gan y system gynllunio, drwy ei Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'w chwarae wrth greu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Strategaeth Adfywio Economaidd a dylai sicrhau y caiff penderfyniadau lleoliadol allweddol ynghylch safleoedd tai a chyflogaeth, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol eu cynllunio er mwyn cefnogi	

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
			buddsoddiad a phrosiectau ledled y rhanbarth ac elwa arnynt. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried sut y gall sectorau economaidd traddodiadol a newydd gael eu cefnogi a bod yn agored i archwilio rôl mathau newydd o ardaloedd cyflogaeth yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylai hefyd gydnabod cyfleoedd i ddatblygu clystyrau economaidd, lle mae busnesau yn dewis lleoli eu hunain yn agos at ei gilydd er budd pawb a lle mae angen buddsoddi ymhellach mewn seilwaith er mwyn cefnogi hyn. Testun o dan bolisi 33 Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cyfrif am 51% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru. Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd gan y system gynllunio, drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'w chwarae wrth greu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol. Mae Bargaen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ac atgyfnerthu dull gweithredu rhanbarthol. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargaen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd a dylai sicrhau y caiff penderfyniadau lleoliadol allweddol ynghylch safleoedd tai a chyflogaeth, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol eu cynllunio er mwyn cefnogi buddsoddiad a phrosiectau ledled y rhanbarth ac elwa arnynt. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried sut y gall sectorau economaidd traddodiadol a newydd gael eu cefnogi a bod yn agored i archwilio rôl mathau newydd o ardaloedd cyflogaeth yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylai hefyd gydnabod cyfleoedd i ddatblygu clystyrau economaidd, lle mae busnesau yn dewis lleoli eu hunain yn agos at	

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
			ei gilydd er budd pawb a lle mae angen buddsoddi ymhellach mewn seilwaith er mwyn cefnogi hyn.	
8	Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys ymrwymiad i ymgysylltiad mwy rhagweithiol â phrifysgolion, gan eu nodi felartneriaid gweithredol ym maes datblygu cenedlaethol a rhanbarthol	Derbyn Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at rôl bwysig prifysgolion ac yn gofyn i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried sut y gallant chwarae rôl amlycach wrth gefnogi economïau rhanbarthol, arloesedd a'u cymunedau. Ychwanegir testun i lywio gweithgarwch ymgysylltu rhagweithiol â phrifysgolion.	Pennod 2 o dan y pennawd 'Ffyniant' Mae'r testun newydd mewn coch:- Gall ein prifysgolion chwarae rôl bwysig yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan arwain arloesedd ac ymchwil a darparu cyfleoedd i fyfyrwyr o bob oed dyfu a datblygu. Maent yn chwarae rôl allweddol yn eu cymunedau lleol, gan ddenu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i wahanol rannau o Gymru a chefnogi economïau a busnesau lleol. Dylai Awdurdodau Cynllunio fynd ati i ymgysylltu â phrifysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gefnogi datblygiad cenedlaethol a rhanbarthol.	Nid oes angen newidid oes angen newid
9	Dylai Cymru'r Dyfodol gydnabod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i dir comin fel asedau cenedlaethol.	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i dir comin. Maent yn chwarae rôl amgylcheddol a hamdden bwysig, a gydnabyddir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a disgwyliwn i awdurdodau cynllunio adlewyrchu hyn yn lleol. Ychwanegir testun at Cymru'r Dyfodol er mwyn cydnabod y pwynt hwn.	Testun o dan Bolisi 9 Mae'r testun newydd mewn coch:- Wrth i boblogaeth Cymru ddod yn fwyfwy trefol, bydd y cyfle gorau i sicrhau'r manteision mwyaf o ran llesiant o seilwaith gwyrdd yn yr ardaloedd hyn ac o'u hamgylch. Gall y defnydd arloesol o atebion yn seiliedig natur ac integreiddio seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch helpu i adfer nodweddion a phrosesau naturiol mewn dinasoedd a thirweddau. Mae darparu mannau a choridorau gwyrdd o ansawdd uchel, sy'n hygyrch yn lleol, yn helpu i gynnal a gwella swyddogaeth strategol ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol, ac mae'n mynd i'r afael â llesiant corfforol a meddyliol. Gall asedau seilwaith gwyrdd lleol megis hawliau tramwy cyhoeddus, tir comin, parciau, meysydd pentref a rhandiroedd oll wneud cyfraniad cronol at gysylltedd ecolegol cenedlaethol ehangach. Dangoswyd pwysigrwydd gwirioneddol mannau gwyrdd trefol pan fu'n rhaid i bobl gadw'n heini mewn mannau gwyrdd lleol cyfagos yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.	Nid oes angen newid.
10	Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad clir i adlewyrchu'r	Derbyn Caiff y gydnabyddiaeth o effaith COVID-19 ym Mhennod 2 o dan y pennawd	Testun o dan Bennod 2 o dan y pennawd 'COVID-19' Mae'r testun newydd mewn coch:-	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	gwersi a ddysgwyd o COVID-19 ac egluro sut y bydd y fframwaith yn helpu i wella'r adferiad ar ôl COVID-19 ymhellach. Dylai gydnabod y cyfraniadau posibl gan fuddsoddiadau mewn seilwaith, tai, cysylltedd, rhwydweithiau gwresogi a chyfalaf naturiol, a chynyddu capasiti yn yr economi sylfaenol.	'COVID-19' ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r ddealltwriaeth ddiweddaraf o effaith uniongyrchol a thymor hwy COVID-19 ar ein cymdeithas.	Bu ansawdd a hygyrchedd ein hardaloedd lleol yn hynod bwysig i iechyd a llesiant pobl pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Roedd pawb yn gwerthfawrogi parciau a llecynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio, siopau ac amwynderau lleol, a'r aer glanach a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud. Tynnwyd sylw hefyd at natur hanfodol cysylltiadau band eang a chyfathrebu da i alluogi pobl i weithio gartref a chadw mewn cysylltiad â'i gilydd yn ystod y cyfnod hwn. Gall systemau cyfathrebu digidol da gael effaith gadarnhaol ar lesiant. Ymhlith yr heriau pwysig niferus yn ystod y cyfnod adfer bydd sicrhau y gall pob cymuned fwynhau'r pethau sylfaenol bwysig hyn. Mae llawer o'r camau brys a gymerwyd a'r newidiadau mewn ymddygiad a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig yn dod yn nodweddion parhaol mewn bywyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi <i>Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau</i> sy'n nodi'r materion y mae'n rhaid i'n hymateb i'r pandemig fynd i'r afael â nhw. Mae i hyn oblygiadau i'r system gynllunio wrth i bobl ddefnyddio lleoedd yn wahanol, teithio llai a threulio mwy o amser yn gweithio o gartref. Rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r newidiadau hyn a chyfrannu at adferiad cynaliadwy, gan greu lleoedd iach a chadarn yn unol â'r weledigaeth. Polisi Cynllunio Cymru yw prif ffynhonnell manylion am y ffordd y bydd y system gynllunio yn cefnogi ymdrechion ail-greu.	
11	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grid Cenedlaethol, y cwmnïau dosbarthu trydan a'r diwydiant ynni adnewyddadwy i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r gwelliannau strategol y mae angen eu gwneud i'r seilwaith trosglwyddo a dosbarthu trydan, gan gynnwys unrhyw seilwaith	Derbyn Mae Cymru'r Dyfodol eisoes yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ei hysgogiadau polisi er mwyn helpu i gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy drwy gydgyssylltu camau strategol i adeiladu achos dros seilwaith grid newydd neu wedi'i atgyfnerthu lle y bo angen (testun o dan bolisiau 17 a 18). Mae cydgysylltu rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru, gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu, y Grid Cenedlaethol a datblygwyr ynni adnewyddadwy yn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r materion a'r gwelliannau sydd eu hangen.	Testun o dan Bolisiau 17 a 18 Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae system ynni'r DU bellach yn newid yn sylweddol, gyda'r gwaith o gynhyrchu a dosbarthu ynni yn digwydd fwyfwy yn y cymunedau a'r rhanbarthau lle y caiff yr ynni ei ddefnyddio. Mae'r ffiniau rhwng systemau hefyd yn pylu, gydag ynni yn cael ei droi (a'i storio) ar wahanol ffurfiau er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion. Hefyd mae angen ystyried storio ynni ar raddfa fawr fel rhan o'r system ynni er mwyn cydbwysu'r grid. Yn ystod oes Cymru'r Dyfodol mae'r system ynni yn debygol o symud i ddull 'system amlffynhonnell', a fydd yn gofyn am hyblygrwydd er mwyn manteisio'n llawn ar y rhyng-gydberthnasau a synergeddau rhwng y sectorau pŵer, gwres a thrafnidiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr her sylweddol a fydd yn gysylltiedig â seilwaith a chapasiti'r grid o ran y potensial ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd ar y tir a'r môr ledled Cymru. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda rhwydweithiau ynni a datblygwyr er	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	newydd sydd ei angen yng nghanolbarth Cymru. Dylai fersiwn gyntaf Cymru'r Dyfodol gynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth o'r fath. Os yw Llywodraeth Cymru yn credu na fyddai'n briodol cynnwys ymrwymiad o'r fath yn Cymru'r Dyfodol, dylai ymrwymo i wneud hynny mewn ffordd arall sy'n briodol yn ei barn hi.	Nid yw Cymru'r Dyfodol yn nodi polisi ynni Llywodraeth Cymru ond mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn ymwybodol o'r mater hwn a bydd yn cymryd camau yn y maes hwn. Caiff Cymru'r Dyfodol ei ddiwygio er mwyn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r Grid yng Nghymru ac y bydd gwaith a gweithgarwch cydgysylltu sy'n mynd rhagddo yn mynd i'r afael â'r materion hyn.	mwyn nodi cyfleoedd a rhwystrau yn ogystal â chydweithio i ddod o hyd i atebion.	
13	Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio testun y paragraff olaf ar dudalen 99 Cymru'r Dyfodol i wneud ei bwriad yn fwy eglur y dylai gwaith cynllunio ar lefel ranbarthol nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.	Derbyn Mae testun o dan bolisiau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol eisoes yn nodi y caiff gwaith cynllunio ynni rhanbarthol ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiect adnewyddadwy. Fodd bynnag, credir bod hyn wedi arwain at ddryswch a'r gred bod gwaith cynllunio ynni rhanbarthol, yn y cyd-destun hwn, yn cyfeirio at Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a bod pryder y byddai'r cynlluniau hyn yn cyfyngu ymhellach	Testun o dan Bolisiau 17 a 18 Mae'r testun newydd mewn coch:- Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio cefnogi gwaith cynllunio ynni rhanbarthol a lleol i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiect adnewyddadwy. Mae cynllunio ynni yn y cyd-destun hwn yn golygu'r broses a ddilynir gan awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid i lywio, llunio a galluogi agweddau allweddol ar y broses o newid i system ynni carbon isel. Bydd hyn yn helpu ardaloedd lleol i ddatblygu cynlluniau er mwyn cyflawni targedau o ran newid yn yr hinsawdd drwy ystyried amrywiaeth o senarios ynni lleol gwahanol. Bydd cynlluniau ynni ardaloedd lleol yn nodi'r cyfuniad a ffefrir o newidiadau technegol a newidiadau i systemau sydd angen eu gwneud i'r system ynni leol, er mwyn datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth leol a manteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol.	Testun ychwanegol wedi'i ychwanegu i destun asesu P18 i amlinellu dull lleol a rhanbarthol.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Nid yw hynny'n wir. Mae cynllunio ynni yn y cyd-destun hwn yn golygu'r broses a ddilynir i lywio, llunio a galluogi agweddau allweddol ar y broses o newid i system ynni carbon isel. Mae'n helpu ardaloedd lleol i ddatblygu cynlluniau er mwyn cyflawni eu targedau o ran newid yn yr hinsawdd drwy ystyried amrywiaeth o senarios ynni lleol gwahanol. Mae cynlluniau ynni ardaloedd lleol yn nodi'r cyfuniad a ffeirir o newidiadau technegol a newidiadau i systemau sydd angen eu gwneud i'r system ynni leol, er mwyn datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth leol a manteision ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol. Caiff hyn ei egluro yn nhestun Cymru'r Dyfodol.		
15	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai maen prawf 2 ym Mholisi 18 ei gwneud yn ofynnol cymhwyso'r prawf dim effeithiau	Derbyn Rydym yn derbyn y bydd y newidiadau hyn a awgrymir i Bolisi 18 yn helpu i'w wneud yn gliriach a sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag arfer sefydledig.	Polisi 18 Mae'r testun newydd mewn coch:- Caniateir cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gan gynnwys adbweru) sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amodol ar bolisi 17 a'r meini prawf canlynol: 1. Y tu hwnt i'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiadau gwynt a phob man ar gyfer pob technoleg arall, ni chaiff y cynnig effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos	Nid oes angen newid. Mae'r asesiad o'r polisi tirwedd eisoes yn cyfrif am y newid hwn a'r cyfeiriadau yn y testun.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	gweledol neu sain andwyol annerbyniol ar gymunedau cyfagos nac anheddau unigol. Dylai hefyd ystyried a ddylai effaith gronnus fod yn ystyriaeth wrth asesu effeithiau amgylcheddol posibl eraill.		(yn enwedig ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol); 2. Bwriedir i'r cynnig leihau effeithiau gweledol andwyol. Nid oes unrhyw effeithiau gweledol ar gymunedau ac anheddau unigol cyfagos, ac mae effaith gronnus y cynnig, gyda datblygiadau eraill sy'n bodoli eisoes neu sydd yn yr arfaeth, yn dderbyniol; Ychwanegir paragraff at ddiwedd Polisi 18 yn dilyn y meini prawf Dylid hefyd ystyried effeithiau cronol cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n bodoli eisoes a rhai sydd wedi cael caniatâd.	Mae'r asesiad effeithiau cronus yn parhau heb ei newid.
16	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol wedi'u halinio'n dda ac yn ategu ei gilydd mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy. Dylai Cymru'r Dyfodol roi arweiniad ar warchod glanfeydd posibl ceblau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr.	Derbyn Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at y gydberthynas â'r Cynllun Morol Cenedlaethol ac yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod y cynlluniau hyn yn darparu rhwydwaith cydgysylltiedig ar gyfer rheoli newid o amgylch ein harfordir. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae Polisi 24, Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni, a Pholisi 32, Dyfrffordd y Ddau Gledau, hefyd, mewn egwyddor, yn cefnogi datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr, gan gynnwys seilwaith lle mae ceblau yn cyrraedd y tir. Caiff yr adrannau priodol ar ynni adnewyddadwy yn Cymru'r Dyfodol	Testun o dan Bolisiau 17 a 18 Mae'r testun newydd mewn coch:- Rhydd polisi 18 fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r system gynllunio yn llunio polisiau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau ar y tir. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynigion ar y môr ac yn eu hystyried yn rhan bwysig o'n cymysgedd ynni yn y dyfodol ond nid ydynt yn rhan o gylch gwaith Cymru'r Dyfodol. Cefnogir agweddau datblygu ar y tir cynlluniau ar y môr, er enghraifft seilwaith mewn mannau lle mae ceblau yn cyrraedd y tir. Dylai Cynlluniau Strategol a Lleol nodi a galluogi datblygiadau priodol ar y tir er mwyn cefnogi cynlluniau o'r fath. Mae Cymru'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ymdrin ag ynni ac yn adlewyrchu'r hierarchaeth ynni fel y'i nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r ddau gynllun yn cydnabod bod nifer o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy amrywiaeth o dechnolegau, ar y tir ac ar y môr, y dylid manteisio arnynt i'r eithaf er mwyn helpu i gyflawni'r targedau. Testun o dan Bolisi 24	Cryfhawyd testun asesu Amcan 6 ar gyfer Polisi 24 yr ACI. Dim newidiadau i Bolisiau 18 a 32.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
		eu diwygio er mwyn sicrhau y caiff safleoedd lle mae ceblau yn cyrraedd y tir ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr eu hystyried ym mhob cynllun datblygu.	Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ynni adnewyddadwy a charbon isel a sicrhau bod y Gogledd yn chwarae ei ran wrth ddatgarboneiddio cymdeithas. Mae gan y rhanbarth gryn botensial i gynhyrchu ynni gwynt, solar a morol ac mae ganddo'r potensial i chwarae rôl barhaus wrth gynhyrchu ynni o ynni niwclear. Hefyd mae cyfle ledled y rhanbarth i gynhyrchu hydrogen er mwyn sicrhau capasiti storio ynni a ffynhonnell tanwydd trafnidiaeth ar gyfer coridor yr A55, Porthladd Caergybi a chymunedau gwledig. Mae nifer o gyfleoedd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr yn yr ardal hon a rôl cynlluniau datblygu yw galluogi datblygiadau priodol ar y tir, gan gynnwys safleoedd lle mae ceblau yn cyrraedd y tir. Testun o dan Bolisi 32 Mae'r testun newydd mewn coch:- Lleolir rhai datblygiadau yn yr amgylchedd morol, a rôl Cymru'r Dyfodol a chynlluniau cynlluniau datblygu eraill yw galluogi datblygiadau ar y tir priodol er mwyn cefnogi cynlluniau o'r fath, gan gynnwys safleoedd lle mae ceblau yn cyrraedd y tir.	
17	Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad clir mai dyma haen uchaf y cynllun datblygu a bod yn rhaid asesu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	Derbyn Mae Pennod 1 o dan y pennawd 'Beth yw'r ddogfen hon?' eisoes yn nodi mai "Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu". Er mwyn pwysleisio'r pwynt hwn, caiff ei ailddatgan ym Mhennod 1 o dan y pennawd 'system a arweinir gan gynllun'.	Pennod 1 o dan y pennawd 'System a arweinir gan gynllun' Mae'r testun newydd mewn coch:- Drwy lunio Cymru'r Dyfodol mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu haen genedlaethol y cynllun datblygu. Hon yw'r haen uchaf o gynllun datblygu. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ymdrin â materion ar lefel ranbarthol ac isranbarthol ac mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn ystyried materion ar lefel leol.	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	arfaethedig yn ei erbyn.	O ran Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ychwanegir testun o dan Bolisiau 17 a 18 o dan y pennawd 'Datblygiadau' er mwyn cadarnhau y penderfynir at Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn unol â Cymru'r Dyfodol.	Testun o dan Bolisiau 17 a 18 o dan y pennawd 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' Mae'r testun newydd mewn coch:- Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: Ystyrir bod cynigion ar gyfer datblygiadau ynni mawr yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar gynigion islaw'r trothwy ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Fel y nodir mewn deddfwriaeth, mae'n rhaid penderfynu ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn unol â Cymru'r Dyfodol, sef cynllun datblygu cenedlaethol Cymru.	
19	Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei rôl o ran gwella cysylltedd rhwng gogledd a de Cymru a chysylltiadau trafnidiaeth rhyng-ranbarthol eraill o bwysigrwydd cenedlaethol. Dylai hyn hefyd fynd i'r afael â chysylltedd rhwng y dwyrain a'r gorllewin yng ngogledd a de	Derbyn Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi drafft cyntaf Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, Llwybr Newydd, er mwyn ymgynghori arni. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth, blaenoriaethau a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltedd ledled Cymru Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol ac yn buddsoddi yn y gwaith o'i wella. Ychwanegir testun er mwyn egluro sut y bydd hyn yn gwella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Mae	Testun o dan Bolisiau 11 a 12 Mae'r testun newydd mewn coch:- Teithio yng Nghymru Mae'r polisiau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol yn nodi'r mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi ac yn buddsoddi ynddynt er mwyn gwella cysylltedd. Bydd y mesurau hyn yn gwella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de, yn ogystal â chysylltedd rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn y gogledd, y de a'r canolbarth. Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn egwyddor sylfaenol gan Lywodraeth Cymru sy'n sail i Cymru'r Dyfodol.	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	Cymru fel ei gilydd.	hyn yn cynnwys ailagor llinellau rheilffordd a gorsafoedd trenau, gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol a datblygu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Ceir rhagor o fanylion yn y fersiwn ddrafft o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.	Mapio Datblygiadau ar Goridau Strategol a Datblygiadau Metro o dan Bolisiau 11 a 12 Dileu'r map ac, yn ei le, roi Ffigurau 3 a 4 o Rheilffordd i Gymru – Diwallu anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/rheilffordd-i-gymru-yr-achos-dros-ddatganoli.pdf Dylid cynnwys y testun ar y mapiau hyn er mwyn dangos y camau manwl sy'n cael eu cymryd i wella cysylltedd ar y rhwydwaith rheilffyrdd a thrwy brosiectau Metro. Hefyd, dylid nodi'r glir fod y rhain yn dod o Rheilffordd i Gymru – Diwallu Anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol.	
20	Dylai'r testun sy'n ategu Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd nodi rhywogaethau a chynefinoedd adran 7 fel sbardunau posibl ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd.	Derbyn Cyfeirir at swyddogaeth a rôl rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7 yn y testun ategol i Bolisi 9.	Testun o dan Bolisi 9 Mae'r testun newydd mewn coch:- Mae angen ehangu safleoedd dynodedig a chreu cysylltiadau rhyngddynt er mwyn cynyddu gallu rhywogaethau ac ecosystemau i addasu i bwysau newid yn yr hinsawdd a llygredd. Er bod safleoedd a ddiogelir yn hynod bwysig i gadernid hirdymor ein hecosystemau, ni ddylid eu hystyried yn ynysoedd o fewn y dirwedd, ond yn hytrach dylent ffurfio nodau rhwydweithiau ecolegol cadarn a swyddogaethol mawr a seilwaith gwyrdd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r rhywogaethau a'r cynefinoedd o bwys mawr a nodwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sbardun allweddol i adfer a chreu cynefinoedd.	Nid oes angen newid.
24	Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad ar rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol	Derbyn Gellir egluro rôl Parciau Cenedlaethol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn Cymru'r Dyfodol.	Ychwanegir testun o dan Bolisi 19 ar ôl yr adran sy'n dwyn y teitl 'Cydb berthnasau Trawsffiniol' Mae'r testun newydd mewn coch:- Parciau Cenedlaethol	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
	wrth baratoi cynlluniau datblygu strategol a dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r goblygiadau o ran adnoddau.	Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r Rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn nodi y bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelod o'r priod Gyd-bwyllgor Corfforedig ac yn cael pleidleisio wrth baratoi CDS. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu ar y cyfraniad ariannol gan bob prif gyngor (gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol) fel rhan o'r gyllideb ar gyfer pob CDS/Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ategu'r Rheoliadau ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn nodi goblygiadau cost paratoi CDS. Mae hyn yn seiliedig ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf Cynllunio Cymru 2015, (a ddiweddarwyd er mwyn ystyried y cynnydd perthnasol mewn costau).	Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn endidau cynllunio unigryw gyda chylch gwaith penodol i adlewyrchu nodweddion unigryw eu hardaloedd. Mae Parciau Cenedlaethol wrth wraidd Rhwydweithiau ecolegol cadarn ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae mewn Cynlluniau Datblygu Strategol fel rhan o'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, diogelu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a hyrwyddo iechyd a llesiant. Mae polisiâu Cymru'r Dyfodol yn parchu swyddogaethau Parciau Cenedlaethol o ran eu dibenion statudol. Ar lefel ranbarthol, lle y caiff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu hystyried yng nghyd-destun ranbarthol gofodol ehangach, mae'n rhaid i'w dyletswydd statudol lywio Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi cynllunio ehangach ar gyfer Parciau Cenedlaethol.	
Newidiadau Pellach				
Rh if	Rhan o'r Cynllun		Y newid a gynigir	
1	Drwy'r ddogfen		Diwygio'r testun er mwyn adlewyrchu'r newid o 'Newid yn yr Hinsawdd' i 'Argyfwng Hinsawdd'.	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
2	Drwy'r ddogfen		Diweddaru'r graffigwaith a'r mapiau gan gynnwys penawdau newydd, esboniad gwell, newidiadau gweledol a dileu graffigwaith diangen.	Nid oes angen newid.
3	Drwy'r ddogfen		Cywiro gwallau drafftio a chysodi; gwelliannau gramadegol, geiriol a chyflwyniadol; diweddaru terminoleg a statws dogfennau; diweddaru cyfeiriadau; gwella cyflwyniadau gweledol; rhifo'r meini prawf mewn polisïau; a newidiadau drafftio terfynol eraill o'r fath.	Nid oes angen newid.
4	Cyflwyniad o dan y pennawd - 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o Cymru'r Dyfodol'		Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cymru'r Dyfodol O dan Erthygl 6 o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 105 o'r Rheoliadau Cynefinoedd), mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lle y gallai cynllun neu brosiect effeithio ar safleoedd sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (a elwid gynt yn Safleoedd Natura 2000 cyn y diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019). Yn unol â pholisi cynllunio, rydym wedi cynnwys safleoedd Ramsar yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 5 hefyd yn darparu canllawiau mewn perthynas â safleoedd Natura 2000 sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol a safleoedd Ramsar, gan gynnwys gwrthod datblygiadau lle mae effeithiau andwyol ar y nodweddion y mae safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer. Mae mesurau lliniaru penodol wedi'u datblygu yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a fydd yn rhoi arweiniad cryf i gynlluniau a phrosiectau haen is (gweler tabl 6 ac Atodiad A i'r adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd). Nid yw Cymru'r Dyfodol yn cefnogi cynlluniau na phrosiectau haen is lle na ellir diystyru'r posibilrwydd y bydd effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle. Bydd angen i waith datblygu ar gam haen is cynllun neu brosiect ddangos nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar nodweddion dynodedig safle Natura 2000 sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol na safle Ramsar, ac nid yw Cymru'r Dyfodol yn cefnogi cynlluniau na phrosiectau haen is, os na ellir dod i'r casgliad hwn, ni ellir cymeradwyo cynlluniau na phrosiectau haen is	Nid oes angen newid.

Argymhelliad / Casgliad		Ymateb Llywodraeth Cymru		Oes angen asesiad pellach?
		Derbyn / Gwrthod	Y Newid a Wnaed	ACI
